



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



Y

(5)

CYFAILL DIFYR:

YN CYNWYS

HYNODION DICK NANCY,

AC AMRYW CHWEDLAU DIFYRUS ERAILL, &c., &c.,

GAN

RHUDDENFAB.

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE STREET.

AT Y DARLLENYDD.

HYNAWS DDARLLENYDD,

Pan yn anfon yr ychydig lythyrau a ymddangosodd yn yr *Herald Cymreig* dan y penawd "HYNODION DICK NANCY," nid oedd genyf un amcan uwch na chroniclo ychydig o brif nodweddion y digrifol dorwr beddau, mor agos ag y gallaswn yn ei *iaith* a'i *arddull* cyffredin ef ei hun: ond wedi cael fy anog gan luaws mawr o ddarllenwyr y llythyrau hyny, oddiyma ac oddi-draw yn Nghymru, "i fyned yn mlaen," ar dderbyniad cais oddiwrth y Cyhoeddwyr, cydsyniais i barotoi casgliad helaethach i'w ddwyn allan yn y ffurf bresenol, gan obeithio y cyferfydd â'r un croesaw eto, ac yr etyb ei unig amcan o fod yn "gydymaith difyr" i'r neb a'i darlleno.

Gorphwysaf, yr eiddot yn gywir,

RHUDDENFAB.

Rhuthyn.

AT Y DARLLENYDD.

HYNAWS DDARLLENYDD,

Pan yn anfon yr ychydig lythyrau a ymddangosodd yn yr *Herald Cymreig* dan y penawd "HYNODION DICK NANCY," nid oedd genyf un amcan uwch na chroniclo ychydig o brif nodweddion y digrifol dorwr beddau, mor agos ag y gallaswn yn ei iaith a'i arddull cyffredin ef ei hun: ond wedi cael fy anog gan luaws mawr o ddarllenwyr y llythyrau hyny, oddiyma ac oddi-draw yn Nghymru, "i fyned yn mlaen," ar dderbyniad cais oddiwrth y Cyhoeddwyr, cydsyniais i barotoi casgliad helaethach i'w ddwyn allan yn y ffurf bresenol, gan obeithio y cyferfydd â'r un croesaw eto, ac yr etyb ei unig amcan o fod yn "gydymaith difyr" i'r neb a'i darlleno.

Gorphwysaf, yr eiddot yn gywir,

RHUDDENFAB.

Rhuthyn.

CYNWYSIAD.

	TUDAL.
Rhagymadrodd	3
Rhagdraeth	5
Ei deitl	7
„ berson	8
Y bedd cyntaf a dorodd	9
Ei gariad cyntaf	15
Claddu ei unig fachgen Bob	15
Ei ail wraig	16
„ gi	17
„ gôf	20
„ onestrwydd	22
Yn onestach na Job... ..	23
Dial ar hen Ynad marw	25
Cweirio “Giant!”	26
Disgyblu'r Clochydd yn ymyl yr allor!	27
Ei ddull o ddweyd Stori	27
„ allu i ddyfeisio direidi	30
„ arabedd	33
„ farn am y <i>Common Prayer</i> a Chladdedigaeithau	35
„ „ Fedd Argraffiadau	37
„ ddawn canu	41
Ei hoff gerdd <i>Thumbkin Dance</i>	43
„ „ “Cân newydd yr hen amser gynt”	45
„ „ “Cân y deryn du”	46
Ei sel dros yr Eglwys	47
„ orchest gampau	49
Mesur corph	50
Neidio trwy ffenostr mewn dychryn... ..	50
Ar yr Elor	51
Teithio yn yr <i>Hearse</i>	52
Enock y Pension a'r Archddiacon	55
Yn y rhyfel	55
Llais o'r bedd	56
Yfed tê camomile	57
Tori bedd am <i>wager</i>	58
Proffwydoliaeth ryfedd	59
Proffwydoliaeth arall	60
Myn'd i gladdu dyn yn fyw	60
Myned â'r Arch adref... ..	61
Gair yn ei amser	62
Sut mae'r <i>Trade</i>	62

	TUDAL.
Brawychu ceidwad y carchar...	63
Ledio dyn i'r fynwent...	64
Ei hobbies	65
Englynion T. ap Gwilym i'r Llygoden Eglwys	67
Ei farn am "weddi o'r frest"	69
Ystyriwch y brain	70
Goleu'r ganwyll yn llygad y gath	71
Torwyr cyhoeddiadau	71
Adnod i brofi	72
Eisteddfod yr Ysgubor Flewog	73
Yn y Trên	75
Dadl yr iaith Gymraeg a'i phlant	76
Dafydd Owen y Gô	80
Golchi'r Mochyn	81
Penog Coch	82
Evan Pugh, Caenewydd	83
Awenyddion bro Llanerfyl	84
Cam gwag	86
Simon Jones o'r Bala	87
Yr Ingrams	88
Araeth Benhoit...	89
Amen	91
Spirits	91
Siomi mewn gwraig	92
Priodas Dafydd Pirs	92
Ffasiwn Newydd	93
Teiliwr gonest	94
Glanygors, y Clochydd, a'r Ci yn yr Eglwys	94
Tatws Laeth	95
Dyn "Particular"	96
Y gyfraith ni newidir	98
"Talcen Slip"	98
Tendiwch y Tunel	100
Y "V" fawr	100
Ffit, na gormod...	101
Darllen difyfyr...	102
Y ddanodd	102
Ddim digon gwirion i hynny eto	103
Beth gaiiff Willie fod?...	103
Yn byw	104
"Y Llo aur"	104
Y dydd yn tori	105
"Codi'r bys bach"	106
Dydd Priodas	106
Cymysgu Saesneg	106
Ei farwolaeth	108
Pwnc o flodau o erddi'r Beirdd ar ei fedd	110

HYNODION DICK NANCY.

RHAGDRAETH.

NID yn aml yn y byd yma y cyfarfyddir â chymeriad mor hynod a DICK NANCY. Yr oedd yn hynod yn ffurf ei gorph, fel y dengys ei ddarlun yn nechreu y llyfr, ac yn hynotach o lawer yn ysgogiadau chwareus ei feddwl. Yr oedd bob amser yn llawen, ac nis gallai dan unrhyw amgylchiadau fod yn athrist. Y mae dipyn yn rhyfedd er ei fod fel yna o anian *ddigrifol*, yr oedd fel pe buasai rhyw ddiffyg anianyddol yn ei natur, fel nas gallai *chwerthin* yn iachus pan fyddai galwad am hyny. Ei ddull ef o *chwerthin* oedd cau un llygad, agor ei geg un ochor, a gwenu—yn fwyaf doniol dim a welodd neb erioed mewn distawrwydd perffaith! Fe fum i yn meddwl lawer gwaith wrth ei weled yn *chwerthin*, y buasai yn gymeriad ardderchog i'w *actio*, ac y buasai yn ormod gorchwyl i *stage actors* goreu Llundain allu ei ddynwar-edu, yn enwedig pan yn anffurfio eu gwynebau i geisio *chwerthin* yr un fath ag ef. Er mai *torwr beddau* ydoedd, yr oedd rhywbeth yn yr *olwg* arno yn creu ysgafnder ysbryd yn mhob dyn a dynes a'i cyfarfyddai, pa brudd-der bynag a'u meddiant. Ni siaradai ond ychydig, ond rywfodd yr oedd yr ychydig a siaradai yn llawn o ryw-beth a grëai londer yn mhob man—yn bwrpasol dros ben,

ac yn destun siarad mawr i bawb o'i ddeutu. Mewn tori gwaith siarad i eraill yr oedd yn enwog, tra ar yr un pryd yn byw i fyny a'i arwyddair "bydded dy eiriau yn anaml," ei hunan. Yr oedd fel pe buasai wedi astudio trioedd Catwg Ddoeth i berffeithrwydd, ac yr oedd eu cario allan yn ei fywyd cyffredin, can belled ag oedd a wnelynt ag ef, wedi myned rywfodd yn ail natur iddo. Y tripheth hwn oedd ei arwyddair bob amser, a champ oedd i undyn ei hudo i'w bradychu, "*Dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a diwydrwydd yn ei alwad:*" a phe ei hefelychiâ yn y peth hwn gan bawb o ddarllenwyr ei hanes, fyddai neb ar ei golled.

Er nad oedd ryw lawer o *rinwedd moesol* yn harddu cymeriad ein gwrthddrych fel y gallwn ei osod yn esiampl i neb ei efelychu, eto gallwn ddweyd, heb betruso, nad oedd dim ffaeiddau yn ei fywyd nad oedd yn hawdd iawn gan y rhai a'i hadwaenai oreu edrych drostynt. Felly, ein hamcan yn y llyfr hwn fydd ceisio difyru ychydig ar ein darllenwyr, wrth ddodi ger eu bron gymaint o'i hynodion a ystyriwn yn fuddiol i gyrhaedd yr amcan o godi y galon, i ddifyru y meddwl, ac i arbed ambell i botel o physic i'r cyfryw nad all eu natur hyfforddio y mwynhâd o chwerthin dipyn yrwan ac yn y man, bob yn ail, ac yfed cwpaneidiau dyfroedd Mara trafferthion yr hen fyd yma. Fel y dywedai un am dano rywdro:—

"Yn wastad yn mhob Llan a Thref
Un digrif, digrif ydoedd ef,
'Cymborth i chwerthin' ydoedd Dick
I bobl iach, ond O! i'r *siok*
Yr oedd yn ddychryn yn mhob plwy,
Can's 'Deryn Corph' oedd iddynt hwy!"



EI DEITL.

“DICK NANCY” ydoedd fab i dorwr ceffylau o'r enw Robert Jones, ac Anne ei wraig, yn mhlwyf Llanfwrog, yn nghymydogoeth Rhuthyn, ar ganol Dyffryn Clwyd. Ganwyd ef oddeutu dechreu y ganrif bresenol, ac a dreuliodd oes hir yn yr alwedigaeth oeraidd o dori beddau.

Dyledus yw dywedyd yn y fan yma mai Richard Jones ydoedd enw priodol gwrthrych yr hanesyn hwn, ond rywfodd am bob un a'i hadwaenai wrth yr enw hwnw, yr oedd mil a'i hadwaenai wrth ei enw gwerinol Dick Nancy. Felly, nid dim anfri, cofier, oedd gosod yr enw hwn arno, ond i'r gwrthwyneb—dyna oedd arfer y wlad yn adeg ei blentyndod, galw y plant ar enw eu mamau, er mwyn eu hadnabod hyny yn gynt—ac wedi tyfu i fyny yn ŵr, yr oedd yn llawer hoffach gan Richard Jones i'w gydnabod ei gyfarch 'wrth yr hen deitl' na'r enw dieithr, eto priodol, Richard Jones. Un o'r hen stamp ydoedd ef, drwy drugaredd, na adnabu erioed falchder; ac felly yr ydym ninau yn ei gyflwyno gerbron y darllenydd yn symlrwydd ei arddull dirodres ei hun wrth ei enw barddonol Dick Nancy. Yn wir, pan fyddai ei gydnabyddion yn ei alw wrth ei enw priodol byddai y dyn bach yn eu ceryddu bob amser, ac yn dweyd gyda gradd o orfoledd—“Paid a'n galw i yn Richard Jones da ti, oherwydd mae gymin o Richard Jones's yn y wlad, fel na ŵyr dyn ar y ddaear â phwy y byddwch chwi yn siarad, ond dydwch chwi 'Dick Nancy,' mi ella i, beth bynag, gymyd fy llŵ mai â fi y byddwch chwi yn llefaru pryd hyny.” Yr oedd rhyw swyn anghyffredin yn ei deitl iddo ef: a phan fyddai ryw lenorion yn siarad am lenyddiaeth y Cymry, ac wrth gwrs, yn dwyn i'r ymddiddan enwau Hiraethog, Caledfryn, Dewi Wyn, Eben Fardd, &c., byddai Dick yn sicr o daro ei drwyn i mewn yn rhywle yn yr ymddiddan a dweyd gyda rhyw rwysgfawredd esgobyddol—“Dyna fel mae hi, boys, yn y byd yma—*Dim* ond *un* Hiraethog, *un* Eben Fardd, *un* Nican-

der, a DIM ond UN Dick Nancy!"—gan roddi rhyw bwyslais neillduol o bwysig ar y DIM ond UN diweddaf, fel pe buasai ef, beth bynag, yn bwysicach bôd yn nghymdeithas y ddaear yma nag Archesgob Canterbury!

EI BERSON.

O ran ei gorpholaeth, dyn bychan ydoedd Dick, ryw hyd troed cwta talach na'r byd-enwog Tom Thumb; ond er ei fod felly yn fyr o gorpholaeth, yr oedd yn llawn o hynodion, ac yr oedd yn berffaith adnabyddus nid yn unig yn y sir yr oedd yn enedigol ohoni, ond yn y siroedd amgylchynol, ac nid oes odid i fynwent blwyfol yn Ngogledd Cymru nad oedd ef wedi bod yn ystod ei oes yn gosod rhywrai o'i gydgreaduriaid yn nhŷ eu hir gartref ynddi. Yr oedd ei esgobaeth felly yn eang, a chlywais ef droiau yn dweyd ei fod wedi cyweirio gwely olaf mil am bob bys oedd ganddo ar ei gorph a chymeryd ei fodiau yn y cyfrif; a diamheu genym pe buasai ei register yn cael ei chadw rywbeth yn debyg i gywir, y rhifent fil arall am bob dant oedd ganddo yn ei ben, canys nid oedd ganddo ond ryw nifer fach o'r pethau defnyddiol hyny, gan fel yr oedd wedi eu braenu ymaith wrth ysmocio, a choëo baco, chwedl pobl y Dyffryn yma. Yr oedd y cetyn fyddai yn wastadol yn ei ben can ddued a "malcin" pobty. Yr oedd ei ddull o ddal ei getyn yn ei geg hefyd wrth sôn am hyny, yn hynod o *gomatical*. Byddai bob amser fel pe buasai wedi ei wthio i gornel bellaf ei geg ar yr ochr chwith, nes oedd ei geg wedi myned rywfodd i ogwyddo mwy i'r ochr hono i'w wyneb nag i'r llall, a phan fyddai y pwt cetyn yn ei enau byddai ei ben du yn union o tan ei glust, a'r mŵg yn dyrchafu y tu ol i'w ben i ffurfio rhan bwysig o'r cymylau hofranent yn y wybr uwch ei ben.

Mi a'i gwelais ef yn gwneyd *fun* o un hen frawd pur awyddus i'r byd ei nabad fel athronydd rhyw dro. Yr oedd Dick yn tacluso bedd yn y Fonwent, ac eisteddai

yr hen frawd arall ar feddfaen gerllaw iddo, ac yn byddaru mwy ar y dyn bach nag oedd yn hoffi ynghylch Seryddiaeth, &c., a phan nas gallai ddyoddef dim yn hwy, dechreuodd Dick ei gwestiyna yn debyg i hyn: "Wel rwan, John Jones, rydach chwi wedi siarad llawer am beth ydw i yn meddwl na wyddoch chwi ddim byd am dano. Mae'r Beibl yn deyd mae'n wir, fod rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant, ond does neb ond yr Hwn sydd yn nabod y sêr wrth eu henwau w'yr ddim byd am danynt. A beth y mae eich bath chwi yn son?"

"Dyn, oes (ebe John Jones), y mae Newton ac eraill yn eu deall i'r dim, a thrwy gymorth eu hysgrifeniadau hwy yr ydym ninau yn gallu eu deall hefyd. Cym bwyll, Dic, paid a siarad fel ene."

"Taw a boddro, Jaco bach, wydest ti ddim byd am danynt. Neu os gwyddost, ateb y cwestiwn yma i mi—*Beth yw y cymylau sydd yn hofran yn y nefoedd yna?*" Gan bwyntio atynt â choes y gaib oedd yn ei law.

Edrychai John Jones o'i ddeutu fel pe buasai yn crynhoi ei feddwl i geisio ateb y dyn bach, ond rhag ofn iddo ei ateb yn gywir, cymerodd Dick fantais ar ei anibendod trwy ei fwlio a dweyd "Ty'd, lle mae dy sŵn mawr di rwan?" A chyn hir dywedai John Jones,

"Yn wir, Dic, alla i ddim deyd, alli di?"

"Gallaf," ebe Dick, gan weled ei gyfle i wneyd ynfyddyn o'r athronydd a'i byddarai y munudau cynt, "pobl Llundain sydd yn smocio, a'u mŵg baco hwynt ydyw y cymylau acw, fel y gwyr pob dyn darllengar, yn 'mloetran yn yr awyr, gan fethu gwybod lle i fyned."

"Sense," ebe John Jones, "y maent yn wynion fel mŵg baco yn union, pe buaswn i ddim ond yn meddwl."

Y BEDD CYNTAF A DORODD.

YR oedd yr elfen ynddo er yn blentyn at y gwaith oeraidd o dori beddau. Yr oedd y gwaith ag sydd yn ddychryn i ddynolryw yn gyffredin yn bleser iddo ef. Fel y

dyn hwnw oedd wedi syrthio i gwmpeini drwg yn ngwlad y Gadareniaid, yr hwn a geid yn wastad yn mhlith y beddau, felly yr oedd Dick, ond yn unig nad oedd ef haner mor ysbrydol a'r brawd hwnw. Yn mhlith y meirw yr oedd ei feddwl yn nghwsg ac yn effro; ac fel y mae yn rhyfedd dyweyd, nid oedd fawr o bleser i gael yn ei gymdeithas os na byddai dyn yn ei gael yn ei *bleasure ground*, fel y galwai y fynwent. Yn ofer yr edrychid am dano un amser yn unman ond yn ei rodfeydd yn mhlith y meirw, ac yr oedd cael haner awr o'i gwmni yno i un oedd a thipyn o chwilfrydedd yn ei yspryd yn wledd nad ydyw i'w chael ond yn anaml iawn. Cawsid hanes pob un a gladdwyd er's haner can mlynedd ganddo ef, yn enwedig os byddai rhyw droiau trwstan, neu ryw hen chwedlau yn nglŷn â'u hanes. Yr oedd ei gof fel *index* i hynodion bywyd pob un a briddodd yn ystod ei fywyd, ac yn ddigon priodol y gelwid ef gan lawer yn *living concordance* i breswylwyr pyrth y bedd. Gwyddai yn hawdd ac yn gywir pwy briddodd pob un—faint o blant oedd ganddynt—eu holl symudiadau yn ystod eu bywyd—y manylion am eu colled a'u henill yn y byd yma—a sut y gwnaeth pob un ei ewyllys wrth fyned ohono; ac felly fe wel y darllenydd yn hawdd mai nid annifyr oedd ymgomio â Dick Nancy, hyd yn nod ei gyfarfod ar ei dir ei hun yn nhiriogaeth angau.

I brofi fod ein gwrthrych yn ymhyfrydu yn ei alwedigaeth er yn blentyn, ni raid i ni ond gosod i lawr y ffaith a ganlyn, yr hyn a wnawn fel yr adroddodd ef ei hun yr hanes wrthym:—Gan fod ei dad yn gwario yr oll a enillai am ddiodydd meddwol, yr oedd ei fam yn gorfod myned oddeutu y wlad i hel (yn ol arfer gwlad y pryd hyny), er cael digon o ymborth i ddiwallu angenion ei phlant bach. Felly yr oedd yn ddyddiol—y tad yn myned oddeutu y wlad i ddisgyblu tipyn ar geffylau a meddwi, a'r fam, druan, bob boreu, yn troi allan a'i chwd i hel; a bron yn wastad wedi y deuai y fam adref y deuai y tad yntau i

mewn yn drwm-lwythog o ffrwyth yr heidden, a bwriai hyny o anghysur allai ei galon ddyfeisio i'r hen wraig, ond nid hir y gallai hono ddal cyn colli hyny o bwyll oedd ganddi, ac yna dybenid yr ymrafael mewn ysgarmes ddwrn-ddwrn ar ganol llawr y tŷ, a'r plant wedi gorfod ffoi am eu bywyd fel y dywedant. Un diwrnod, modd bynag, yn union wedi i'r ddau benteulu droi eu cefnau ar y tŷ, daeth i feddwl Dick i wneyd dipyn o dric â'i dad pan y deuai adref y noson hono, a dechreuodd yn ddiseremoni dori bedd yn llawr y tŷ (llawr pridd hen ffasiwn), ac wedi ei dori ryw lathen a haner o ddyfnder, a chario y pridd i'r ardd y tu cefn i'r tŷ, gosododd ryw hen liain bras dros y bedd o'r un lliw â'r llawr, ac wedi gwneyd pob-peth yn barod yn min yr hwyr heliodd y llestri tē ar y bwrdd, a phob darpariaeth i'w fam gael bwyd, fel na buasai iddi gerdded ryw lawer hyd y llawr a chanfod ei ddyfais i ddial ar ei dad. O'r diwedd dyma ei fam i mewn, a chroesawodd Dick hi i'w chadair wrth y bwrdd i gael cwpanaid o dé wedi blinder y dydd, &c., ac wrth gwrs yr oedd y fam yn gallu mwynhau ei garedigrwydd. Ar hyn dyma yr hen ddyn i mewn dan ruo yn ei gorn fel arfer, a chyda'r un moesgarwch arweiniodd yntau i'w sedd wrth y bwrdd bwyd. Ar ganol yr oruchwyliaeth fendigedig o fwyta, torodd ffrae boethach nag arferol rhwng yr hen ddyn a'r hen wraig, ac fel arfer tafloodd y ddau eu bwyd o'u dwylaw "i'w hymladd hi allan" ar ganol y llawr. Dyna yr hen ddyn wrth gwrs yn enill y *first blow*, ond nid yn hir y bu yntau cyn cael "joba pump" yr hen wraig (chwedl Dick) yn rhywle yn ngymdogaeth ei fogail—tarawodd yntau yn ol, ond nid cynt nag yr estynodd yr hen wraig iddo *home stroke* yn ngwaelod ei wasgod nag y disgynodd bendramwnwgl strimstram-strellach i waelod y bedd a dorodd Dick yn y llawr! Ar hyn, yn ei dychryn, rhedodd yr hen wraig i'r heol gan waeddi, mewn gradd o orfoledd, fod "y Diafol o'r diwedd wedi cipio yr hen orthrymwr ato'i hun!—am ei driniaeth annynol i'w wraig a'i blant!" Yr oedd Dick, y bachgen

drwy yr amser yn gwylio eu symudiadau trwy rygolau yn nhrws y cefn, a phan welodd fod ei ddyfais wedi cyrhaedd ei hamcan penaf, nid oes eisieu dyweyd ei fod bron a hollti gan chwerthin. Yr oedd yr hen wraig o'r ochr arall yn llwyr gredu mai y gwr-drwg a gymerodd drugaredd arni yn nghipiad disymwth ei gŵr annynol oddiger ei bron ar lawr y tŷ—ac yr oedd yn ofid calon iddi, ebe Dick, pan welodd yn amgen.

Dyna, fel y dywedasom eisioes, y bedd cyntaf a dorodd Dick, a byddai yn arfer dweyd wrth adrodd y stori, fod yn edifar ganddo na fuasai yn gwneyd efo y corph aeth i mewn i hwnw yr un fath ag y gwnai efo chyrff gladdwyd ganddo wedi hyny, sef rhoddi *y pridd arno* cynted ag y clywodd y person (sef ei fam) yn darllen “y gwasanaeth claddu” mor effeithiol ag y gwnaeth. Yr oedd yr hen ddyn yntau hefyd yn meddwl mai gwaith Tywysog llywodraeth yr awyr ydoedd yr oruchwyliaeth ryfedd hono a'i cyfarfyddodd mor ddisymwth wrth ymladd â Nancy, a diolchai lawer iddo o hyny allan mai nid ei “dymblo i'r pwll diwaelod” a wnaeth, yn ol ei haeddiant: a bu hyn yn lles iddo, oherwydd fe ddywedir nad oedd ganddo fawr o flas ar ymladd Nancy byth wedyn: a phan y codai dadl rhyngddynt byddent yn sicr o'i setlo fel y gallasant ddweyd yn niwedd pob ysgarmes, “arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol.” Y tafod yn unig oedd yr erfyn dialeddol ar ol y cwmp rhyfedd gafodd yr hen dad y pryd hyny i fedd newydd ein harwr ar lawr y tŷ.

Yr amser a aeth heibio, a thyfodd Dick i fyny yn llanc ieuanc prydwedol, heinif, a chariadlawn—a gwelodd gladdu y cwpwl a'i magodd—gorchwyl digon anhawdd i blant dynion yn gyffredin, ond iddo ef, am fod claddu mor gydnaws a'i natur, yr oedd claddu pawb pwy bynag yn borthiant i'w archwaeth ef: a phan y gofynid iddo onid oedd yn gofidio wrth gladdu ambell i hen gyfaill, yr ateb parod oedd bob amser—“y fi, nac ydw i wir—myn'd raid i *ch'i* i gyd”—fel pe buasai ef allan o'r cwestiwn yn hollol!

EI GARIAD CYNTAF.

Er fod Dick fel yna fel pe buasai yn well ganddo gymdeithasu â'r marw na'r byw, eto rywfodd, am ei fod, fel y crybwyllwyd eisioes, yn ddyn ieuanc hynod lân a phrydweddol pan yn ieuanc, enynai ryw swyngyfaredd yn y *young ladies*, chwedl yntau, nes yr oedd yn gryn *favourite* yn eu mysg. Syrthiodd un ohonynt dros ei phen a'i chlustiau, fel y dywedant, i gariad âg ef, ac fe unwyd y ddau mewn glân briodas. Er y dywedai rhai o'i *rivals* wrth ei ddarpar, "Wel peidiwch a phriodi Dick Jones—dydyw hwnw fawr fwy na chnegwerth o sebon," eto, fuasai waeth iddynt geisio myned rhwng y gwr drwg a'i gynffon na rhwng Dick a'i gariad cyntaf. 'Rwy'n cofio clywed hen ŵr yn dweyd unwaith ei fod yn cofio Dick yn llanc ifanc, a'i fod yn rhagori ar lanciau ei oes am bendroni y merched ifinc—fod ganddo cyn priodi y tro cyntaf gryn wyth o gariadon, a rheini wedi iddo briodi yn melldithio ei briodaswraig am ddwyn eu hanwylyd oddiarnynt! O hyny hyd yn awr, modd bynag, gwelodd gladdu yr un anwyl hono, ac un neu ddwy o wragedd ar ei hol. Yr oedd fel pe buasai ormod o arogl tiriogaeth angau arno i'r un wraig allu byw yn ei gymdeithas.

CLADDU EI UNIG FACHGEN BOB.

Y gorchwyl caletaf a gafodd y dyn bach erioed oedd claddu ei anwyl Bob—bachgen mawr, talgryf, bywiog, a grymus, oddeutu dwy neu dair ar hugain oed. Yr oedd yn ddig wrth angau y pryd hyny, a chof genyf weled y dagrau yn rhedeg yn lladradaidd dros ei rudd, pan y dechreuodd y pridd ddisgyn ar gauad ei arch! Canwyll ei lygad oedd Bob, ac yn wir fendithiwyd yr un tād erioed â noblach bachgen, ond

Pan ydoedd tlyzni natur yn chwareu ar ei foch
'R un ddelw a gwir fywyd—'r un lliw a'r rhosyn coch—
A'i gorph yn llawn ireidd-der, ac iechyd yn ei wedd,
Yn sydyn y disgynodd i orwedd yn ei fedd!

Pan ydoedd nerth yn chwareu yn myw ei lygad glas,
 A'i galon fel pe buasai ar fywyd yn cael blas—
 A cheinion gwir ddynoliaeth i'w canfod yn ei wedd,
 Yn sydyn y disgynodd i orwedd yn ei fedd!

Pan y meddianodd Robin holl serch a bryd ei dad,
 A'i gyfri'n mhlith y llanciau yr harddaf yn y wlad;
 Pan ydoedd y dyfodol'n obeithiol yn ei wedd—
 Yn sydyn y disgynodd i orwedd yn ei fedd!

Yr oedd cynefindra Dick â goruchwyliaeth angau wedi ei wneyd mor ddiarebol am ei ddideimladrwydd nes y daeth i ben rhyw hen fardd rhywdro i ganu y penill canlynol gyda'r delyn mewn parti:—

“Tri pheth sydd anhawdd hynod
 Gwel'd dyn sobr yn ei ddiod,
 Gweled tafod merch yn tewi,
 A deigrin serch ar rudd Dick Nancy.”

Ond profwyd yn ei gysylltiad âg ef yn nghladdedigaeith Bob fod eithriad i bob rheol.

Adeg marwolaeth y bachgen “Bob,” chwedl yntau, oedd yr unig gyfwng yn ystod ei oes hirfaith y profodd Dick ei fod yn meddianu *teimladau* fel dyn arall. Fe guriodd ei grawd a'i ysbryd y pryd hyny, a 'dydwyf fi yn amau dim nad oedd a wnelai yr amgylchiad hwnw â'r ffaith nad allai chwerthin fel dyn arall byth wedyn.

EI AIL WRAIG.

Oherwydd fod Dick wedi 'moni wrth yr Eglwys yn yr adeg hono, fe briododd ei ail wraig mewn Capel Ymneill-duol, er nad oedd ganddo ryw ffydd gref yn “undeb priodasol y Capel.” Ei gyfaill mynwesol y “Gwanwyn” oedd ei was priodas, a hen ferch lawen o'r enw Gwen oedd y forwyn. Gan fod y gwâs ac yntau yn bur hyf ar eu gilydd, cymerodd y “gwanwyn” gryn lawer o'i raff, ac ystyried pwysigrwydd yr amgylchiad, i *brovocio* y gŵr ifanc trwy lynu fel gelain wrth ochr y wraig ifanc, hyd y nod pan oedd y Gweinidog yn prysuro trwy y

gwasanaeth, gan adael Dick yn ochr y forwyn! Yr oedd hyny yn poeni y dyn bach yn fawr: a phan nad allai ymatal yn hwy, fe gydiodd yn labet côt y gwas priodas gan sisial "Tyd odd'na, Will!" Ond gan nad oedd hyny yn ddigon i beri i'r gwâs roddi ei safle i fyny, a chan fod y Pregethwr wedi rhedeg yn bur bell yn y gwasanaeth, fe waeddodd Dick dros y Capel "Tyd odd'na Will, gad i mi fyn'd i'm lle:" ac a roddes iddo hergwd nes oedd yn synu, gan enill iddo ei hun y safle yr oedd braidd wedi myned i gredu fod y gwas yn brysur ddwyn oddiarno! Wrth gwrs provocio Dick oedd amcan uwchaf y Gwanwyn, ac yn hyn fe lwyddodd y tro hwnw tuhwnt i fesur, canys fe ddywedai Dick ar ol dyfod o'r Capel—"fu lwc i ti, Will, mai yn y Capel yr oeddit ti yn chware dy dricie, ne mi fuaset wedi cael pwyse fy nwrn i am hyna."

Collodd y dyn bach ei ail wraig yn lled ddisymwth wedi hyny, a phan yn ei *merry mood* ryw dro pan oedd rhywrai yn ei blagio yn nghylch breuder bywyd ei wragedd, dywedai Dick nad oedd ef wedi gwneyd dim â hwynt nad oeddynt hwythau wedi ei wneyd âg yntau lawer gwaith, sef "*eu rhoddi yn y gwely.*"

EI GI.

Yr oedd gan Dick Gi rhyfedd iawn un tro o'r enw Rover—dipyn llai o faint na dafad Gymreig, blewog, o liw du a gwyn. Yr oedd Rover wedi myned mor gynefinol â'r fynwent fel nad oedd yn haner boddlon yn unlle arall. Daliai y llinyn yn un pen i'r bedd i'w feistr farcio y tir allan. Pan y byddai yr hen ddyn dros ei ben yn y bedd rhedai Rover i dy cyfagos i oleu ei getyn; ac os cyffyrddai undyn âg asgwrn neu arall a deflid i fyny o'r bedd bygythiai ef â rhes o ddanedd na ddisgwyliasai dyn mo'u gweled yn mhen yr un ellyll!

Gresyn na efelychid Rover yn hyn gan dorwyr beddau holl fynwentydd ein gwlad. Yn rhy fynych pan y torir

beddau yn mynwentydd Cymru, nid ydyw ryfeddod yn y byd gweled esgyrn a phenglogau y meirw yn cael eu haf-lonyddu, a'u lluchio hyd wyneb y fonwent ar draws eu gil-ydd i wneyd lle i rai eraill. Yn wir, ni ddylai hyny ddim bod. Y mae dyngarwch yn galw am i'r marw gael llonydd yn eu beddau i orphwys eu hûn allan, hyd foreu yr Adgyfodiad beth bynag, ond mewn llawer o hen fynwentydd plwyfol hyd y wlad yma y mae yn *adgyfodiad* ar ambell i gorph agos bob blwyddyn! Ac yn y fan yma, fe oddefir i mi ddweyd mai fy marn i ydyw, pe bai hyny o ryw bwys, y dylai person pob plwy actio yn *hedd-geidwad* i'r meirw, a galw eu his-swyddwyr i gyfrif pan fyddant yn eu gwneyd hwy a'r gwasanaeth claddu yn gelwyddog. I "orphwys oddiwŷth eu llafur" y mae'r meirw yn cael eu rhoddi yn y bedd, ond y mae *gorphwys* yn hollol o'r cwestiwn mewn llawer Llan yn Nghymru. Ond i ddyfod at y ci. Heblaw ei fod yn meddu ar yr hynodrwydd a enwyd, yr oedd yn debycach o lawer i Gristion na llawer a arddelant yr enw hwnw. Rhyw nos Sabboth, oddeutu y flwyddyn 1850, dygwyddodd i'r ysgrifenydd fyned i gapel Ymneillduol yn ymyl Rhuthyn i wrandaw y gwein-idog. Eisteddais ar fainc fechan yn union gyferbyn a'r drws, ac yn union wedyn pwy ddaeth i mewn ond y torwr beddau, ac a eisteddodd yn fy ochr. (Dylwn ddweyd, rhwng cromfachau yn y fan yma, mai yr achos ei fod ef yn dyfod i'r capel oedd ei fod y pryd hyny wedi syrthio allan a'r clochydd.) Modd bynag, yn mhen enyd dyma Rover i mewn yn ddefosiynol iawn, ac a weithiodd ei ffordd i eistedd rhwng ei feistr a minau, gan edrych ar y pregethwr mor bryderus a neb o honom! Gollyngai ochenaid drom weithiau, fel pe buasai yn efelychu yr hen frodyr oedd o'n deutu pan oedd y pregethwr yn gweddio; ac wedi i'r gynulleidfa ddechreu canu, dechreuodd Rover udo nerth asgwrn ei ben—ryw ddau notyn yn uwch na neb yn y capel—yn berffaith reolaidd o ran amser, a'i lais (os goddefir yr ymadrodd) yn llawer mwy cerddgar a soniarus nac amryw a ystyrient eu hunain yn gerddorion

penigamp. Ond pan oedd y gynulleidfa yn aros yn nghanol un penill i'r pregethwr ledio y ddwy linell ddi-lynol, yr oedd Rover wedi anghofio ei hun i'r fath raddau nes y canodd yn mlaen ryw ddau far ar ben ei hun yn hynod o naturiol a chywir, ond pan ddeallodd ei anffawd, neidiodd i lawr mewn yswildod gofidus, a rhedodd allan fel ci wedi tori ei gynffon.

Canai Rover â'i holl egni.
Gounter mwyn i *fas* Dick Nancy,
Yn mhlith dynion ar y ddaear
Mae llawer Cristion gwaeth na Rover.

Rover, coffa da am dano,
Ni welir gi cyffelyb iddo,—
Gonestach, glanach ei arweddiad,
A'i drwyn wrth sawdl Dick yn wastad.

Gwell f'ai ganddo farw o newyn
Na dwyn un tamaid oddiar undyn,
Yn yr eglwys, ac allan o honi,
Un gonest cywir oedd ei Dick Nancy.

Yr oedd Rover ac yntau yn ffrindiau tros ben. Ni fyddai Dick un amser yn cloi y drws wrth fyned i'w wely, gan y fath ymddiried oedd ganddo yn mhlant gwragedd; ac un boreu, yn un o adegau ei weddwdod, pwy alwodd yn ei dŷ ar dipyn o neges ond un o'r Odd-fellows, ac er ei syndod beth welai ar ei ddynesiad i fedroom y dyn bach ond efe yn ei wely, a rhywun yn ei gesail, a phwy ydoedd, wedi edrych yn fanylach, ond Rover, a'i draed blaen yn blethedig am ei wddf, yn edrych yn gyfforddus i'w ryfeddu, geg-yn-ngeg â'u gilydd, fel pe buasai Rover wedi syrthio i gysgu tra wrth y gwaith o gusanu ei gydymaith. Yn fuan deffrôdd y ci a phan ganfu yr ymwelydd, dechreuodd bwtian ei feistr yn nghymdogaeth traed y gwely â'i draed ôl i geisio ei ddeffro; ac wedi llwyddo, neidiodd y ddau i'r llawr, a dywedai Dick, "Hai, Rover, sut darfu ni ofergysgu, dywed?" ac ebai Rover, "Bow wow."

Prun, prun,
 Ai da ai drwg fod ci a dyn
 A'u *snout-yn-snout* mewn melus hŷn,
 'Does undyn wyr; ond hyn sydd ffaith,
 Ni hunodd ar obenydd clau
 Ffyddlonach dau er's amser maith.

Ond Rover yntau a fu farw, a chlywais i Dick wneyd mwy o *fuss* o'i farwolaeth na phe buasai beth bynag ei fam-ynghyfraith wedi ei adael! Er nad oedd Rover ddim heb ei feiau mwy na rhyw gi arall—a'i fod yn agored i'r pechod parod i amgylchu cŵn—eto, teilyngai barch yn ei farwolaeth, ac ni bu ei berchenog yn fyr yn ei amlygrwydd o hyny. Claddwyd ef yn barchus; a chlywais i'w berchenog fyned a'r *inscription* canlynol at yr hen Glwb, y cerfiwr beddfeini—yr hwn oedd yn fardd lled enwog—i'w osod ar ei fedd:—

In Affectionate Remembrance of

ROVER,

THE BELOVED DOG OF RICHARD JONES, SEXTON,
 DIED OF OLD AGE.

Ond ystyriodd hwnw hi yn *insult* ei fod yn gofyn iddo, ac a'i hatebodd yn swta dros ben,

“Er mwyn fy anrhydedd na wnaif i
 Gerfio dim ar feddfaen ci.”

EI GÔF.

Yr oedd Dick yn meddu ar gôf annglyffredin. Dywedir ei fod wedi gwrando y gwasanaeth claddu gymaint o weithiau nes oedd yn gallu rhan y person a'r clochydd allan yn rhwydd a chywir, a bu yn awyddus droiau i gymeryd rhan y clochydd pan y byddai presenoldeb y bôd pwysig hwnw yn ngholl.

Clywais ef yn adrodd ystori pur ddigrif a gymerodd le mewn claddedigaeth yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd hen grydd lled neillduol am ei ganibaleiddrwydd wedi colli ei

wraig, ac yn unol â'i gymeriad ef yr oedd yn ei freci yn lled drwm yn ei chynhebrwng. Safai ef (priod yr ymadawedig) yr ochr gyferbyniol i'r person uwchben y bedd, a phan y clywodd efe yr offeiriad yn dyweyd mewn tòn gwynfanus y geiriau hyny, "*Nid oes dim dedwyddwch tu yma i'r bedd,*" cododd yntau ei olygon yn hynod o ddi-gofus ac a ddywedodd wrtho, "Y dwlyn pam na ddowch yr ochr yma ynte?" Y fath oedd gwybodaeth y brawd Cæsar (fel y gelwid ef yn mhlith ei gyfeillion, am fod golwg ymerodrol iawn arno, yn enwedig yn ei freci). Coffa da am dano: y mae Dick wedi talu y gymwynas olaf i'w lwch yntau er's blynyddoedd.

Wrth sôn am Cæsar, nid yn fynych y byddai efe yn myned i le o addoliad, ond rhyw nos Sabboth denodd rhyw gymydog ef i wrando gŵr dyeithr yn nghapel y Wesleyaid. Elai y moddion yn mlaen yn hyfryd dros ben, a gwrandawai Cæsar ar bobpeth a glywai a'i glustiau i fynu fel "hwch yn yr haidd" chwedl yr hen air, hyd nes y cymerodd y Gweinidog ei destun. Ac fel pe buasai gan Satan ryw law yn y peth, er syndod i bawb, ac nid i neb yn fwy nag i'r hen grŷdd, beth oedd testun y bregeth ond y geiriau hyny "*Eiddo Cæsar i Cæsar,*" &c.! Ceisiodd y truan feddianu ei hun, ond nis gallai yn ei fyw gredu nad ei gymeryd ef yn ysgafn yr oedd y pregethwr wrth ei glywed o hyd o hyd yn dyweyd y gair "*Cæsar,*" ac yn angherdd y gwylltineb mwyaf mileinig cododd i fynu oddiar ei eisteddfa, ac ymaith ag ef o'r Capel gan glecian y drws ar ei ol, a dywedyd wrth rywrai oedd yn nghwrt y Capel—" *be wnes i i'r hen lyffant iddo roi henwe drwg arna i just er pan y dechrodd o 'gethu.*" Cæsar oedd ei lysenw, ac nid oedd dim yn gasach ganddo na chlywed neb yn ei alw felly ar yr heol, chwaethach ei alw felly fel y tybiai ef yn pwlpudd! Ond i ddychwelyd at Dick druan. Fel y crybwyllwyd yr oedd yn meddu ar gôf anarferol o gryf; yn enwedig pan fyddai ei wrhydri ef ei hun yn y cwestiwn.

Fe glywais y cyfaill ffraethbert Isaac Roberts y Nailor, yn adrodd i Dick unwaith, tra yr oedd Plwy Efenechtyd yn byw ar wasanaeth "Clochydd benthyc" o'r dref, i gladdedigaeth plentyn rhyw bobl o'r ardal (oedd yn byw y pryd hyny yn Llandegla) ddyfod i'r fynwent awr gron cyn i'r clochydd wneyd ei ymddangosiad. Priodol yw dweyd mai *camddealltwriaeth* oedd yr achos fod y clochydd ar ol ei amser—yr oedd ef yn dyfod *at yr amser apwyntiedig* yn ol clociau y dref, y rhai ydynt yn wastad bron awr ar ol clociau y wlad. Modd bynag, cafodd y Person ar ddeall fod Dick, yr hwn oedd ar y pryd gyda'r bedd yn y fynwent, yn gallu myned trwy yr holl *ddegrees* chwedl yntau, deallasant eu gilydd, ac aethpwyd trwy y gwasanaeth yn berffaith ddiraffferth, fel yr oedd y cyfan drosodd cyn i'r clochydd gwarantiedig ddyfod i'r golwg. Yr oedd y clochydd yn ddigllawn iawn oherwydd hyn, a rhyw ddiwrnod yn efail y Nailor crybwylledig, ymosododd y clochydd ar Dick gan edliw iddo nad oedd o ddim yn gallu dweyd y wers gladdu fel y proffesai, ond i roi terfyn ar bob amheuaeth gofynnodd Dick i'r Nailor oedd ganddo *Gommon Prayer* yn agos? "Oes," ebe hwnaw, ac aeth ac a estynnodd un, ac wedi troi at y wers, darllenodd y Nailor ran yr Offeiriad o'r wers gladdu, ac adroddodd Dick ran y Clochydd, air am air, lythyren am lythyren fel yr oedd yn y llyfr, mor rigl a fu 'rioed!—yr hyn a enillodd iddo edmygedd llaweroedd, ac a roddodd derfyn effeithiol ar fwlyddiaeth y clochydd benthyc.

EI ONESTRWYDD.

Yr oedd yr egwyddor o onestrwydd yn un bwysig iawn yn ngolwg Dick Nancy, a threuliodd ei oes gan ddyffeio undyn i allu ei gyhuddo ef o ladrata ceiniogwerth oddiar neb. Pe buasai pawb yn yr hen fyd yma mor onested ag ef ni fuasai eisieu cymaint o'r *blues*, ag sydd fel locustiaid yn byw ar frasder y wlad y dyddiau hyn. Buasai yn well ganddo fwyta blaenau bysedd ei draed na dwyn

cegiad oddiar undyn. Nid oedd ganddo un math o gydymdeimlad â lleidr, ac yn ei farn ef 'dydyw cyfraith Prydain fawr ddim yn haner digon llym ar y giwaid diegwyddor allant fyned mor hyfed ar eiddo eraill a'i ladrata. Pan welai ddyn neu ddynes yn myned i'r "crib" chwedl yntau, byddai Dick yn sicr o ddweyd "servio fo'n reit—dyna'r lle rheitia iddo—*dangoswch i mi leidr*, ac mi ddangosa ine i chwi lofrudd." Aeth i'r fath eithafion unwaith wrth wlychu ei briddell yn Nhy-tan-y-fynwent nes dweyd "Mi ddyffeia i undyn i ddeud mod i wedi dwyn dim—yr ydwy' i mor onest a'r gonesta 'rioed—a ddygodd o ddim oddiar neb." "Wel do," ebe ei gyfaill Gwanwyn, yr hwn a ddigwyddodd fod yn y cwmni, "mi ddygodd gymaint ag a feddai Job."—"Wel" atebai Dick, yn hunan-ddigonol ryfeddol, "yr ydwy' i yn onestach na fo ynte." Fel yna, drwy ei dwyll-ymresymiad chwareus fe argyhoeddodd y clochydd doniol (Gwanwyn) Dick i gredu yn nghanol ei fôst fawr a'i frôl am ei onest ymarweddiad, &c., nad oedd yn y nefoedd uchod, yn y ddaear isod, nac yn y dwfr tan y ddaear yr un pictiwr perffeithiach o onestrwydd nag ef! Pan fuasai rhywun eisio cythruddo ei ysbryd, neu godi ei "fynei" allan, chwedl pobl Clawdd-newydd, fuasai raid iddo ddim ond danod i Dick ryw ladrad na fuasai ei lygaid yn fflamio yn ei ben fel llygaid cath liw nos, a'i ddanedd yn crensiann yn eu gilydd, gan gadw gymaint o swm a llif-gron y *steam mill* fwyaf yn y wlad; ac ond odid fawr—yn ol pwysigrwydd y danodiad—na fuasai ei ddwrn yn disgyn fel gordd yn rhywle yn nghymydogath *trap* y danodwr, fel y gwnaeth â'r hen gŵper er's llawer dydd. Cyfarfu yr hen *foy* direidus hwnw â Dick ar Bendref, Rhuthyn, un noson yn lled hwyr, yn union wedi i ryw ddyhirod dori eglwys Llanrhydd—ac a ddywedodd wrtho mewn tŷn amheus ac *insulting*, "Helo! beth sydd genti eisio y pryd yma o'r nôs, Dick—oes genti eisio tori'r tai fel y toraist ti eglwys——?" ond nid cynt nag y dywedodd y gair

nag y cynhyrfwyd hyny o ysbryd drwg oedd yn natur Dick, ac yn angerdd ei lid, neidiodd ato mor ddisymwth a barcut ar gyw, ac a estynodd iddo, nid cusan, ond yr hyn a alwai yn fonclust, nes oedd y cŵper druan wedi ei ddwyn mor isel i dir darostyngiad nes oedd yn llyfu y llawr—fawr well am hir amser na haner marw; a chan faint ei ddigofaint yno y gadawodd Dick ef, er eu bod yn gyfeillion penaf, i fyw neu farw fel y mynai efe.

Er ei onestrwydd a'i fôst yn y ffordd hono, un tro, wrth fesur corph yn un o dai mawr pendraw y Borthyn, syrthiodd Dick allan â'r gwneuthurwr eirch, yr hwn a gymerodd yn ei ben i'w brovocio, drwy ryw led awgrymu ei fod yn amheu a ydoedd efe mor onested ag y cymerai arno fod yn ngŵydd y wlad. "Oes genti rywbeth i'w ddyweyd am danaf, ———?" ebe Dick yn gyffrous, wedi dioddef gryn lawer o'i snaps, chwedl yntau. "Wel nag oes gen i," ebe'r saer, yn llechwraidd, "ond mae nhw yn dweyd fod eglwys ——— wedi ei thori, yn dydy nhw?" Wrth gwrs, nid oedd difrifwch ei fusnes yn ddigon i atal holl ffyrnigrwydd calon eiddigeddus Dick rhag enynu, ac allan âg ef heb ddweyd gair wrth neb, wedi taflu ei linyr mesur dros y corph, ac a arhosodd yn yr heol nes y daeth y saer allan, a chyn gynted ag y gwnaeth ei ymddangosiad yn yr heol dyna iddo fonclust nes oedd yn stretsio yn y slwdsh! Ac wrth ei weled yn dal i wisgo y fath ostyngieiddrwydd tueddwyd Dick i gredu ei fod wedi cael digon, ac yn union, heb gymaint a gofyn sut yr oedd, gadawodd ef yno i fyfyrion ei ewyllys ddiweddaf, yn glwt ar ganol y ffordd! Fodd bynag, cynted ag y daeth y truan ato ei hun aeth yn syth i godi *summons* ar Dick, a'r canlyniad fu—nid "5s. and costs"—ond ei daflu gan yr ynadon i'r carchar am fis! I'r carchar yr aeth, a dywedir na wnaeth tra yn dwyn ei benyd yno, ond melldithio yr ynad mwyaf blaenllaw yn ei ddedfrydu, a rhoddi ambell i rég i'r arch-wneuthurwr am godi y *summons* arno. Fel yna daeth y mis i ben, a phan ofynodd rhywun i Dick

sut yr oedd yn gallu gwneyd cyhyd heb dori beddau, dywedai "Doedd bod yn y gaol yn gneyd ond chydig o wahaniaeth—yn lle bod yn tori beddau y dydd ac yn cysgu y nos, yr oeddwn yn gaol yn gneyd dim y dydd ac yn breuddwydio fy mod yn tori beddau trwy gydol y nos—yr ydw i wedi claddu ugeinie yn ystod y mis."

Rhoddwyd y gosb mor drom arno gan yr ynadon oherwydd ei fod y pryd hyny yn ei *brine*, a dywedir y tarawai ddyn yn ei ddigllonrwydd nes y byddai mewn gwirionedd yn fawr well na haner marw! Clywais rai yn dweyd y buasai yn well ganddynt gael cic gan geffyl na chael bonclust gan Dick Nancy! A chan fod hyn wedi myned yn si gyffredin, meddyliodd yr ynadon mai y ffordd effeithiolaf i ddysgu y gwr bach "atal ei law" oedd tori ei grib drwy ei roi yn ngharchar.

Ond yn fuan ar ol ei ryddhad o'r "man y bu Paul a Silas," chwedl yntau, digwyddodd i'r hen ynad farw—ac wrth gwrs 'doedd neb yn deilwng i gyweirio ei hir gartref ond *favourite sexton* yr holl wlad, ac wrth lusgo ei gorpws o'r hearse, enynai yr hen yspryd dialeddol yn mynwes Dick, a chan ysgyrnygu sisialai, "Os rhoist ti fi yn gaol am daro ———, mi rof i di mewn gaol na ddoi di byth o honi, yr hen Fthafarn," canys dyna lle 'roedd yr hen ynad yn byw.

Rwy'n meddwl mai yr hen Glwb a ganodd wedi hyny—

Costiodd gonestrwydd fyn'd i'r carchar
I dri o ddynion goreu'r ddaear,
Ac ni fu'r carchar o un anfri
I Paul a Silas a Dick Nancy.

Dro arall, pan oeddynt yn ad-adeiladu y Pool-park, palas Lord Bagot, yr oedd yno nifer fawr o bob math o weithwyr, o bob cyfeiriad yn y deyrnas, ac yr oedd yn eu plith un sais anferth o faintioli, yn gymaint felly fel ei gelwid ef yn "*Big Tom*." Gyda llaw, yr oedd Talhaiarn yn ŵr ieuanc o *Architect* yn eu plith, ac yn gwneyd ei hun yn bur enwog trwy'r gymydogoeth wrth bregethu

rhyw athrawiaeth newydd oedd ganddo'n berwi yn ei ben y pryd hyny, i bawb a gawsai i wrandaw hyd lethrau y bryniau hyd y wlad yma. Ond un diwrnod fe gollwyd *brush* oddiwrth y plas, ac fe glywodd Dick rywfodd fod *Big Tom* yn dweyd mai efe oedd wedi ei ladrata! Aeth y peth at galon y gwr bach yn aruthr, a'r noson hono *watchiodd Big Tom* yn dyfod oddiwrth ei waith ar ganol Stryt Llanfwrog, ac a ofynodd iddo pa sail oedd ganddo i ddweyd celwydd arno ef yn nghylch y *brush*? Dechreuodd *Big Tom* ei wawdio a'i wthio i ffordd, ond gan nad oedd Dick yn myned i'w gymeryd yn ysgafn fel yna, ac i dori ei galon wrth ei alw yn *dandy* ac yn *dwarf*, &c., gan undyn byw—mynodd ei sylw, ac er ei holl fanteision fel *giant* i amddiffyn ei hun, fe roddodd Dick y fath "cweir" iddo nad oedd yn ymestyn fel pryf genwar yn y llwch wrth ei draed, er difyrwch i'r Cymry oedd o'i ddeutu, oherwydd yr oedd *Big Tom* yn wastad yn siarad yn ddiystyrlyd am danynt. Fe ddywedir iddo adael y wlad gan gywilydd yn union wedi hyn. Mae lluwys yn fyw heddyw oedd yn llygaid dystion o'r amgylchiad, ac yn siarad am dano gyda'r pleser hwnw a nodweddai gymeriad yr hen Gymry er's talwm.

Dro arall pur anffortunus i Dick Nancy druan oedd pan dorodd rhyw ddyhirod i Eglwys Llanfwrog gyda'r bwriad i ddwyn arian y Cymun o'r box uwchben yr allor, y rhai a gedwid i'w rhanu rhwng y tlodion bob blwyddyn, ar "Ddy'gwyl Domos" 'rwy'n meddwl. Clubbe oedd enw y Clochudd y pryd hyny, ac fe redodd y syniad i ben hwnw mai Dick oedd raid fod wedi gwneyd y weithred annynol o gysegr yspeiliad. A phan gyfarfyddodd y ddau yn yr Eglwys dranoeth—pawb ar ei *dduty*—fe ddywedodd Clubbe wrth Dick fod yn "debyg iawn mai efe oedd wedi tori i'r Eglwys—*na fuasai neb arall yn ddigon äofn yn y nos i ddyfod i'r Eglwys*"—ond nid cynt nac y dywedodd hyny, er fod y clochudd yn ädyn mawr, esgyrniog—nac y dechreuodd Dick ei labyddio nes oedd

yn haner marw yn ymyl yr allor! Ond erbyn edrych, yr oedd y lladron wedi methu d'od o hyd i'r box a'r arian, ac felly yr oedd pob *amheuaeth* oddiar y Sexton Dick Nancy yn cilio, oherwydd pe *buasai* ef yn euog ni fuasai yn myn'd allan heb gynwysiad y box. Modd bynag y diwedd fu, cafodd Dick fis o garchar am gymeryd y gyfraith yn ei law ei hun gyda'r clochydd. Pan oedd Dick yn myn'd i'r carchar, dywedai i'r jailor roddi hergwd iddo i'r *cell* gan ddweyd "dos yna di, y driblin drwg," ac i Dick ei ateb "gad iddo, Abel, mi ro'i rawiad o bridd yn dy geg di am hyn yna eto." Yn mhen y blynyddoedd pan oedd Dick rai milldiroedd o'r dref wrth glywed y gloch gladdu fe ofynodd i rywun "pwy mae nhw'n gladdu heddyw, tybed?" "Y jailor" oedd yr ateb. "Mae arnaf fi addewid i'r gŵr yna" ebe fe, ac yn union rhedodd bob cam i'r dref mewn pryd i roi "y rhawiad gyntaf yn ei geg," canys yr oedd hyny yn esmwythyd mawr i'w feddwl bob amser.

Yr oedd y dyn bach unwaith wedi myned ar fusnes i dŷ tafarn sydd ar gyfer drws Carchardy Rhuthyn, a phwy oedd yno ond dau walch oedd newydd eu gollwng allan o'r carchar am ddwyn defaid, a phan aeth efe i mewn closiodd y ddau i wneyd lle iddo eistedd rhyngddynt ar y setl wrth y tân, ac wrth eistedd dywedai y bychan dan wenu "Wel, wel,—bu fy ngwell i rhwng dau leidr, ac wn i ddim am yr un rheswm pam na ddylwn ine ddilyn ei siampl," ac fe ddywedir fod y geiriau yna o'i enau wedi brifo mwy ar deimlad y ddau greadur nag a ddarfu y penyd y buont yn ei ddwyn dros ystod naw mis yn "y lle poenus hwnw."

EI DDULL O DDWEYD STORI.

Nid oedd Dick Nancy byth heb fod ganddo ryw stori newydd am rywun neu gilydd, yn enwedig am ryw berson, neu rai o fawrion yr ardal. Dyledus yw dweyd yn y fan yma fod ganddo barch diffuant i fugeiliaid yr

Eglwysi. Yr oedd wedi credu erioed, ac nid oedd o ddim dyben i neb geisio ei berswadio yn amgen, mai angylion y Brenin Mawr ar y ddaear oeddynt. Ac, os ar ddamwain y byddai mewn ambell un o honynt ryw ffaeidd moesol, yr oedd Dick wedi ei gynysgaeddu a grâdd hel-aeth anarferol o'r grâs gwerthfawr hwnw a elwir "Cariad a guddia luaws o bechodau;" ond os byddai rhyw flotyn du wedi dyfod i'r golwg ar gymeriad rhyw bregethwr ymneillduol, yr oedd raid i Dick gael cyhoeddi hyny yn Gath, a'i bregethu ar làn pob bedd! Er hyny nid oedd un amser mor hapus yn adrodd stori na phan fyddai yn adrodd am ryw wrhydri mewn cysylltiad âg enw rhyw "Berson" chwedl yntau. Pe cyfarfyddid ag ef lawer gwaith yn y dydd yr oedd ganddo rywbeth am rywun a greai fwy na digon o chwerthin i'r neb oedd yn deall sut i ymddiddan âg ef; hyny yw, yn deall sut i'w dynu allan. Ac er mwyn rhoddi drychfeddwl i'r darlennydd o'i *style*, nodaf yma engraifft neu ddwy. Cyn dechreu, hwyrach y byddai yn well i ni roi ar ddeall mai y ffordd fwyaf effeithiol i'w dynu allan i ddweyd stori yn "ddoniol" oedd cymeryd arnoch fod yn berffaith anwybodus o'r hyn fyddai ganddo i'w ddweyd. Fel hyn: cyfarfyddais ag ef yn y fonwent ychydig cyn ei farwolaeth, ac ebe fe yn union ar fy nynesiad ato—

"Glywsoch chwi y stori dwythfa am yr hen Father
—"

"Naddo wir, (ebe finau) beth ydyw?"

"Wel yr oedd o yn disgwyl papur newydd elwir y '*Field*' oddiwrth y Maer rhyw ddiwrnod, a phan oedd yr hen dad yn teimlo fod ganddo eisio rhywbeth i'w ddarllen yn ei sittin-room, fe ganodd y gloch ar y forwyn, a phan ddaeth hono i'r room, gofynodd iddi—

'*Mary, has the Field come from the Mayor?*' a chan feddwl fod ei meistr yn croesddweyd ei hun, fe ddudodd hono—

'*Please sir, has the Mare come from the Field you*

mean, sir?' ac yn angherdd ei natur ddrwg fod y forwyn yn meiddio ei gorrectio fo, atebai yntau—

'I mean what I say, Mary—has the newspaper called the Field come from the Mayor's?'

'O beg your pardon, sir, (ebe hithau) I did'nt know sir,—but there is no newspaper come in at all.'

Ac ebe Dick dan chwerthin (yn ol ei ddull ef o chwerthin) dene un go dda yn te?" Ac wrth gwrs gan mai un da ydoedd mi chwarddais ine, ac mi wn y bydd yn anhawdd i tithau ddarllenydd beidio.

Dro arall, cyfarfyddais ag ef ar y ffordd, ac fel arferol dechreuodd Dick yr ymgom, a'i bwys ar goes y rhaw oedd ganddo yn ei law drwy ofyn y cwestiwn,—

"Glywsoch chwi am Berson ———"

"Naddo wir, beth ydyw?" ebe finau, yn awyddus i glywed beth bynag oedd ganddo i'w ddweyd—yn ymddangosiadol felly.

"Wel, yn y Lecsiwn dwytha yr oedd yr hen dad yn canvasio ei oreu yn erbyn ———, ac yn perswadio cymin alle fo i fotio dros y Tori Candidêt. Yn wir ionedd ine mi'nath ei oreu glas i gael y Tori i mewn, ond ryw-sut er eu gwaethaf, mi ddarfu iddynt ffaelu troi ——— allan. Aeth i'w le ei hun yn ei ol er eu holl strywiau i gyd. Wel, *just* yn yr amser hwnw fe fu farw hen Berson ———, ac er mwyn dyfod i fynu a'r hen Lyfr, be wnaeth ——— ond dechreu pentyru marwor tanllyd ar ei ben o drwy wneyd lle ei fab i gael Plwy ———, y plwy goreu yn yr holl wlad. Dyna ti ddyn iawn yn te? Gwneyd daioni am ddrygioni. Rhoi bendith i un oedd wedi gweithio nerth y crwmp yn erbyn iddo gael myn'd i'r Parl'ment! Un o fil yn te?"

"Wel ia, (ebe finau) ond gâdd o y Plwy?"

"Debyg iawn (meddai Dick yn sarug, megys wrth fy amheuaeth) mae o ono er's blynyddoedd. Dyna un dyn duwiol yn y Parl'ment beth bynag:" ebe fe drachefn, gan gau y llygad bach oedd ganddo mor glosied na welai na

gwybr nac awyr oni bai fod y llall yn llydan yn agored. Ond iddo gael ei ffordd ei hun fel yna fe wnaï beth bach digon ddisylw ynddo ei hun yn stori pur ddyddorol.

EI ALLU I DDYFEISIO DIREIDI.

Yr oedd direidi chwareus ei feddwl yn ddibendraw. Pan fuasai rhywun eisio chwareu rhyw ddireidi ni fuasai raid iddo ond apelio at Dick Nancy, ac fe gawsai ei ddewis o dri neu bedwar o'r cynlluniau mwyaf doniol a ddychmygwyd gan feddwl neb erioed. Fel engraifft, yr oedd un o'm cyfoedion yn nyddiau ein maboed wedi syrthio i gariad â geneth ieuanc brydweddol iawn oedd yn byw yn yr ardal, ac nis gwyddai yn y byd mawr sut i enill ei serch, gan fod ganddi gariad arall, ag oedd yn fwy at *fancy* y lodes nag ef. Modd bynag, yr oedd cariad fy nghyfaill wedi gafaelyd yn ei galon mor angherddol fel nas gallai ollwng y lodes o'i feddwl heb wneyd ymdrech egniol i'w henill i'w garu. Mewn gair, fel yr oedd wiriona, yr oedd y bachgen wedi ei lygad-dynu ganddi. O'r diwedd, wedi methu drwy bob ystryw, a dyfais o'i eiddo ei hun, penderfynodd fyned i ddweyd ei gŵyn wrth yr "Hen dderyn," gan hyderu yn sicr y buasai ef yn gallu ei roddi ar y ffordd i wneyd pobpeth yn *right*. A rhyw noson pan oedd Dick yn tori bedd yn Mynwent Llanfwrog, wrth ganwyll, rhwng deg ac un-ar-ddeg o'r gloch, meddylodd y cyfaill y buasai yn gyfleusdra eithaf tawel iddo gael ymgom â'r hen ddyfeisiwr. A ffwrdd ag ef. Yr oedd Dick at ei haner yn y ddaear pan aeth yno, ac fe ddychrynodd yr "hen dderyn" gryn dipyn pan dorodd fy nghyfaill ar y distawrwydd gan ddweyd—

"Nos da, Richard Jones."

"Be gebyst sydd yna—os dyn, pwy ydech chwi—os ysbryd, be sy genych chwi eisio?"

"Y fi sy yma Richard Jones,—yr oeddwn i yn ffaelu a deall beth oedd y goleu oeddwn i yn ei weled yn y fonwent yr amser yma o'r nôs, ac mi ddaethum yma i

weled—I bwy ydych chwi yn tori bedd wedi by'nos fel hyn?"

"Dick Nancy, os gweli di'n dda. Pe buaset ti yn deyd Dick Nancy yn y cychwyn, fuaswn i ddim yn dychrynu haner cymin. Pa newydd sydd gen ti dywed?" ebe Dick, gan ddilio'r ddaear a'r caib.

"Wel, does dim newydd o bwys am wn i, (ebe'r bachgen, dan lusgo'i eiriau, ac yn mron hollti ar ei draws eisio *introducio* ei benbleth i'r hen gynlluniwr: ac o'r diwedd torodd trwyddi)—wn i ar y ddaear, Dick, syt i wneyd rhyw ddrwg rhwng rhyw fachgen â geneth yr wyf fi yn sâl am dani—pe cawn y bachgen oddiar y ffordd. Hwyrach y gallwch chwi ddyfeisio rhyw gynllun i wneyd y peth i fynu."

"Pwy ydyw y bachgen?" ebe Dick.

"Wm. ———" ebe'r cyfaill.

"Pwy ydyw y ferch?" ebe Dick.

"M———" ebe'r cyfaill, yn araf deg, fel pe buasai braidd yn anfoddlon gollwng gormod o'r manylion iddo.

"Wel, dyma be nei di—mae'r carwr yn byw yn Lodge P——p—— onid ydyw?"

"Ydyw siwr."

"Mae sôn garw hyd y wlad fod ysbryd yr hen G—— C—— yn trwblo pobl yn Nant chwarelgopr, onid oes?"

"Oes siwr" ebe'r cyfaill.

"Wel, mae y fan hono haner y ffordd rhwng cartref y carwr a phreswylfod y gariad-ferch, onid ydyw? a'r ffordd hono y mae o'n myn'd adre yn te?"

"Ie siwr," ebe'r cyfaill eilwaith, gan feddwi erbyn hyn fod gan Dick rywbeth i bwrpas ar ddyfod allan.

"Wel, rwan," ebe Dick, gan roi heibio'r *grave digging* am enyd,—“wyddest ti fod yno Aber o ddwr yn croesi y ffordd o'r coed un ochr i'r cae yr ochr arall, a dau dwll yn y wâl o bob ochr, i'r dwfr redeg drwodd. Cymer di rywun gyda thi, a chortyn cryf gyrhaedda ar draws y ffordd—dalied un un pen i'r cortyn yn y coed un ochr, a'r llall

y pen arall yn y cae yr ochr arall, a phan y bydd y carwr yn dyfod heibio daliwch y cortyn ryw droedfedd uwchlaw y ffordd gan ei faglu i'r aber—ac mi roi i fy ngair na ddaw y gŵr bach byth i'r dref wedi'r nos wedi hyny."

"Dyna'r plan," ebe'r bachgen, cyn falched â phe buasai wedi cael papur canpunt ar lawr—a chwanegai—"Mae o yn y dref heno."

"Wel, dôs dithe heno a charia y cynllun ene allan, a gad i mi wybod beth fydd y canlyniad."

Ymaith â'r cyfaill yn unionsyth, ac wedi cael gafael ar linyrn at ei pwrpas, a chydymaith, i ffordd ag ef gan gyrhaedd y nant erbyn ychydig wedi unarddeg. Aeth ef i'r coed, rhoddodd y cortyn drwy dwll y dwr, a chymerodd ei gydymaith y cortyn drwodd i'r cae yr ochr arall, a chyda iddynt orphen eu darpariadau clywent rhywun yn dyfod o gyfeiriad y dref dan chwistlo dros yr holl wlad! Ac fel yr oedd yn dyfod yn nes atynt deallasant (gan fel y chwistlai i geisio lladd ofn ysbryd yr hen Griffiths) mai y carwr disgwylidig ydoedd.

"Tyn," ebe'r naill wrth y llall.

"Peidia chwerthin nes bydd y cyfan drosodd" ebe'r cyfaill, a dyma bobpeth yn barod, a'r carwr yn ymyl! Mae ei chwistl yn dispedain yr holl gwm fel mae yn nesu i'r nant—ac och! tra yn neidio dros y ffrwd y peth cyntaf a gafodd yr ochr arall oedd ei hunan yn glwt ar ei wyneb ar ganol y ffordd, a'i draed wedi llithro yn ol i'r aber!!

Yno y bu mewn distawrwydd mudanol am ysbaid pum munud llawn, fel pe buasai mewn llesmair: a'r ddau ddyhiryn un o bobtu iddo mor ddistawed a llygod yn methu symud rhag iddo eu clywed, ac yn methu'n glir a dirnad beth i'w wneyd, ond er eu cysur annisgrifiadwy clywent y truan yn dechreu ymysgwyd, ac yn union cododd i fyny, gan waeddi "mam anwyl" dros yr holl wlad, gan ei chymeryd nerth y carnau i fyny y rhiw fel pe buasai lleng o ellyllon ar ei ol!! A'r ddau hogyn yn chwerthin yn eu llewis nes oeddynt bron mewn *fits* o

stericks ar bwys y *fun* esgorodd gynllun Dick Nancy iddynt ychydig funudau cyn hyny! Yn unol a phroffwydoliaeth yr "Hen Dderyn" ni welwyd y carwr yn y dref am flynyddoedd wedi hyny ar ol i'r haul fachlud, ac i'r dylluanod ddechreu crawcian rhwng cangau'r deri yn y ceunant islaw'r spotyn bythgofiadwy yr ymddangosodd ysbryd yr hen Griffiths iddo, gan ei dymblo i'r aber ddwr! Boreu dranoeth yr oedd stori'r ysbryd wedi ei thaenu drwy'r holl gymdogaeth, a chafodd fy nghyfaill lonydd wedyn i chwareu ei bart i enill serch yr hon yr ymladdodd gymaint i gyrhaedd yr amcan hwnw. Lladdodd ei *rival* âg un o *receipts* doniolaf y parotaf ei grebwyll am ystranciau o'r fath rwy'n credu glywodd Berson yn darllen y gwasanaeth claddu erioed.

Hawdd fyddai nodi ychwaneg o engreiffitiau cyffelyb, ond dengys yr un yna ysgogiad chwimwth ei feddwl, ac awn ninau yn mlaen yn awr i roi enghreifftiau pellach.

EI ARABEDD.

Yr oedd ynddo barodrwydd naturiol i *gracio jokes*—y fath a ystyrid yn *gems* pe buasent wedi tarddu o ryw ffynonell arall—fwy *refined*! Mae talent dyn tlawd yn cael cam ddychrynlyd—yn unig am mai dyn tlawd ydyw. Mae hyny i'w weled yn ddigon aml yn yr hen fyd yma o ddyddiau *tenant* Eden hyd y dydd hwn. Y fodrwy aur sydd yn cael sylw, ac y mae gemau'r dyn tlawd yn cael eu sathru tan draed! Yr oedd parodrwydd Dick Nancy yn nghywreinrwydd ei ffraethebau yn anarferol o hapus, a gresyn na buasai rhywun wedi cymeryd yn ei ben i'w casglu yn nghyd. Buasai casgliad helaeth o honynt yn rhwym o fod yn ddyddorol.

Yr oedd Person y plwy flynyddau yn ol, un diwrnod oer yn Tachwedd, yn ei gyfarfod ar y ffordd, ac yn lle ei *basio* yn ddisylw, cyfarchodd ef a'r hen foesyfarchiad ystrydebol—

“Mae'n brâf heddyw, Dick,” i'r hyn yr atebodd y dyn bach—

“Ydi, syr—mae'n brâf iawn wrth tân allwn i feddwl.”

“Neno dyn, pam yr wyt ti mor *socy* Dick?” ebe'r Person, yn rhyfeddu am ei atebiad swta.

“*Socy* fuasech chwithau, syr, pe buasai y winthrew ar eich dwylo chwi fel y mae arnaf fi.” Yr hyn oedd cystal a dweyd wrtho ei fod yn rhyfeddu at ei gyfarchiad pan yn dweyd ei bod yn brâf ar ffasiwn ddiwrnod rhyndllyd ag ydoedd y diwrnod hwnw.

“Doeddwn i yn meddwl dim byd o'r peth ddydes i,” ebe'r offeiriad mewn modd o esgusawd, ond atebai'r torwr beddau yn gyrhaeddgar—

“Wel mi ddylsech feddwl syr—oherwydd ddylai Person DDEYD dim byd heb ei *feddwl*.”

Torodd ddadl fawr rhwng rhyw frawd oedd yn dal cysylltiad âg Eglwys Llanrhydd â Dick rhyw dro yn nghylch natur tir mynwentydd Llanfwrog a'r Llan crybwylledig. Dadleuai Dick fod pridd mynwent Llanfwrog yn fwy rhydd a dymunol i gladdu ynddo na'r llall, a'r cyfaill arall yn dadlu yn gryf yn ei erbyn. “A pheth arall (ebe y gwrthddadleuwr) y mae mynwent Llanrhydd yn sefyll mewn lle cynesach nag un Llanfwrog—mae'r haul yn taraw yn boethach acw nac yn dy Fynwent di Dick o lawer.”

“Taw y dwlyn (ebe Dick, gan feddwl fod yn hen bryd rhoddi *stop* ar ffwlbri y cyfaill o Lanrhydd), beth wyt ti yn boddro—fe drodd *black* croenddu i'r fynwent acw yr wythnos dwytha, a swp o *tracts* yn ei law i'w gwerthu,—yr oeddwn i yn brysur dori bedd, a daeth yntau ataf ac a ddechreuodd *urgio* ei *ware* arnaf, ac yr oedd yr haul mor boeth yn mynwent Llanfwrog fel pan gododd yr Indian ei law i fynu i ddangos i mi fod yr haul yn boethach nag y gwelodd hi erioed yn ei wlad ei hun, fe fflaglodd y blew oedd o tan ei gesail! Ac oni bai fod genyf ganied o ddwr yn fy ymyl, buasai y creadur wedi llosgi i farwolaeth! Beth wyt ti yn boddro?”

Wrth gwrs, doedd gan y cyfaill un gair i'w ychwanegu —yr oedd Dick wedi rhoddi sponc filldiroedd tuhwnt i derfynau ei grebwyll ef, a gwelodd mai “taw pia hi,” oedd y goreu iddo.

Rhyw dro, yr oedd hen bechadur gwaeth na'r cyffredin wedi ei gladdu yn ei ardd fel y galwai y fonwent, ac wedi i'r cyfeillion wasgaru tra yr oedd y bychan yn tacluso y bedd, sylwai Dick wrth rywun safai gydag ef, “glywaist ti yr hen dad yn claddu hwn ‘mewn gwir ddyogel obaith am adgyfodiad gwell?’—y peth nesaf fydd rhoddi yr adnod hono ar gareg ei fedd ‘Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd!’ Mae'n hen bryd newid y *Common Prayer* (ebai wedyn), y mae yn sio canoedd o greaduriaid i ddifateru eu hunain i farwolaeth wrth addo mor deg iddynt ar lan y bedd; ond y mae un peth yn dda, ‘Nid fel yr edrych dyn yr edrych Duw’—’does dim posibil ei smwddio fo.’

Hwyrach yn y fan yma y goddefir i mi wneyd sylw byr heb fod yn mhell iawn oddiwrth y mater sydd genyf dan sylw. Nid yn y *Common Prayer* yn unig y mae eisiau *reform* mewn perthynas â chladdu y marw. Fydda i yn synu yn aml at yr Ymneillduwyr gyda golwg ar hyn. I beth y mae yr holl ddefosiwn sydd yn eu plith hwythau da wrth gladdu eu meirw? I beth y mae *myned â'r corph i'r Capel da?* ond yn unig i ddynwared yr Eglwys, a hono wedi hynny yn dynwared yr hen fam o Rufain. Pan edrychwn ni ar y peth yn ystyriol, y mae yn wrthun o beth gweled Cristionogion yn ymboeni i lurgunio corph marw i dŷ addoliad! Pa esgus y gall Ymneillduwyr roddi dros y fath ynfydwaith sydd yn beth ag sydd wedi bod i mi yn ddyrswch drwy'r blynyddau. Y mae llawer corph, ar adegau neillduol o'r flwyddyn, yn hollol *anghyffaddas* i fyned i'r ystafell y mae cynulliad pobl iddi, yn enwedig pan fyddo rhyw dwymyn wedi achlysuero y farwolaeth. Y mae y drychfeddwl ynddo ei hun yn ddigon a pheri i wallt pagan sefyll yn unionsyth ar ei ben. A

phan edrychwn ar y peth yn ngoleuni ymdrech Osborne Morgan, Ysw., A.S. i basio *bill* y claddfeydd y mae yn hen bryd, o leiaf, i'r Ymneillduwyr ymwrthod yn hollol ac am byth a'r arferiad gwrthun ac anwaraidd. Ond i ddyfod yn ol at Dick Nancy.

Nid oedd dim yn gyru y dyn bach i natur ddrwg yn fwy na gweled pobl yn cellwair â'r gwirionedd ar geryg beddau. "Pa sence (ebe fe), yw rhoddi Hymn dduwiol ar gareg fedd canibal cyhoeddus? Dyna ——— yn rhoi ffasiwn beth a

'Cwsg bellach yn dy dawel gell
Hyd adgyfodiad llawer gwell,'

ar fedd Dafydd, y crwmffast—os oes rhyw goel ar y gair sy'n dweyd mai 'fel y mae dyn byw y bydd farw'—y buasai yn llawer mwy priodol dweyd

Cwsg bellach yn dy garchar caeth
Hyd adgyfodiad llawer gwaeth."

Daeth perthynasau rhyw ddyhiryn i blanu pwysiau ar ei fedd un tro, ac yr oedd yr ymadawedig yn gymeriad cecrus, cas, ac anghymdogol, heblaw ei fod yn gybydd crintachlyd, ac aeth y dyn bach atynt yn haner gellweirus ac a ddywedodd, "fuasai yn llawer mwy cysur i chwi, ffrindie, blanu pwnc o ddalan poethion ar fedd yr hen chwerwyn ene. Bydd mor hyll gweled *flowers* ar fedd R——, ag a fyddai gweled rhosynau ar dalcen mûl dan bwn glo."

Nid oedd dim yn aflanach yn ei olwg ef na gweled pobl yn rhoddi adnodau ac englynion anghyfaddas ar geryg beddau. Byddai yn arfer dweyd yn wastad, "mae dweyd *celwydd* yn aflan bob amser, ond mae *dweyd celwydd* ar gareg fedd yn hyllach nac yn unman." Ac wedyn, "be' sy' ffeiddiach na rhoi adnod dduwiol ar fedd rebel powld yn ngwasanaeth Satan? Byddai yn llawer gwell i bobl drïo dweyd y gwir ar gareg fedd, ne' *beidio deyd dim byd*. Dyna greadur *creulon* yn cael ei gladdu y diwrnod o'r

blaen—dyn mewn awdurdod mawr, ac yn arfer yr awdurdod hono i orthrymu y tlawd, a phawb o'i ddeutu—ond odid fawr na rydd ei ffrindie ryw adnod *splendid* ar ei *fonument* o, ond fe fyddai yn llawer cysonach iddynt roi rhywbeth tebyg i hyn:—

“Yma mae'n gorwedd corph Dafydd Rhys Puw,
Os ydi o wedi marw, ni ddaw o byth yn fyw:
Os cadd o drugaredd—trugaredd oedd i fod—
Ni wnaeth o 'run drugaredd â'r un dyn erioed.”

Yr oedd hen ŵr-boneddig wedi marw rhyw dro, ac yr oedd y brawd yn enwog trwy y fro am “wandio” i wraig pan yn ei ddiod. Ac weithiau byddai yn ei chael hi *right and left*, pan yn sobr hefyd, o ran hyny. Y peth dwyth a wnaeth, cyn gwneyd ei *exit* oddiar lwyfan amser, oedd myned adref o “dy y gyfeddach” a rhoi “mourning” chwedl Dick i'w wraig, neu fel y dywed *pawb* “rhoi cwpwl o *lygaid duon* iddi.” Ac yn yr *excitement* daliwyd ynte mewn gwasgfa gan angau, o'r hon ni ddychwelodd. “A'r gŵr goludog a fu farw ac a gladdwyd,” ond yn lle *dweyd y gwir* fel y gwna y ddameg ar ol y gŵr goludog arall yn yr ysgrhythyr, aeth y wraig druan i wenieithio i'r gwirionedd, gan ddechreu ei *inscription* ar ei feddfaen—

“*In Affectionate Remembrance of*

R— R— R—

&c., &c., &c.”

ac ychwanegu yn ei ddiwedd benill o'r hon y mae y llinellau canlynol yn gyfeithiad—

Ni chuddiwyd yn y ddaear lân,
Ffyddlonach gŵr a thad nag ef;
'Nol treulio 'i oes yn nerth pob grâs,
Mae heddyw'n canu yn y nef.

A phob tro yr elai Dick i olwg y beddfaen yna byddai yn tynu ei gôt ac yn ei thaflu drosti fel nas gallai weled yr un llythyren o'r “celwydd;” a phan fyddai yn esbonio y

geiriau i rywrai ddygwyddai fod yn agos, yr oedd yn ddoniol dros ben, a rhedai yn gyffredin yn y cyfeiriad yma—"In affectionate remembrance—dyma un beth bynag wedi dysgu talu da am ddrwg. *Monument marble* am ddau lygad du!—'Ffyddlonach gŵr'—os ffyddlon am bânau mae'n feddwl, mae'n wir, ond am i'r Heenan yna fyn'd i'r 'nef yn nerth pob gras, i ganu,' mae'n gelwydd bob gair!!"

"Fe ddylai ffasiwn newydd," ebai 'Rhen Dderyn, "ddyfod i'r wlad gyda golwg ar roddi cymeriad y marw ar ei fedd, a byddai modd cael adnodau o lyfr natur llawer mwy nodweddiadol o'u cymeriadau yn aml: fel hyn—

- 'Ar fedd *dyn meddw*—heuer wns o hadau Hops.
- „ *Hystingwr*—planer gwreiddin o bren drain.
- „ Mam rinweddol—Pren Rosemary.
- „ Gwraig anynad—bwnc o ddalan poethion.
- „ Merch ieuanc brydweddol—Bren Rhosyns.
- „ Hen bererin duwiol—wreiddyn o'r Hen ŵr.
- „ Person da 'i air—wreiddyn o bren-gas-gan-gythraul.
- „ Berson anheilwng—wreiddyn o Gaci mwei.
- „ Chwerwyn annynol—wreiddyn o Bren crabas.
- „ Bechadur mawr—heuer coflaid o Efrau.
- „ Dyn anghymdogol—bwnc o wermod lwyd,

ac felly yn y blaen." Yr oedd ei gasgliad o "adnodau nodweddiadol" o lyfr natur cyhyd ag heddyw ac yforu, ond y mae yr uchod yn ddigon i ddangos rhediad y "ffasiwn newydd" yr oedd mor awyddus i'w gweled yn dyfod i arferiad.

Yr englynion y byddai ef yn hoffi weled yn cael eu cerfio ar geryg beddau oeddynt rai *rhybuddiol*, ac yn hyn yr oedd yn deilwng o sylw y beirdd sydd yn arfer nyddu ambell i englyn i'r pwrpas yma. Rhyfyg i'r eithaf yw englynu pechadur cyhoeddus—anobeithiol i ganol nef-oedd y Brenin Mawr, yr angylion, â'r seintiau perffaith-iedig! "Ond y mae englyn fel hwn (ebe Dick rywdro) yn suitio y byw a'r marw:—

Gwylia, gweddia o ddyn—ymbura
Yn barod i gychwyn
Ar y daith, na ŵyr undyn
Awr y daw Mab y Dyn."

Nid ydwyf fi yn rhoddi yr englyn yna fel *specimen* i ddangos mor gartrefol ydoedd ei awdwr yn llyffetheiriau y pedwar-mesur-ar-hugain cerdd dafod, ond i ddangos syniad Dick Nancy am englyn priodol i'w ddodi ar gareg fedd. Cymerodd fi laweroedd o weithiau i'w weled ar gareg yn mynwent yr eglwys y cefais i y ffraint o ddysgu darllen fy Nhestament yn ei hysgol Sul pan yn fachgenyn: ac yr oedd ef yn gweled pob cymhwysder ynddo at y pwrpas; ac felly y mae oddigerth y gwallau cynganeddol sydd ynddo.

Dyma hen englyn arall, y byddai yn meddwl y byd o hono—ffeindiodd ef ar hen gareg fedd yn Mynwent Llanfwrog—a fu am ugeiniau o flynyddau o dan y ddaear, wedi ei gerfio rywbyrd yn gynar iawn yn y ganrif diweddaf; ac wedi ei ddarganfod yr oedd Dick mor ofalus o hono â chanwyll ei lygad:—dyma fo,

"Y dyn gwych edrych dan odre—y gareg
'Rwyn gorwedd mewn caethle:
Yr un fath i ddwy lath o le
Diau daith y doi dithe."

"Os gwneith rwbeth les ar gareg fedd, englyn fel ene wneiff (ebe fe), oherwydd mae ambell i drafl yn dyfod i'r fonwent mor anystyriol â march i ryfel, ond os caiff penill fel ene ei lygad o mae'n bur debyg o ffeindio 'i ffordd i'w galon o hefyd."

Yr oedd Dick yn meddu ystor fawr o "englynion" fel y galwai hwynt, yn ei ben, ac yr oedd o yn dweyd eu bod oll yn argraffedig ar feini yn rhyw fonwent neu gilydd yn nghylch ei adnabyddiaeth, ond wrth gwrs, y mae hyny tuhwnt i fy ngwybodaeth i, ond wele ddau neu dri ohonynt fel engrheiffitiau:—

AR FEDD DYN FU FARW O NEWYN.

"Yma mae'n gorwedd corph William John Llwyd,
Yr hwn a fu farw o eisiau cael bwyd."

AR FEDD LLONGWR A GOLLODD EI GOES AR Y MŌR.

"Wrth ddod o'r Americ ar fwrdd yr Hong Kong
Fe gollodd ei goes ac fe'i tafwyd hi o'r llong;
Ar foreu y codi, ow! arwed y loes,
Bydd Evan mewn penbleth yn ffeindio ei goes!"

AR FEDD GŴR A WISGAI FERWIG.

"I gadw'i ben yn gynnes,
Mae'n gwisgo gwallt benthyc;
Pan welwn ni o nesa,
Fe fydd heb 'run Ferwig."

AR FEDD GŴR A GWRAIG FYDDENT WASTAD YN YMLADD.

"Ar hyd eu hoes tra fuont byw,
Ni pheidiai'r ddau a fraeo:
Ond er eu gwaethaf yn y bedd,
Bydd raid i'r ddau *byhafio*."

AR FEDD DYN CLOFF O'I ENEDIGAETH.

"Yma mae'n gorwedd
Yn ngwaelder y llawr
Hugh Huws y goes fechan
A'r llall yn goes fawr!
Ond pan godi'th o i fyny
Ymhlith yr holl saint,
Fe fydd ei ddwy goes
Wedi tyfu i'r un faint."

Yr oedd gan y dyn bach ryw bleser anarferol hefyd i adrodd beddargraff ryw Peter Foster, oedd fel yntau wedi cael y gorchwyl anymunol o gladdu pedair o wragedd, ac a fu farw ei hun pan ar fin priodi y bumed! Yr oedd clywed Dick yn pwysleisio wrth adrodd y llinellau hyn yn llawer gwell na'r penill ynddo ei hun,—

"Here lieth poor Peter Foster,
He married a wife, and then he lost her,
He married the Second, the Third, and Fourth—
Yes he did upon my oath!
But when about the Fifth, we say—
Death came in and he said nay."

EI DDAWN CANU.

Er nad oedd Dick wedi ei gynysgaeddu â rhyw lawer o ddawn canu, eto yr oedd wedi ei fendithio âg *ewylllys* fawr yn y cyfeiriad hwnw. 'Doedd dim ar y ddaear a'i swynai yn fwy na cherddoriaeth. Y mae llawer yn y byd yr un fath o ran hyny. Bai mawr Dick oedd, nad oedd o ddim yn agor ei gêg wrth ganu, ond yn hytrach yn ei chau yn dynach na chyffredin, gan fforsio ei lais rhwng ei ddanedd, fel pe buasai ganddo dair neu bedair o *Jew's harps* yn ei safn. Rhyw ddiffyg celfyddydol fel yna oedd yn cymylu ei ogoniant fel canwr, onide yr oedd ei lais naturiol, a'i awydd, a'i ewyllys yn ddigon cryf i *shinio* yn y cyfeiriad yna.

'Rwy'n cofio pan yn hogyn glywed yr hynaws a'r duwiolfrydig, y diweddar Archddiacon Newcome, yn dweyd wrtho wedi dyfod allan o wasanaeth boreu Sabboth yn Eglwys Llanfwrog (pan oedd yn dâl y plwy hwnw mewn cysylltiad â Rhuthyn). Hwyrach y dylwn ddweyd yn y fan yma, er fod y gŵr anrhydeddus ac uchelbarch hwnw yn un o'r dysgawdwyr goreu feddai Cymru, eto ni allai siarad yr iaith Gymraeg ond yn Seisnigaidd dros ben. Yr oedd y Sexton yn y gwasanaeth hwnw wedi rhoi ei lais allan yn o hael, ac ebe Newcome wrtho wedi dyfod o'r Eglwys:—

“Tick, ti tori bedd gwell na canu—ti dim agor cêg wrth canu—ti gneyd sŵn drwg—ti peidio canu pan fi pregethu eto Tick.”

“Begio'ch pardwn syr (ebe Dick), mae'r Beibl yn dweyd, 'Pob perchen anadl molianed yr Arglwydd,' ac os na chana i yn yr Eglwys mi ga i ddrwg syr.”

“Ie Tick, moliantu fo deyd—ti ddim *molianu*—ti canu trwy dy trwyn. Os ti eisio *molianu* rhaid i ti agor dy cêg, a *thywallt* dy calon ger bron Duw. Ti *tagu* moliant—ti *lladd* moliant cyn ei ollwng allan, Tick.”

Ac nis gallai y dyn bach ddweyd gair. Yr oedd yr hen offeiriad clodfawr wedi ei daraw a syndod mud yn ei

esboniad ar y dull o ganu er moliant i Dduw, ac yn wir y mae yr esboniad yn werth sylw canoedd o'n cerddorion yn y dyddiau hyn. Mae rhywrai i'w cael yn mhob cynulleidfa bron yn canu, neu yn *ysgrechian* yn hytrach, trwy eu danedd! I *gnoi* trugareddau'r Arglwydd y mae y danedd wedi eu rhoddi yn mhen dyn, ac *nid i sefyll ar ffordd* y tafod i folianu y Rhoddwr am y trugareddau hyny. Yn wir y mae gwranddo ar ambell i gynulleidfa anghelfydd yn ceisio canu, yn peri i un feddwl am "gym-anfa o gathod yn amser herwa," gan faint yr *oer-nadau* a'r *discords* poenus nodwedda eu "mawl," a phe byddai iddynt gymeryd cynghor yr Archddiacon, fe atebai ddyben ardderchog mewn mwy nac un ffordd.

Cafodd yr ysgrifenydd, pan yn grwtyn, y fraint o fod yn perthyn i "Gor y Gwyliau," neu fel y camenwid ef y pryd hyny yn "*Wandering Minstrels*," o dan arweiniad ei dad bedydd. Ac un tro pan eu gwahoddwyd i gael *Christmas treat* i un o dai mawr y dref, pwy ddeisyfodd gael dyfod yn nghysgod y côr ond y dyn bach, ac yn unol â haelfrydigrwydd calon y conductor, caniatawyd ei gais. Wedi gosod ein hunain *in order*, safai blaenor y gân a'i vas viol o'i flaen yn y canol, yn cael ei suportio ar un llaw gan leader y bâs, ar y llaw arall gan Alto A1. Safai Dick rhwng Sims Reeves ac arglwydd y vas viol o'r tu ol, a phan oedd pawb yn casglu gwynt i'w fegin i gyd-daro ar amnaid y blaenor, yn ddisymwth ar y tarawiad, "*Hail smiling morn*," gollyngodd y dyn bach y fath bwff o wynt nes y fforsiodd allan glompen o choi dybaco debygswn i oedd wedi bod yn ei ben er dechreu y cynhauaf yd, ac i le disgynodd ond yn blaster ar y llyfr notes oedd o flaen y conductor! Rhag cywilydd, rhoddodd Sims sneipen iddi oddiyno, a disgynodd wedyn ar strings y vas viol, gan beri iddynt wichian mor aflafar a lot o foch bach ar ddarfod am danynt. Edrychai Dick yn bur swil oblegid ei anffawd, a bu agos iddo fel yna dynu cwmwl ar ogoniant y côr goreu yn y byd, mae'n debyg, y pryd hyny.

Ni feddylid rhyw lawer o ddyn y pryd hyny os na fyddai ganddo, wrth raid, ryw un neu ddwy o "gerddi" y byddai yn alluog i'w canu pan fyddai achos yn galw. Byddai Person y dref y pryd hyny (coffa da am dano, y mwyaf haelfrydig ei galon, a glanaf ei ymarweddiad a welodd y gymydogoeth erioed o'i flaen, mae'n debyg, nac a wel ond odid byth ar ei ol) yn rhoddi swper ardderchog i'w gantorion yn nhair eglwys ei ofal, ac wrth gwrs yr oedd Dick yn rhwym o fod yn un o'r gwahoddedigion; ac yn y swper hwnw, wedi i bawb wneyd cyfiawnder â'r dyn oddifewn, yr oedd y cwmni yn ymddifyru wrth ryddymddiddan a chanu. Weithiau canai Dick "Y Deryn Du big-felen," yn bur ddoctoraidd, ac er boddhad mawr i'r llygad-dystion—i'r llygad-dystion meddaf, o herwydd yr oedd mwy o wledd i gael i'r *llygad* o ganu Dick nag i'r *glust*. Ond ei brif orchest-gan ydoedd "Thumbkin Dance," *favourite song* Yr Hen Glwb (coffa da am dano, un o hen gymeriadau goreu Llanfwrog oedd ef)—canai y 'Rhen Dderyn hono yn glasurol od. Rhyw fath o ddynwarediad o *ball* ydyw. Safai y canwr ar ei draed ol megis, ac wedi casglu ei hun i *singing order* galwai ar ei fawd i agor y ddawns, yr hon a ysgydwai fel peth o'i cho tra y canai y llinell gyntaf—



| m :- :- | r : d : r | d :- :- | :- :- | m :- :- | r : d : r | d :- :- | :- :- |
 Dance Thumbkin, dance, Dance Thumbkin, dance,

ac wedi cael *dance* gan Thumbkin, ysbrydolai hyny o fysedd oedd ganddo ar ei bawen, a galwai arnynt hwythau i roi *step*.



| r :- : r | r : m : f | s :- : m | s :- : - |
 Dance ye merry men all around,



| d :- :m | f :- :m | r :d :r | d :- :- ||
 Thumb-kin he can dance a - lone (Thumbkin ei
 [hunan]).

Dance first man, dance, dance first man, dance,
 Dance ye merry men all around,
 Thumbkin he can dance alone.

Dance second man, dance, dance second man, dance,
 Dance ye merry men all around,
 Thumbkin he can dance alone.

Dance third man, dance, dance third man, dance,
 Dance ye merry men all around,
 Thumbkin he can dance alone.

Dance little man, dance, dance, little man, dance,
 Dance ye merry men all around,
 Thumbkin he can dance alone.

Yr oedd y bysedd, gwelwch, yn agor y ddawns bob yn ail, ac yr oedd clywed a gweled y dyn bach yn ei chwareganu yn ddigon a gwneyd i gathod chwerthin. Edrychai mor ddefosiynol a phe buasai yn canu hymn-gladdu, a mwyaf yn y byd welai y cwmpeini yn chwerthin, sobra yn y byd yr edrychai efe. Ei *favourite* bob amser, fel y crybwyllwyd, oedd ei ddigrifol "Thumbkin Dance," yn nghôrws yr hon y byddai Rover yn joinio yn ei afiaeth.

Y mae genyf i ddiolch i Mr. W. Evans (*Y Gwanwyn*), am y ddwy gân nesaf. Onibai iddo ef ein cynysgaeddu â hwynt, hyd y gwn i, fe fuasent o bosibl yn marw gyda Dick Nancy. Fe ganai y dyn bach y gân hon hefyd yn deilwng o hono ei hun, ebe ein cymwynaswr; a chan mai oddiar ei gôf y mae yn rhoddi y gerddoriaeth, fe faddeua y darlennydd os nad ydyw i fynu â'i safon. Yr ydym yn ei chyhoeddi yn unig fel pluen ychwanegol yn nghap coffadwriaeth yr Hen Dorwr Beddau:—

CAN NEWYDD YR HEN AMSER.



:m,m | s .s,s:s .f | m .m :m .m | f .s :f .m |
 Os rhaid treulio'r oll o'r sach, Cyn myn'd i winedd



| m .r : .s, | d .d,d:d .m | d .l, :t, .d | r .d :t, .s, |
 aneu, 'Dyw hyny ddim ond colled fach, A thithau heb ddim yn



| s, .d : .s, | d .d,d:m .m | d :— | r .r,r:f .m |
 dechreu. Fal la di ral la la la, Fal di ral la la



| r :— | m .m,m:s .s | m :— | r .,r:d ||
 la, Fal di ral la la la, Fal la la.

Os yw llawnder yn y byd
 Yn dyrysu'r rhai sydd ynddo,
 'Rwy'n barnu y byddai ar bob pryd
 Yn well i'r byd fod hebdo. Fal di ral lal, &c.

Y frasaf ardd yw Dyffryn Clwyd
 O fewn y byd ireiddlon,
 'Raid undyn farw o eisieu bwyd,
 O fewn 'rhen Ddyffryn frwythlon. Fal di ral lal, &c.

'Rwyf weithiau'n meddwl—O na chawn
 I ddysgu'r hen fyd yma,
 "Yr hen a ŵyr bob peth yn iawn,
 A'r ieuanc ffol a dybia." Fal di ral lal, &c.

Mae'r hen ddiareb sydd ar led
 Mor wired ag yw'r pader,
 "Bargen ddrud a'i chyrchu o bell,
 Mae hono 'n well o'r haner."

Fal di ral lal, &c.

Wele eto y drydedd o orchest-ganeuon y torwr beddau,
 yr hon sydd yn nodweddiadol iawn o hono:—

CAN Y DERYN DU.



:s | l . t :d' .,l :s . f | m . s : : . s |

1 Gof.—Y 'Deryn du sy'n rhodio'r gwledydd, Ef -
 2 At.— Mae mwy o bysgod, cwyd dy galon,



| l . t :d' .,l :s . f | m . s : . s : s . s | f' .,m' : m' . r' : r' . d' |

e a wŷr yr hen a'r newydd, A roi di gynghor i fachgenyn
 Nac a ddaliwyd yn yr afon, A phaid rhoi'th serch i ferch ond hyny



| l . t :d' .,l :s . f | f . m : . m : f . s . l | s . l , t :d' : |

Sy'n cystuddio er's mwy na blwyddyn, A roi di gynghor i mi?
 Hyd nes ei *henill* i dy garu, Dyna fy nghyngor i ti.

3.—PENDERFYNIAD Y LLANC.

Er trymed wyf—Ow! dyn a'm helpo,
 Wedi i'm cariad fy nbroi heibio—
 Mi garaf eto'n dipyn callach,
 Ac mi chwiliaf am ei ffyddlonach,
 Yn ol dy gynghor i mi.

Cân ffarwel Gwen—yr hon a'm twyllodd,
 Ffarwel Gwen—mae'r cwbl drosodd:
 Dyn helpo'r llanc a rydd ei galon
 I gariad-ferch a fo'n anffyddlon,
 I gariad oered â Gwen.

EI SEL DROS YR EGLWYS.

Yr oedd sêl Dick Nancy dros Eglwys Loegr yn angherddol. Ond er ei fod fel yna yn dwyn sêl dros fesur dros y sefydliad, yr oedd amryw bethau ynglyn â hi nad oeddynt yn hollol wrth ei fodd. "Os oes un peth ag y mae pobl y wlad yma yn ei gasau gyda chasineb mwy llwyr a gwirioneddol na'r llall, y mwngrel anonest a elwir 'Puseaeth' ydyw hwnw; a phe bai yr Eglwys a'r Llywodraeth yn cael ei wneyd yn gwestiwn y dydd gan y Ceidwadwyr yn yr etholiad nesaf, heb gyplysu gydag ef waedd am ddiwygiad ein llysoedd eglwysig a'r cyffelyb, *cawsai y blaid ei gorchfygu*, ac y mae yn ei haeddu," ebe papur newydd yn ddiweddar—nid *Goleuad* y Methodistiaid Calfinaidd; nid *Seren* y Bedyddwyr; ac nid *Tyst a'r Dydd* yr Annibynwyr—ond papur Eglwysig a elwir y *Rock!* Gallesid meddwl yn naturiol mai o ddrwg-ysbryd rhyw Ymneillduwr penboeth y codwyd y geiriau, ond gan bwyll, codwyd y brawddegau yn gryno o ohebiaeth rhyw frawd sydd yn cwyno ar Ap Israel fel Blaenor y blaid Geidwadol; ac y mae yn gwrthwynebu yn benderfynol bob ysbryd defodaeth, a phob arwyddion eraill sydd yn gogwyddo i Rufain yn yr Hen Fam: ac y mae hefyd yn awyddus iawn, chwareu teg iddo, i wyntyllu ei lawr-dyrnu oddiwrth yr ūs y mae Miall & Co. mor hoff (yn ei dyb ef) o ymborthi arnynt. Fel yna yn union yr oedd Dick yn teimlo. Yr oedd mor gased ganddo weled Person neu Bregethwr balch a ffroenuchel, â phe buasai yn cyfarfod ci cynddeiriog; yn enwedig pan lusgent y balchder hwnw i'r "lle ofnadwy" elwir y pulpud. Fuasai dim yn merwino ei glustiau yn fwy nag adrodd wrtho ryw arwyddion ffres o ledaeniad Defodaeth. Ys dywed gohebydd y *Rock*, yr oedd Dick yn "casau â chasineb llwyr" bob math o ogwydd at wneyd Eglwys Loegr yn Eglwys Rufain. Pan y deuai "Person newydd" i'r ardal, y cwestiwn pryderus cyntaf ofynai Dick ydoedd, "Ysgwni ydi o'n Busey?" Ac os cawsai ar ddeall ei fod yr hyn a

ofnai, dywedai, "Wel, dyma un arall a helpia y gelynion i dynu yr Eglwys i lawr." Yr oedd yn wastad yn dweyd mai gelynion penaf yr Eglwys oedd ei phobl ei hun. "Wneiff y Pygethwrs byth niwed iddi (ebe fe), 'does dim mwy o beryg iddynt hwy wneyd niwed i'r Hen Fam nag sydd i blismon ddiffodd y lleuad â'i boeryn." Ond y mae y Puseaid, a'r grasolion uchel ac isel sydd yn cancro bronau yr Hen Fam oddifewn iddi ei hun, yn llacio cred ei ffyddloniaid yn yr hen arwyddair anwyl hwnw— "Llwydded y rhai a'th hoffant." Gwylier nad felly y mae, y mae y trybini moesol *oddifewn*, i bob Eglwyswr a llygad yn ei ben, yn ddigon o arwydd o wirionedd y gair hwnw, "Tŷ wedi ymranu yn ei erbyn ei hun *ni saif*." "Mae'r adeilad eisioes yn gogwyddo," ebe un areithiwr y dydd o'r blaen, "a phan y bydd y seiliau wedi gorphen pydru, daw i lawr yn bendramwnwgl." Ond os ydyw hyn y gymeryd lle, y mae yn drugaredd fod Dick druan wedi ei gludo at ei dadau, o herwydd ni allasai byth ddal yr oruchwyliaeth ryfedd hono! Buasai yn gwneyd ei wely yn foddfa y nos, ac yn claddu chwartie lawer o ddagrau yn meddau newydd ei gymdogion.

Ni fyddai dim yn ei wylltio yn fwy nag yngan yn ei glyw *nad* eiddo yr Eglwys ydoedd y *degwm*, a'i hen *waddoliadau*. Yr wyf yn cofio unwaith ddarllen iddo erthygl fêr ar y pen hwn, yr hon a geisiai brofi nad eiddo yr Eglwys oeddynt. Yr oedd awdwr yr erthygl hono yn siarad yn gryf, ac yn dyfynu darnau o eiddo gwahanol enwogion gwleidyddol ar y pwnc. Er enghraifft:—

(1.) "Nid ydyw y *landed property* sydd yn nwyllaw y Clerigwyr yn perthyn iddynt, eithr rhan ydyw o'r eiddo cenedlaethol."—*Arglwydd Melbourne*.

(2.) Barnwyf ei fod yn ngallu y Llywodraeth, heb fod yn gysegr-ysbail neu annghyfiawnder, i gadw unrhyw ran o eiddo yr Eglwys, a'i ddefnyddio at achosion eraill, os byddai hyn y lles i grefydd a dedwyddwch y wladwriaeth."—*Arglwydd Ganghellydd Campbell*.

(3.) “Y mae eiddo yr Eglwys yn perthyn i'r Llywodraeth, ac y mae yn ei gallu i ymwneyd â'r cyfryw eiddo yn ol fel y byddo amgylchiadau yr amseroedd yn gofyn.”
—*Arglwydd Palmerston.*

Ond cyn myned yn ddim pellach, yr oedd y gras o amynedd yn Dick wedi myned yn gandryll yfflon; ac oni bai fy mod i wedi rhagweled fy mherygl mewn pryd, ac i daflu y papur o'm llaw, 'dydw i yn amheu dim na fuasai ôl ei ffon ar fy nghorff hyd y dydd heddyw.

Nid oedd o ran hyny ar ben ei hun ar y pwynt yma, o herwydd pan basiodd *bill* yr *Irish Church*, fe ddaeth y newydd i offeiriad yn y wlad yma pan oedd yn ymbleseru yn ei ardd; a chynted ag y gwelodd mewn llythyrenau breision “THE IRISH CHURCH DISESTABLISHED,” yn ei newyddiadur, fe'i rhwygodd yn gant a mil o ddarnau, ac a'u lluchiodd i drugaredd pedwar gwynt y nefoedd, fel pe buasai y papur druan yn gallu rhywbeth wrth y dadgysylltiad, ac yn gallu teimlo ei *spleen* ef at arwr Penarlâg!

Yr oedd Dick yn dymuno “heddwch Jerusalem” o'i galon; a gwae neb, cyn belled ag oedd a wnelai ef âg ef, a ynganai yn amgen. Ond Dick a fu farw, a pha beth ddaw o'r Eglwys—amser a ddengys. Dyna'i brofiad bob amser:—

Os y'ch am fawredd ac am râs,
O dowch i'n heglwys ni;
A phan b'ai achos, dyn a'i gŵyr,
Fe 'mladda'i drosti hi.

Fe ai i'r eglwys bob dydd Sul,
Y boreu a'r prydawn;
I'w anwyl Seion tra fu byw
Bu Dick yn ffyddlawn iawn.

EI ORCHEST-GAMPAU.

Yr oedd y gorchestion ysmala a dryfrithent hanes bywyd Dick Nancy yn aneirif; a byddai ceisio eu croniclo yn orchest bron anhosibl. Mae pob dyn, bydded ei

fywyd mor ddinod bynag, yn meddu ar ryw hynodion; ond yr oedd Dick megis *essence of oddities*, a'i fywyd yn orlwythog o honynt, fel ag y mae yn orchwyl anhawdd iawn dechreu gwneyd detholiad. Siaradwch â neb a fynoch, y mae gan bawb ryw stori ryfeddach na'u gilydd am dano; ac yn y fan yma ni a ddechreuwn wneyd oreu gallwn:—

1. *Mesur Corph.*—Dychrynwyd Dick unwaith bron i farwolaeth, meddai efe, wrth fesur corph rhyw hen ŵr fu farw yn ei grwewd, o'r hwn nad oedd efe yn rhy hoff pan yn fyw. Wrth wasgu ei ddau ben lin i lawr, i gael rhyw grap ar ei hyd, cododd y corph ar ei eistedd, gan daraw ei ben yn erbyn gwegil ei fesurwr! Gan feddwl fod ei hen elyn wedi cael cenad i achub y cyfleusdra olaf i ddial arno, neidiodd Dick o'i afael, a'i galon yn curo gan ddychryn, a gwadnodd hi adref am ei fywyd! Ac oni bai fod rhyw hen wraig yn yr ystafell, buasai y corph wedi tymblo i'r llawr ar ei ol.

2. *Neidio drwy ffenestr.*—Yr oedd rhyw hen wraig wedi marw unwaith mewn lle elwir “Y Telpin,” a danfonwyd am Dick i ddyfod yno i drefnu ar gyfer y claddedigaeth. Yr oedd hen wraig o'r un enw â'r hon a fu farw *yn byw mewn tŷ o'r un enw*, mewn cyfeiriad arall o'r dref, yr hon oedd hefyd yn gorwedd mewn afiechyd, ac i b'le 'raeth y dyn bach ond i'r Telpin yr oedd yr hen wraig yn glaf! Wedi myned i'r tŷ, gofynnodd yn bur ddefosiynol i'r ferch,
“Pa le mae'r hen wraig?”

“Mae yn y llofft,” ebe hono, gan feddwl mai dyfod yno i edrych am dani yr oedd.

Ac aeth Dick ar ei union i'r llofft—cododd y dillad oddiar ochr yr hen wraig (yr hon oedd ar y pryd yn cysgu), gan feddwl ei mesur hi; ond er ei syndod a'i fraw annirnadwy, *deffrodd* yr hen wraig, ac yn ei dychryn hithau a gododd ar ei heistedd, ac a ddechreuodd fygwth y dyn bach am ei hyfdra; ond cyn iddi allu cael amser i ddweyd ond ychydig eiriau, yr oedd Dick wedi rhoddi *naid drwy*

ffenstr y llofft allan, ac oni bai fod yno lafn o haiarn, a *bâch ar ei ben* (i ddal y ffenestr yn agored), ac a'i daliodd gerfydd ei glôs nes y daeth rhywrai i'w gael yn ol drwy'r ffenestr, buasai wedi neidio ddyfnder dychrynlyd ar balmart y buarth, ac yn ddiddadl bron buasai yn y cwymp wedi cyfarfod a'i ddiwedd. Pan ddaeth ato ei hun o'r dychryn yma, fe ddywedodd yn orfoleddus, "Diolch i Frenin Israel mod i yn fyw 'rwan beth bynag—bu agos i fisio y ddau "Delpin" fod yn angeu i fy nhelpyn i."

3. *Ar yr Elor.*—Er nad oedd Dick ddim yn ddirwestwr, eto nid oedd un amser yn ymroddi yn ormodol i addoli Syr John Heidden. Yn hytrach byddai yn wylidwrus—ac nid wŷf yn meddwl iddo erioed esgeuluso ei ddyledswydd tuag at gorph neb pwy bynag. Yr oedd yn fanwl ar y pen hwnw. Ond at hyn yr oeddwn yn cyfeirio: fe'i llithiwyd i ormodedd gan rhyw ŵr boneddig oedd yn byw yn Firgrove, yr hwn a'i llwythodd â chwrrw wedi ei gymysgu â gwirod (meddai ef), ac wedi ei wneud yn berffaith analluog i godi i fynu i gerdded adref. Y *plan doniol* a gymerodd y boneddwr i'w hebrwng oedd anfon pedwar o "wŷr cryfion" i gludo yr elor, ar yr hon y dyrchafwyd yr hyn oedd ddiffrwyth i Dick, ac y cariwyd ef, na wyddai neb nad oedd yn farw oni bai ambell i ebwch a roddai yn awr ac yn y man, o'r Firgrove i'w gastell yn y Borthyn. Ond pan tua haner y ffordd, mor ddisymwth a "gwlaw trane," dechreuodd "fwrw ei fara" (yn nghymysg â ffrwd o ryw beth gwrthwynebus a bustlaidd) i wegil un o'r cariwrs blaen, yr hwn, yn llawn dychryn, a ollyngodd ei afael o'r elor, nes oedd Dick yn tymblo fel rholyn o wlan rhwng eu traed hyd lawr! Wedi iddynt ddyfod i ddeall eu gilydd, codwyd ef i fynu eilwaith (am nad oedd dyfod trwy y gwynt wedi ystwytho dim ar ei *understandings*), a chaethgludwyd ef adref yn gyfforddus, meddai ef, "yn ei *carriage and four!*" "Cyn fy nghwmp," meddai, "yr oeddwn megis yn cysgu yn nglyn cysgod angeu, ac wedi fy nghwmp yr oeddwn yn gweled y dyffryn yn troi o'm

deutu fel chwrligwgan!" Ni chafodd efe erioed y fath groesaw gan "yr hen wraig" fel y galwai hi, ag a gafodd y tro hwn, o herwydd fe feddylodd yn ei chalon, druan o honi, wrth ei weled ar yr elor, fod rhywbeth wedi darfod iddo, a'i fod "yn gorph;" ond pan ddeallodd fod chwythiad ynddo, gwnaeth fwy o hono nag erioed, er chwithed ydoedd. Pwy ddigwyddodd basio y dyn bach ar yr elor ond Bardd y Nant, ac fel hyn y diweddai gerdd ar y wel-edigaeth:—

"Yn ei elor-gerbyd marchogai 'r hen frawd,
Mor llwfr a difywyd a chydai o flawd;
And never did I hear such a thing before,
Cwyno 'roedd Dick yn ei carriage and four!"

4. *Teithio yn yr Hearse.*—Ond y performance mwyaf arwrol yn meddwl Dick, ag yr ymfrostiai mwyaf o'i blegyd, oedd ei waith yn trafaelio o Ruthin i fynwent Llysfaen tufewn i hearse gauedig, gyda chorff rhyw hen feddyg! Yr oedd rhai o *wags* y dref wedi gwneyd *bets* ag ef nad oedd ganddo ddigon o *nerve* i wneyd hyny; ac wedi setlo y wystl â "swllt i lawr," yfodd y dyn bach ei werth o "fire-water," chwedl y dirwestwrs, i gadw ei feddwl a'i law yn ucha' ar yr hen ddoctor, ac i fewn i'r hearse ag ef, a chauwyd y drws! Cyn iddynt fyned haner milldir o'r dref, daeth yr egwyddor o falchder at Dick, ac a'i perswadiodd i dynu ei "gôt ore"—ei "gôt claddu byddigions"—chwedl yntau, fel yr edrychai dipyn yn drefnus yn mhen ei siwrne. Wedi ei thynu, plygodd hi, ac a'i taenodd yn deidi ar gauad yr arch. Ac wedi taenu dipyn o wellt, gorweddodd ochr-yn-ochr â'r meddyg, gan ystyried ei hun, ebe ef, yn gymaint dyn ag ynte! Wedi trafaelio y daith allan, mewn hûn ddedwydd, cyrhaeddasant Llysfaen, ac wrth *gate* y fynwent stopiodd yr hearse, ac ar hyn deffrodd Dick, ac wrth rwbio ei lygaid clywai y clochydd yn ordro y dynion oedd wedi eu llogi i gario y corff i'r eglwys i agor y drws; ond gan ei fod yn anfoddlon iddynt

agor cyn iddo roddi ei gôt am dano, ymestynodd yn ddis-taw ac a roddodd ei fys i atal i'r gliciad droi, a daliodd ef yno nes iddo ymdrwsio yn drefnus. Pan oedd yn barod, eisteddodd â'i wyneb at y drws ar ben yr arch, ac wedi cael ei fys ef o'r ffordd, llwyddodd y clochydd a'r cariwrs i agor y drws; ac, er eu braw, beth welent yn eu tyb hwy ond y corph wedi codi, ac yn hylldremu arnynt fe pe buasai yn barod i'w bwyta! Yn ngwyneb yr olygfa, syrthiodd y clochydd i lewyg rhwng olwynion ôl yr hearse, a rhedodd y cariwrs, rhai bob ffordd, na welwyd mohonynt drachefn y dydd hwnw! Erbyn hyn daeth yr hen Warden (oedd wedi trafaelio ar ol y corph o Rhuthyn) yn mlaen o'r eglwys, yn ei wn gwyn, i ddarllen y gwasanaeth; a chan ei fod yn methu deall y trybini, dechreuodd groesholi Dick, yr hwn oedd erbyn hyn yn cymeryd arno fod yn brysur gyda'i orchwyl o barotol y corph:—

Warden: “Sut ti dwad yma, Tick?”

Dick: “Yr oeddwn i yn eich ymyl ar hyd y ffordd, syr.”

Warden: “Ti deyd ti dwad yn yr hearse, Tic—fi ame?”

Dick: “Yr oeddwn i yn eich ymyl ch'i ar hyd y ffordd, syr; oeddwn wir, syr.”

Warden: “Ti deyd ti dwad yn yr hearse, Tick? Ti deyd cwir?”

Dick: “Wel, d-d-do wir, syr” (rhwng chwerthin a chrïo,—chwerthin am ben y gŵyr cryfion yn ffoi a'r clochydd mewn llewyg wrth ei draed, a chrïo rhag ofn iddo drwy yr aflwydd hwn dynu gŵg yr hen offeiriad clodfawr).

Warden: “Fi diall rwan *more than ever*; ti ffond o cirff, Tick; a fi bydiddio ti ‘Deryn Corff’! Mofyn help i gario mlain y cligeth.”—Ac felly fu; a dywedir i'r hen Buritan chwerthin ei wala pan ddeallodd sut y fu.

O hyny hyd yn awr un o enwau goreu Dick yw “Deryn Corph,” neu'r “Rhen Dderyn,” yn ol *amendment* Penybont.

Yn union wedi hyny canodd rhyw *wag* o fardd bwt o gân i'r Hen Dderyn, a chlywais ef yn ei chanu yn hwyliog iawn mewn Swper Tir Tatws er's talwm ar y dôn "Y Gwenith Gwyn." Dyma fel yr oedd, os wyf yn cofio yn iawn:—

Mae 'na dderyn llwyd a du yn cysgu yn y clochdy
Drwy y dydd, ac wedi deg yn 'hedeg mae oddeutu!
Deryn Corff, y meddai nhw, yw enw yr aderyn,
Ond fe ga'dd y Warden call un arall yn y Borthyn.

Un llymrig, hyll, annedwydd, syn, yw Deryn Corff y clochdy;
Mae clywed unwaith sain ei wâch yn ddigon a'ch dychrynu:
Fe dd'wedir fod ei weled o'n arwyddo marw rhywun,
Ac felly dychryn i bob un yw Deryn Corff y Borthyn.

Mae enw y diweddar Warden, sef y Parch. B. Newcome, wedi ei grybwyll genym fwy nag unwaith yn nglŷn â hanes Dick Nancy, a dymunwn yn y fan yma dalu teyrnged o barch diffuant i'w goffadwriaeth. Anwylach bôd dynol ni sangodd yr hen ddaear yma erioed. Yr oedd hynawsedd ei ysbryd, ei garedigrwydd dros fesur, a'i ofal graslawn dros y tlawd yn ei godi *yn gyfiawn* o'i ysgwydd i fynu yn dalach na'r un offeiriad y clywais i erioed son am dano. Yr oedd yn ddychryn i annuwiolion y dref a'r wlad. Pan fyddai yn myned ar hyd stryt Llanfwrog ar Sul y boreu, byddai y plant a'r bobl ieuainc a'r *sculkers* o bob oedran, yn ffoi i'w tyllau am eu bywyd gan ei ofn! Ac eto yr oedd mor *ostyngedig*, fel pan oedd efe yn myned i'r gwasanaeth i Eglwys Llanrhydd, y gofynodd rhyw eneth fechan iddo ar y ffordd i ddyfod i'w thŷ hi i'w helpu i dynu y crochan a'r potes oddiar y tân, yr aeth dan wenu, ac a dynodd y crochan i lawr ei hunan, gan roddi swllt yn llaw yr eneth fach *am ei ffafrio â'r pleser o'i chynorthwyo!* Fe ranai ganoedd o bunau yn ystod blwyddyn i'r tlawd a'r anghenus, a chollodd y Cymdeithasau Crefyddol yn ei ymadawriad ef o Rhuthyn eu cyfaill ffyddlonaf.

5. *Enoch y Pension.*—Y mae y brofedigaeth o ddweyd un digwyddiad a gymerodd le rhywdro ar ben y dref yn

fy ngorthrechu yn y fan yma. Yr oedd y Warden yn croesi o'r Cloisters un pen bore, a phwy aeth ato ond rhyw gymeriad oedd yn byw yn Rhuthyn y pryd hyny o'r enw Enoch y Pension. Yr oedd Enoch wedi bod yn troi tomen iddo yn un o'r caeau, ac aeth ato fel y crybwyllwyd ar ben y dref, ac a'i cyfarchodd fel hyn:—

“Os gwelwch chwi'n dda, Syr, yr ydwy'i wedi dar fod troi'r domen.”

“Ti deyd cwir, Enoch?”

“Ydw wir, Syr.”

“Ti dwad efo fi i'r Cloisters, ti cael tâl,” a thrôdd yr hen wr bonheddig yn ol tua'r tŷ, ac Enoch yn cerdded rhyw deirllath ar ei ol. Yr oedd y pryd hyny yn yr haf, a'r haul yn tywynu yn ei ddisgleirdeb mwyaf, a chan fod yr hen wr yn wastad yn cerdded a'i olwg ar lawr, canfyddai gysgod breichiau Enoch yn ysgwyd o'r tu ol iddo, fel pe buasai yn ei ymladd yn ei gefn. Trôdd yr hen wr ar ei sawdl, ac a ddywedodd—

“Ti cneyd *sport* o fi, Enoch?”

“Nag ydw i, Syr, *dim ond dangos i'r rhein acw be wnawn i pe d'ai rhywun yn twched arnoch chwi, Syr.*” Ac wrth gwrs, yr oedd ateb parod a ffraeth Enoch yn ddigon o dâl i'r hen offeiriad am y camwedd i gyd.

6. *Enoch yn y Rhyfel.*—Fe ddywedir un stori am Enoch ag y byddai yn resyn i ni beidio ei chofnodi yn awr tra mae ei enw wedi ei ddwyn i mewn. Rhyw labwst wedi oferdyfu i faintioli anferth ydoedd Enoch; a chan ei fod yn treulio ei ddyddiau heb wneyd dim ond ymloetran hyd y dref, fe benderfynodd boneddigion y gymydogoeth ei berswadio i uno â'r fyddin. Rhoddodd Mr. Newcome godaid o arian yn ei boced, a rhoddodd boneddiges oedd y pryd hyny yn byw yn Plasnewydd *watch* arian ysblenydd iddo; eraill a roddasant iddo *suit* o ddillad newydd pur gostus, ac i ffwrdd âg Enoch cyn falched âg ymerawdwr rhyw ben boreu i uno â'r *Welsh Fusileers* yn Nghaer. Ac yn siwr hefyd yr oedd y waredigaeth o hono yn beth

mawr yn ngolwg y wlad, oherwydd nid ystyrid ef gan bobl y pryd hyny yn rhyw gyflawn iawn yn nen ei babell. Cyn pen nemawr o fisoedd galwyd ei gatrwd i'r Crimea, i gymeryd rhan yn y rhyfel ofnadwy hwnw. Ymladdai Enoch y dewraf o honynt yn ysgarmes boethwyllt yr Alma ('rwy'n meddwl), ac wedi lladd llaweroedd o'r gelynion—ac ymladd fel anifail gwyllt yn nghanol y celaneddau am yspaid dwy awr—fe safodd yn sydyn, gan roddi *butt-end* y gwn ar lawr, tra'r oedd bwledi y gelynion yn chwibianu heibio ei glustiau, ac a ddywedodd wrthynt yn Gymraeg, â gwen ar ei enau, “*Cerwch oddi-yna, chwi'r ffylid—yr ydych chwi ddigon a thynu llygaid dyn!*” Yn union wed'yn fe ddywedir iddo gael bwlet drwy ei gorph, ac iddo farw yn y fan. Fe'i gelwid ef yn “Enoch y Pension,” am mai pensioner oedd ei dad—un o arbedigion Waterloo, &c.

Druan oedd Enoch, y dewraf o'r gâd,
Ymladdodd fel *tiger* dros ryddid ei wlad!
Ond pan yr ysgubai'r gelynion rhag bla'n,
Fe ballodd ei ddewrder yn mboethder y tân!
Fe gollodd ei fywyd pan gollodd ei rym,
Ni thâl laesu dwylaw a'r gelyn mor llym!

7. *Llais o'r Bedd.*—Wrth dori bedd yn mynwent Efen-echtyd, rhyw dro, trôdd amaethwr o'r enw Mr. Parry i mewn—dyn mawr, esgyrniog, bochgoch, iachus—ac wedi synfyfyrio (fel y gwna dyn o deimlad), uwchben y bedd newydd, dywedai yn ddifrifddwys, “Wel, wel, yma y byddaf ine, os bydda i byw ac iach,” ond atebai Dick o'r bedd dan wenu, “Dydi ddim yn edrych yn debyg wir, Mr. Parry—*wrong sort.*”

8. *Beth ydyw o'r gloch?*—Dro arall, yr oedd yn tori bedd yn mynwent y dref, ac yn hollol allan o'r golwg, pryd y daeth gŵr bonheddig heibio, ac a ddechreuodd “gymeryd stock” o'r eglwys, a'i feddwl yn hollol wedi ei lynu i fynu gan yr adeilad henafol; ac er ei ddychryn, fe dorwyd ar ddistawrwydd y fynwent, a'i synfyfyrdod

dwys yntau, gan lais yn gofyn o'r ddaear wrth ei sawdl, "Be ydi o'r gloch, Mr. Jones?" Ar y foment, fe neidiodd y boneddwr dros haner dwsin o geryg beddi, gan faint ei ddychryn, ac a'i gwadnodd hi adref nerth gewynau ei draed, gan feddwl fod rhyw un o breswylwyr pyrth y bedd wedi siarad âg ef, canys ni wyddai ddim am Dick, yr hwn a grug-leisiodd o bwrpas i geisio ei ddychrynu.

9. *Yfed Tê Camomile.*—Yr oedd yr hen Archddiacon Newcome wedi cael ar ddeall gan Dick ei fod yn ddirwestwr: yn wir, efe oedd wedi ei berswadio i fod felly yn union wedi *exploit* Firgrove, rhag ofn y digwyddai rhyw ddamwain felly eilwaith; a rhyw brydnawn, yn yr adeg hono, pwy alwodd i edrych am Dick ond ei Fugail clodfawr, heb yn wybod iddo; a beth oedd o flaen y dyn bach ar y pentan ond glasied o gwrw mewn jwg da! Arweiniodd y jwg, ynghyda'r ffwstwr yr oedd Dick ynddo, yr hen sant i feddwl fod rhyw ddrwg yn bod, ac efe a ddechreuodd ei holi:

"Wel ti yfed cwrw, Tick—fi gwel'd."

"Nag ydw wir, Syr," ebe yntau, mor ddifrifol a phe buasai yn dweyd ei bader, "dipyn o dê camomile ydi o, wnaeth y wraig yma imi rhag poen yn fy mrest, Syr."

"O, ta iawn, ti yfed diod fel ene, Tick, hi gneyd lles i ti."

"Gneiff, Syr; yr ydw i yn ei theimlo hi yn gneyd lles mawr;" ac ar hyn cododd yr hen jwg at ei safn, ac a gymerodd lwnc o hono, gan wneyd gwyneb ar ei ol fel pe buasai wedi cymeryd gwenwyn, a dywedai, "Ond peth anodd iawn i'w gymeryd ydi o, Syr—mae o mor chwerw."

"Wel," ebe ei gynghorwr diniwaid, gan feddwl wrth mor sobreiddied yr edrychai Dick fod yr hyn a ddywedai yn efengyl, "ti cymyd i fynu a fo os fo gneyd lles i ti, Tick."

Wedi i'r offeiriad fyned allan, dechreuodd ei wraig geryddu Dick am ddweyd anwiredd wrtho, ond fe roddodd y gŵr bach ddigon o reswm i hono yn union, drwy

ddweyd—"Chym'swn i mo'r byd iddo fo fy ngwel'd i yn yfed cwrw—o herwydd fe fuasai yn ddigon am fy nghôt i yn y fan! Oni slipiodd o i'r tŷ yn *sly*—fu lwc mai yn yr hen jwg yr oedd y breici yn to?"

"Ddylet tithau ddim chwareu a phrofedigaeth, Dick—cofia yr hen ddihareb, 'Nid hir y ceidw'r gŵr drwg ar ei was,'" ebe'r hen wraig; a bu Dick wedi hyn am flynydd-oedd yn *nesaf peth* i fod yn llwyr-ymataliwr.

10. *Tori bedd am "wager."*—Yr oedd gŵr boneddig o'r enw Mr. Smart wedi ei anfon ar neges ar gefn ei geffyl i Wrexham, ac ar gais y boneddwr, gan mor bwysig ydoedd y neges, fe garlamodd Dick yr anifail agos bob cam i ben ei daith! Yr oedd pwysigrwydd y neges yn gwasgu ar ei feddwl ar hyd y ffordd, ac wedi cyrhaedd i Wrexham, a'i chyflawni yn ol *orders* y gŵr boneddig, cyfrwyodd y ceffyl a chychwynodd yn ol, er fod yr *ostler* yn y gwesty yn ei dyngu na fuasai yn gadael i'r anifail gael amser i orphen ei *feed*, beth bynag am orphwyso, wedi iddo ei yru mor ddirugaredd. Yr oedd Dick yn *meddwl* carlamu yn ol i Rhuthyn, i ddangos i'r boneddwr y fath *negeseuwr buan ydoedd*; ond wrth basio mynwent oddeutu Adwy'r Clawdd, gwelai ddyn at ei haner yn y ddaear yn tori bedd—stopiodd ei farch—cylymodd ef wrth bôt lliidiart y fynwent—ac aeth at y bedd toredig i edrych syt dorwr beddau oedd y sexton yn y part hwnw o'r ddaear; a chyn bod yno yr un funud, dechreuodd fwlio y sexton yn ddirugaredd, gan ddweyd—

"Wyddoch chi beth, ddyn, dydi y twll yna ddim ffit i gladdu ci ynddo."

"Ai e," ebe hwnw, gan godi gwyn ei lygaid ato o'r bedd, "beth wyddoch chwi am dori bedd, y dyn bach?"

"Mi wn gymaint a hyn—y gallwn i, dan gau fy llygid, dori taclusach bedd na rhyw 'dwill claddu burgun' fel ene," ebe Dick.

Ac ar hyn, cododd y sexton yn gynddeiriog o'i gô o'r bedd, gan fygwth bywyd Dick os na alwai ei eiriau yn ol,

a myn'd allan o'r fynwent; ond gallodd y dyn bach gael ei sylw cyn ei daraw, ac aeth yn *fets* rhyngddynt y *torent fedd am y goreu*. Penderfynwyd i'r sexton orphen y bedd hwnw yr oedd ar ei haner, a chan fod claddu dranoeth wed'yn y c'ai Dick dori y bedd hwnw. Aeth a'r ceffyl i ystabl rhyw dŷ tafarn oedd yn ymyl, ac yno y buont dros y nos—mewn anghof hollol o amcan ei gychwyniad oddi-cartref, ac yn foreu iawn dranoeth cododd Dick ac aeth at y gwaith o dori y bedd. Ond er ei syndod, pan oedd wedi myned at ei wddf i'r ddaear, pwy ddaeth heibio ond dyn arall ar ei farch oddiwrth Mr. Smart i *edrych am dano*. Meddylodd unwaith y buasai yn gadael iddo fyned heibio, ond wed'yn meddylodd y byddai yn well iddo waeddi ar ei ol, yr hyn a wnaeth—

“Will,” ebe fe nerth asgwrn ei ben, a dim ond ei ben i'w ganfod ar wyneb y ddaear, “i b'le 'rwyd ti yn myn'd?”

“Pwy sydd yna?” ebe Will, mewn tipyn o ddychryn, gan na ddaeth i'w feddwl am y posibilrwydd i Dick fod yn gwneyd dim mewn mynwent yn y fan hono, ac yntau ar neges mor bwysig dros ei feistr!

“Y fi, debyg—beth sydd arnat ti, Will?—yn cymeryd arnat fod yn wirion yr wyt ti, yn te?—Tyr'd yma,” ebe Dick; ac erbyn hyn adnabu Will ef wrth ei lais.

“Am danat ti yr wyf fi yn edrych, Dick—gyrwyd fi o bwrpas gan Mr. Smart i edrych beth oedd wedi dyfod o honot ti—ac y mae yn ei haddo hi i ti yn ofnadsen.”

“Taw, Will,” ebe Dick, dan gosi ei ben—canys yn awr y mae yn dyfod i'w feddwl gyntaf am y *neges* bwysig yr oedd ar ganol ei chyflawni! Modd bynag, ni symudai oddiyno hyd nes enill y *fets* oddiar y sexton, a'i guro ar ei domen ei hun!

11. *Proffwydoliaeth ryfedd*.—Yr oedd Dick yn arfer cael ciniaw bob blwyddyn am ganu cloch glwb yn perthyn i westy yn y dref; ond un flwyddyn ni roddai y gwestywr ei giniaw iddo, gan ei fod wedi ei ddigio ychydig amser cyn hyny. Yr oedd yn fwy “bawaidd” gan Dick gael

ei wrthod yn gyhoeddus na phe buasai wedi ei wrthod trwy rybudd blaenorol; ac wrth fyned o'r ystafell giniaw fe drodd ar ei sawdl, ac a ddywedodd yn ddigofus wrth ŵr y tŷ—" *Gád iddo, 'rhen Ddafydd, mi rwystra i dithe gael dy ginio flwyddyn i heddyw;*"—ac er syndod i bawb glywodd y broffwydoliaeth, claddwyd y tafarnwr cyn pen nemawr o fisoedd! Ac fe ddywedir i Dick sibrwd wedi i'r Person orphen darllen y gwasanaeth claddu, wrth ei briddo—"Dysgu fo."

12. *Proffwydoliaeth arall.*—Yr oedd Dick mewn cwmpeini un nos Sadwrn yn y dref, yn cymeryd rhan mewn ymddiddan ddigon difyr, ac yn union daeth i mewn rhyw "lymangi cecrus" ebe fe, ac a ddechreuodd fygwth Dick a "lab yn ei geg os na chua fo hi." Cymerodd yr Hen Dderyn gryn lawer ganddo, gan feddwl y buasai o hono ei hun yn rhoi fynu ei dafod drwg; ond gan mai yn waethwaeth yr oedd pethau yn myn'd, dywedodd Dick wrth gefnu ar y cwmni, "Gad iddo, D——, mi rof i fy lle iti 'rwan; ond *marcia di*—mi fynaf fi roddi y rhawiad gyntaf o bridd ar dy geg di yn nghynt nac wyt ti yn meddwl," ac ymaith ag ef. Yn union wed'yn bu y truan farw, ac aeth Dick o Rhuthyn i fynwent Llanrhaidr o bwrpas ddydd ei gladdedigaeth, ac a gydiodd mewn rhaw pan oedd yr offeiriad yn dweyd "pridd i'r pridd," ac a fwriodd lidiowgrwydd ei ddialedd mewn "rhawiad o bridd" ar gyfer genau y dyn ar gauad ei arch, gan sibrwd—"Dyna ti, D——, cno nene." Er fod ganddo wyth milldir i'w cerdded ar y daith ddialeddol hon, nid oedd hyny yn ormod i Dick i'w wneyd *gyda phleser* er cyflawni ei broffwydoliaeth.

13. *Myn'd i gladdu dyn yn fyw.*—Un tro yr oedd Dick a'i gyfaill Hughes wedi cael *job* i lanhau mynwent Llanfair ar ol rhyw adgyweiriadau ar yr eglwys. Yr oedd Hughes y diwrnod hwnw mewn tymer go ddrwg—ac yn wir yr oedd yn anhawdd cael y brawd doniol heb fod felly o ran hyny—ond, beth bynag, daeth rhyw foneddigesau

i'r fynwent i chwilio am le beddrod rhyw deulu, ac wrth eu gweled yn rhai lled ddieithr, a bod *chance* yn ymyl i gael rhyw chwechyn—aeth Dick oddiwrth ei waith ac a gynygiodd ei hyfforddiant i'r boneddigesau; a thra yr oedd yn nodi y llecyn bedd iddynt, ac yn esbonio cynwysiad y bedd, &c., dyna ei gyfaill yn gwaeddi arno dros y fynwent, "Dick, p'am na ddoi di at dy waith, dywed? yn lle colli dy amser efo rhyw styrmantie fel ene." Yr oedd Dick ar y pryd *just* a chael ei "chwechyn" fel y tybiai, ond rhoddodd gwaedd ei gyfaill *stop* ar y cyfan, er enyn digofaint echrslon yn mynwes Dick; ac ar ei ddynesiad at Hughes fe ddywedodd wrtho, "Gad iddo, Bobsyn, mi ro'i bridd yn dy lygid di am hyna eto." Yn mhen ychydig funudau daeth rhyw ddyn i'r fynwent, a than gellwair mewn rhyw ysgyffl, cwmpodd Hughes drach ei gefn ar fin careg fedd gerllaw, nes oedd mewn llesmair ar y codwm! Aeth y sŷ drwy y pentref ei fod wedi marw; ond wedi lluchio dwfr oer ar ei wyneb, daeth ato ei hun, er galar mawr i Dick, oherwydd yr oedd eisioes wedi dechreu tori bedd i'w luchio iddo fel yr oedd, heb na chwest na dadl ar ei fater!

14. *Myned â'r Arch adre*.—Yr oedd Dick, ryw noson oleu-leuad, wedi myned dipyn yn mhell i'r nos, yn myn'd ag arch dros yr arch-wneuthurwr i Graigfechan, pentref ryw bedair milldir o'r dref; a phan ydoedd yn gorphwyso a'i bwys ar fraich y ferfa ar riw mewn coed y naill du i Garthgynan, daeth rhyw ddyn o fewn ychydig latheni i'w gyfarfod, ond mor gynted ag y tynwyd ei sylw at yr arch ar y ferfa, a rhyw greadur, na wyddai yn y byd mawr beth ydoedd, o tani, fe ddychrynodd drwy'i galon—codai ei wallt yn ei syth-sefyll ar ei ben—rhedai ei waed seith-waith gyflymach nag arferol, ac rywfodd nis gallai fyned yn ol nac yn mlaen, ond safai fel colofn, gan syldremu ar Dick, a'r gŵr bach yn gadael iddo heb ddweyd gair o'i ben, nac ysgwyd na bys na bawd! O'r diwedd rhoddodd y truan naid fyrbwyll, gan redeg yn ei ol; ond wedi

myned rhyw haner can llath, yna safodd, a chan gredu y *rhaid fod yna rywun gyda'r arch*, ac mai nid drychiolaeth ydoedd, casglodd *courage* ac aeth yn ol. Dynesai at yr arch eilwaith gyda rhyw bryder dychrynlyd, ac erbyn hyn yr oedd Dick wedi paratoi ar ei gyfer drwy fyned i'w grwewd rywfodd rhwng breichiau y ferfa, a dal ei het ar ben ei ffon uwch ei phen;—sylldremai y dyn eilwaith, ac am nad allai wneud allan fod yno neb byw, ac mai drychiolaeth ofnadwy ydoedd, fe'i gwadnodd hi yn ei ol yn nghynt na chynted ag y gallai am filltiroedd lawer! Ac yn waeth na'r cwbl, yr oedd mewn ofnau parhaus am hir amser wedi hyny, mai rhagfynegi ei farwolaeth ef ei hun oedd y weledigaeth ryfedd!

15. *Gair yn ei amser.*—Yr oedd swp o foneddigion unwaith yn sefyll i ymgomio ar yr heol yn Rhuthyn, ac wrth weled Dick yn myned heibio, galwodd un o honynt ef atynt, gan feddwl cael dipyn o ddifyrwch gydag ef; ac wedi ei godi i hwyl dweyd stori, dechreuodd Dick ysgwyd ei law, yr hon yn wastad a gynorthwyai ei dafod i ddweyd stori. “Dick,” ebe un meddyg oedd yn y cwmni, “i beth yr wyt ti yn ysgwyd dy freichiau wrth siarad?—wydest ti mai *diffyg iaith* sydd yn peri i ddyn ysgwyd ei freichiau wrth lefaru?” “Ie siwr,” ebe gŵr boneddig oedd yn y cwmni, i “hysio y ci dros y cae” yn ol ei feddwl ef. “O, *ydech chi* yn deyd hyny, Syr?” ebe Dick. “Ydw siwr,” ebe'r boneddwr eilwaith. “O! wel—dyna oedd y rheswm debcini i chi roi y *white choker* i fynu,” ebe Dick, er difyrwch mawr (canys yr oedd y boneddwr wedi ei ddwyn i fynu i'r eglwys), ac yr oedd yn gâs iawn ganddo glywed neb yn son dim am ei swydd offeiriadol; ond fe roddodd ei waith yn ymyraeth y tro hwn fantais i Dick ei gyrhaedd yn bur effeithiol.

16. *Sut mae'r "trade?"*—Byddai un meddyg yn arferol bob amser y cyfarfyddai â Dick i ofyn iddo yn hynod o bwysleisiol, “Wel, Dick, sut y mae y *trade* 'rwan?” i'r hyn yr atebai y gŵr bach bron yn ddiethriad, “Ryw

symol, yn wir, Dr. —, *sut y mae hi efo chwi?*” fel pe buasai yn awyddus iawn i gael gwybod gan y meddyg pwy oedd ar y pryd yn debyg o fod yn myned nesaf. Weithiau byddai y meddyg yn dweyd fod amser gwell yn ymyl—fod llawer ar y *ding-dong* rhwng y ddeufyd hyd y wlad; a dywedai Dick mewn gradd o orfoledd ar ol hyn, “Wel diolch byth, Dr., am lygedyn o obaith fod yr achos goreu i lwyddo.”

17. *Brawychu Ceidwad y Carchar.*—Y mae Ceidwad presenol carchar Rhuthyn yn ddyn dros chwe' throedfedd o daldra, ac heblaw hyny yn gyfatebol mewn *mawredd* corphorol. Y mae fel pe bai yn *double-jointed giant*, a barnu oddiwrth yr olwg allanol arno. Aeth Dick ato un dydd, ac a ddechreuodd ddweyd wrtho “iddo gladdu *saith* o Geidwaid o'r carchar yr oedd ef yn geidwad arno yn awr;” a chan gymeryd *stock* fanwl o'i babell yntau o'i goryn hyd ei sawdl, fel pe buasai yn awgrymu, ebe y Ceidwad, “*I should have to remove a good deal of mother earth to make room for you.*” O'r diwedd fe frawychodd y Ceidwad, ac yn ei eiriau ei hun—“*At last I told him not to repeat the list any more, as I felt rather uncomfortable on hearing such 'grave' subjects repeated to me so very pointedly.*” “*At this,*” ebai drachefn, “*he only smiled, and gave me another of his peculiar glances—his curious 'mug' having the very appearance of the scull of a churchyard skeleton!*”

18. “*A oes yma 'step' Syr?*”—Ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, yr oedd masnachwr wedi dyfod i fyw i Rhuthyn o'r hwn yr oedd Dick yn bur adnabyddus flynyddoedd yn ol. Un diwrnod, pwy ddaeth at y tŷ ond efe, a phwy ddaeth i'w gyfarfod at y drws ond y masnachwr. Wedi ymddyddan ychydig, fe ddywedodd Dick, “Ddoes i yma i edrych oes yma 'run *step* erbyn y byddwn ni yn dwad yma i'ch 'nol chi, Syr,—oherwydd weles i wrth fyn'd i le dyarth gael *cam-gwag* wrth ddwad â'r corph allan.” “Wyt ti yn deisyfu f'oes i, Dick?” ebe'r masnachwr yn

bur sobr. “Nac ydw i, Syr, ond 'does dim byd gwell na bod *on the safe side* bob amser,” ac ymaith ag ef, wedi cael ei foddioni ar y fynedfa i'r tŷ.

19.—*Cytunwch â'ch gilydd.*—Byddai Dick yn ofalus iawn i gloi y fynwent pan fyddai yn ei gadael bob amser; ac ambell i waith byddai Evans y cerfiwr yn tori ar gareg fedd ar unwaith ag ef. Elai Dick ato yn mrig yr hwyr, gan ofyn iddo, “Wyt ti yn barod i ddyfod oddiyma, dywed?” “Ydwyf,” ebe hwnw, “mi ddo'i oddiyma 'rwan, Dick.” “Da iawn,” ebe Dick, canys yr oedd yn hoffi yn fawr gael cloi y fynwent ei hun, ac wrth gloi byddai yn dweyd bob amser, wrth adael ei garcharorion, “'Rwan 'rydw i yn eich gadael chi,—*cofiwch chi gytuno â'ch gilydd nes y dôf i yma etc.* Os na ddaw rywbeth mwy nag a wn i 'rwan, fydda i yma yn y boreu.”

20. *Ledio dyn i'r fynwent.*—Yr oedd Dick wedi cael ymrafael â'r hen Gwper y crybwyllwyd ei enw o'r blaen, ac yn yr ymrafael hwnw fe ddywedodd Dick wrtho, “Gad iddo, mi dy ledia i di drwy'r Lôn Goch eto am hyn.” Yr oedd y fynwent lle 'roedd claddfa teulu y Cwper yn Llanrhydd, at yr hon yr oedd yn rhaid myned ar hyd ffordd elwir y “Lôn Goch;” ac yn nghyflawnder yr amser cymerwyd y Cwper yn glaf, ac fe ddeisyfodd cyn marw iddo gael ei gladdu yn mynwent y dref, fel nas gallai yr “*Hen Dderyn*” gael ei ledio drwy'r Lôn Goch! Ond yr oedd Dick i fynu â'r amgylchiad y tro hwn eto, oherwydd pan oedd ei gorph yn cael ei gludo o'r eglwys tua'r bedd ddydd ei gladdedigaeth, fe lediodd Dick y cynhebrwng gan ddywedyd, “Tyd o'na, mi dy ledia i di fel y deudes i eto, 'rhen goes.”

21. *Angeu ddim yn ymladd yn deg.*—Yn ei ddyddiau olaf, galwodd Dick i edrych am ei hen gyfaill Gwanwyn Evans, yn yr efail, ac a ddechreuodd ddweyd wrtho ei fod yn teimlo yn bur llesg, ac fod angeu yn ymladd yn “bur anheg y tro yma.” “Sut hyny?” ebe'r Nailor. “Wel, 'fum i mewn llawer batel â'r hen angeu erioed, ac

fe fyddwn i yn ei guro bob amser; ond y mae y lleidr yn ymladd yn fwy annheg y tro yma, can's mae o yn dwad fel llwfryn yn y nos, ac yn fy mhoeni a'm curo pan fydda i yn cysgu. Felly 'does gin i ddim help rywfodd i watchio ei *movements* o, ac mae gin i ofn weithie y bydd raid i mi roi'r goreu iddo fo *just yn union*”—ac felly fu.

Fel yna gallem nodi mil a mwy o ryw *strokes* cyffelyb o hynodion bywyd Dick Nancy—chynwysai cyfrol gymaint a Beibl Peter Williams mo'r oll; ond dengys hynyna *cast* ei nodweddion. Ond rhoddwn eto ychydig o'i *hobbies*, gan ei fod, fel pob dyn arall, yn meddu arnynt, y rhai a ddangosant yn fanylach ei wir nodwedd.

HOB I NO. I.

Yr oedd yn hynod o lanwedd ei waith, a mawr ei ofal o'r beddau. Erbyn y Sul cyntaf ar ol y claddedigaeth, byddai wedi ail-wyngalchu y bedd, yr hwn fyddai wedi ei wneyd ar lun arch, a gosod blodeu y celyn yn rhes ddwbl efo ymyl y bedd *all round*, ac yn llinell unionsyth o'r pen i'r traed ar y wyneb, ac wedyn ar draws o benelin i benelin. Ar y groes gweithiai lun calon, ac yn hono lyth'renau enw yr ymadawedig, ac o tanodd ffigyrau ei oedran. A phan fyddai y bedd yn eiddo rhywun go bwysig, ychwanegai at hyny bwnech o frigau yr yw, wedi ei docio yn mhob cornel, yn nghyda'r ddau ystlys, a *border* o flaenion yr yw a blodau wedi ei weithio yn gelfydd. Mewn gwirionedd yr oedd yn dlws, ac yn dangos *talent* na welais mo'i chyffelyb mewn un fynwent yn Nghymru. Yr oedd yr *art* o drwsio bedd yn *hobby* ganddo, a mwy nag unwaith yr archwyd arno drwsio llun bedd a'i anfon ar gais boneddigion yn *specimen* o'i waith i Loegr!

HOB I NO. II.

Gan mai efe oedd sexton y Llan yn amser yr hen Warden, yr oedd gofal “heddwch y cysegr” arno ef, ac y mae yn gofus genyf mai un o ddifyrion penaf fy maboed oedd

uno â haner dwsin o ddyhirod chwareus i *brovocio* y dyn bach pan y byddai y gwasanaeth yn yr eglwys, drwy "chwareu crown" ar feddfaen nodedig at y gorchwyl hwnw yn nhalcen y clochdy; ac yn mhoethder y *game*, byddem yn cadw mwy o sŵn nag a fyddai yn boddio clust yr *hedd*geidwad eglwysig oddifewn, ac nid cynt nag y clywai y byddai ef a Rover allan fel siots ar flaenau eu traed—elai un y naill ochr i'r eglwys, ac a'i y llall *round* i'w gyfarfod, er mwyn clirio y fynwent ar un ergyd megys; ac nid cynt nag y gwelem ninau *snout* Rover neu'r Hen Dderyn, yr oeddym yn codi fel haid o betris, ac allan trwy'r drws mawr fel bwlets i'r heol! Yn mhen enyd, deuai y dyn bach ag a safai ar gymaint o dir a Nebuchod-onosor, brenin Babilon, ar ben drws y *porch*, a Rover yntau a eisteddai mor dorsyth â chi wedi ei stwffio, yn ei ochr. Wedi rhoio yn eu cyrn a'n bygwth trwy ysgydwad pen, dechreuai tafod Dick ysgwyd, ac yn canlyn bob amser cawsen y bregeth wllithog yma:—

"Oes arnoch chi ddim cwilydd, *ddevils* (hyny yw, o'i gyfieithu, ddiawliaid), yn styrbio y Person fel hyn? rhyfedd na chaech chi'ch trawo fel Nananias ystaiwm." Ac fel clo ar y bregeth bob amser udai Rover "*bow wow*" nerth asgwrn ei ben. Yna elent yn ol i'r deml, a phen Dick yn para i ysgwyd fel pe buasai ar *hinges*.

Yr oedd ei aiddgarwch dros "*heddwch Jerusalem*" yn angerddol; ac ystyriai y gwaith o choeo baco, neu'n wir sychu trwyn, yn yr eglwys ar ddydd yr Arglwydd yn bechod anfaddeuol. Cofiwyf ddarllen yr englynion pert hyny a wnaeth y bardd dysgedig ac awenyddol T. ap Gwilym i'r "*Llygoden Eglwys*" a welodd yn chwareu ar fwrdd cymun yr eglwys oedd dan ofal y dyn bach iddo rhyw dro, ond gan ei fod yn meddu parch at hono fel pe buasai ryw angyles warcheidiol i'r hen eglwys—ddim ond o'r braidd y diengais rhag y fonclust yr oedd ef mor nodedig am dani! Er mwyn y darllenydd, rhoddwn yr englynion yn y fan yma:—

Gwel lygoden uwchben y bwrdd—santaidd!

Y mae'n hyfaidd mewn urdd!
Ni mad er offeiriad i ffordd,
Myn olrhain, hoff arwain ei ffordd.

Yn nwyfus tua'r nefoedd—orhyglod

'Nhý 'r Arglwydd y lluoedd,
Yw llygod yn gwybod yn goedd
Y gweddynt addoli 'n gyhoedd?

Be argeisia? 'r bara gosod—y dorth

I'w dwyn? O! erchyllod!
Cethin na fyddai cathod
Yn nhý Dduw yn byw a bod.

Am wyddom dyna meddwl—dirinwedd

Y ladrones benbwl,
Cael y dorth, ac hilio 'i dwl
Hyll gaban â'r holl gwbwl.

Os try eilwaith at gostrelau—y gwin,

Mewn gwange hon yn ddiau
Y geg hir fyn eu gwaghau
'N warthus ar ol y torthau!

Y foru 'i phrawf a'i herys—y diried,

Am dori yr eglwys,
A gwneud gwledd, mewn bedd o bwys,
Ar gyrff y rhai sy'n gorphwys.

Mawr yw'i braint mewn lle mor brin—a'r eglwys,

Arogli gwledd ddibrin;
Bore ac hwyr bara a gwin!
Llawn mil gwell lle na melin.

Y pasg y bydd yn pesgi 'i bol—yn frâs

Ar friwsion cymunol!
Os gad yr offeiriad mor ffol,
Gwn y modda 'n gwin meddwol.

I'w thwll yn ol aeth oll yn iach—hi fydd

Yn rhyfeddu bellach
Y mwyn beth yw Cymun bach,—
Ni welodd Sul anwylach.

Person na chlochydd heb arswyd - teryll
 Ni anturiant fywyd,
 Yno 'i ladd llygoden lwyd,
 Am unwaith a gymunwyd.

I drap y daw 'n drwp i'w diwedd—un dydd
 Ar ben y dorth santaidd ;
 Ieuan, er yn wan o wedd,
 Yno 'i deil mewn dialedd.

Bol ei gath, neu reibiawl gi—fydd ei bedd,
 Na faidd byth ail-godi :
 A thrwy hyn fyth ni thyr hi
 Gu lysoedd ein heglwysi.

HOBÍ NO. III.

Yr oedd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn ysmociwr heb ei fath. Pan fyddai tros ei ben a'i glustiau yn tori bedd, byddai yn wastad â phwt o getyn du yn ei geg yn ysmocio, chwedl ynte, "nes byddai y ddaear yn mygu." Cofiwyf fod gydag ef unwaith pan yn tori bedd i wrth-ysmociwr nodedig, ac mor nodedig a hyny am ei anwybodaeth. Daeth y gŵr hwnw at y bedd, ac wrth weled Dick yn y ddaear a'i getyn yn ei geg, pen yr hwn oedd yn *level* â blaen ei drwyn, fel arfer, dechreuodd geryddu y dyn bach am fyn'd mor fwystflaidd ag ysmocio. Ond wedi iddo orphen, dechreuodd Dick ymddadlu ág ef, gan ddywedyd yn wawdus mai ei anwybodaeth o'r Ysgrythyrau oedd yn peri iddo siarad felly am y "fendith o smocio." "Wel," ebe y dyn yn lled boeth ei natur, "nodwch, Richard Jones, un engraifft o'r Ysgrythyr yn cymeradwyo ysmocio." "Y dyn," ebe Dick, "dyna chwi yn dangos eich anwybodaeth,—y mae lliaws o honynt—ac yn mhellach na hyny, dyna yr hen emynydd Cymreig wedi dweyd yn felus iawn yn yr hen hymn hono :—

"Mygyn o'r cetyn cwta
 Wna un oes yn ddwy oes dda,"

gan roddi gryn bwyslais ar y llinell olaf. I hyn nid atebodd y gwrth-ysmociwr un gair, ond edrychai fel pe wedi

ei daro i lawr â phroffion ysgrythyrol Richard Jones! Dadleuai ar ochr baco mor hyawdl a Gough ar ddirwest, ac yr oedd yn ddigon o *wag* i allu lladd yr anwybodus â thwyll-resymeg. Yr oedd ei getyn yn ei geg yn feunyddiol, a thyngai ei gyfaill y Gwanwyn rhyw dro, “ei fod wedi ei eni â'i getyn yn ei geg,” ond clywais Dick yn dweyd yn ddifrifol gellweirus, “ei fod yn meddwl mai anwiredd oedd hyny!”

HOBI NO. IV.

Yr oedd Dick yn hynod o fanwl yn ei feirniadaeth ar grefyddwyr. Wrth gwrs, Eglwyswr hen ffasiwn ydoedd, heb ond ychydig o gydymdeimlad â defodau ac arferion yr Annglydffurfwyr. Nid oedd yn credu yn y “weddi o'r frest” chwedl yntau. Pan y gwelai rhywun yn cau ei lygaid, ac yn gweddio felly, dywedai, “Beth sydd ar yr haner-pan—pam na chym o *Common Prayer* a gweddio fel dyn arall?” ac mor selog oedd ef bum' mlynedd ar hugain yn ol dros y ffurf-weddi, fel pan syrthiodd y ddaear ar ei gefn wrth dori bedd, iddo ddychrynu am ei fywyd, a thori allan i lefain, “Arglwydd, trugarha wrthym, a gostwng ein calonau i gadw y gyfraith hon!” Aeth i gapel rhyw dro i gyfarfod diolchgarwch am y cynhauaf, ac yr oedd un o'r gweddiwyr yn canu mwy nag oedd yn suitio *diet* y dyn bach, ac fel yr oedd yn clywed “y genau cyhoeddus” yn twymo yn ei fater, methodd a dal heb drwblo y rhai a eisteddent yn ei ymyl â'r feirniadaeth ganlynol—“Pe bai hwna yn myn'd at Squire y Plas i ofyn cymwynas dan ganu fel ene, fe fuasai yr hen foy yn ei dyngu yn braf, ac yn ei droi ymaith â'r *bull-dog* ar ei ol.” Ond efe a wnaeth fwy â'r Ymneillduwyr o hyny hyd ei ddiwedd, a gwelais ef yn colli dagrau wrth wrando anerchiad gweinidog uwchben bedd cyfaill mewn mynwent capel ychydig amser yn ol.

HOBI NO. V.

Ei hobi lenyddol ydoedd *hen hanesion*, ac yr oedd rheiny yn fwyd ac yn ddiod i'w ysbryd, os buasent o nodwedd Gymreig. Ni flinai efe byth ar sôn am wrhydri yr hen Gymry; ac nid oedd dim a'i boddlonai yn well na chael y cyfryw yn dameidiau byrion "hawdd eu cofio" chwedl yntau. "*Merch ifanc yn spoelio'i phrydferthwch â balchder*" y galwai ef ystori gwmpasog—fod ei gwisgiad chwyddog yn tafu diflasdod drosti oll; ac am ddim a wn i nad oedd llawer o athroniaeth yn yr hyn a ddywedai. Pan fyddai mewn teimpladau da (a phryd na fyddai efe felly?) fe fyddai yn siwr o ofyn am dani "yn fyr ac yn felus," a gallesid ei gadw am ddiwrnod cyfan uwchben tameidiau fel a ganlyn:—

YSTYRIWCH Y BRAIN.

Yn yr Ysgol Sul, unwaith, yr oedd hen labrwr ag oedd wedi dyfod at grefydd yn ei henaint, ac er hyny ystyriai ei hun yn esponiwr o'i ysgwydd i fynu yn uwch na neb yn yr ysgol. Un Sabboth, yr oedd y dosbarth yn darllen yn Luc, a daeth i ran Evan Evans i ddarllen yr adnod sydd yn dechreu—"Ystyriwch y brain, nid ydynt yn hau nac yn medi, &c." Ar ol iddo ddarllen y mae yr athraw yn gofyn iddo, "Beth ydych chi'n feddwl o'r frawddeg gyntaf yn yr adnod, Evan Evans?" "Pw, mae hwna yn gwestiwn rhy *simple* (ebe yntau)—gall y plentyn lleiaf yn yr ysgol ateb hwnyna." "Ie," ebe'r athraw, "ond chwi wyddoch mai'n harferiad ni yn y dosbarth yma ydyw i bob un *ddweyd ei farn*, ac nid bob amser yr ydym ni i gyd yn cydolygu, chwi wyddoch; felly, os gwelwch chi'n dda, Evan Evans, dywedwch beth ydych yn ei feddwl yw ystyr y frawddeg gyntaf yn yr adnod, er mwyn i ni fyned yn mlaen yn rheolaidd." "Wel," ebe Evan Evans yn hynod o hunan-ddigonol, "welsoch chi ffarmwr yn hau ei gau o wenith neu ryw rawn arall, a thranoeth, ar ol brecwast, y mae yn galw yr hogyn sydd ganddo am ei

fwyd, ac yn dweyd wrtho, 'Johnny, 'machgen i, wyddost ti'r cae oeddem ni yn ei hau ddoe? Mae gen i eisio i ti gymeryd y *clepper* yma, a myned yno heddyw, a phan weli di haid o frain yn disgyn ar y cae i fwyta'r hadau, STYRIA nhw oddiyno'—'styriwch y brain,' mae hwna yn ddigon plaen i bawb ei weled, ac yn esbonio ei hun," ebe Evan Evans, mor sobred ag y bu Mathew Henry erioed yn ceisio esponio adnod, er difyrwch nid bychan i'r dos-barth.

GOLEU'R GANWYLL YN LLYGAD Y GATH.

Yr oedd hen fraddug unwaith wedi dyfod adref o'r dafarn gryn amser wedi i'r wraig a'r plant fyned i orphwyso, a chan fod y tân wedi myned yn mron allan o'r grât pan y gwnaeth ei ymddangosiad ar yr aelwyd, ymbalfalodd am y ganwyllbren ar y bwrdd i'w goleu mewn rhyw lygedyn, yn ol ei dyb ef, oedd yn aros yn ngwaelod y grât;—estynodd y ganwyll ato, ond beth oedd ond llygad y gath, yr hon a eisteddai ar ochr y *fender* yn gwylio y llygod; ac ar ei ddynesiad ati poerodd y gath i'w ddanedd yn ei dychryn, a gwaeddai yntau yn ddigofus ar ei wraig, "Mari, y *jâd* ddrwg, i be roist ti bowdr yn y tân i drio fy lladd i?" gan dybio mai ffrwydriad pylor oedd pytisiad cath! Y fath ynyfydion y mae y ddiod feddwol yn ei wneyd o'i charedigion!

TORWYR CYHOEDDIADAU.

Yr oedd gweinidog lled boblogaidd wedi rhoddi ei gyhoeddiad mewn capel yn y wlad yn ddiweddar, ond gan iddo gael galwad i le arall y Sabboth hwnw, a fuasai yn talu yn well iddo, fe dynodd ei gyhoeddiad yn ol o'r lle *gwan*, dan yr esgus ei fod yn analluog, drwy gynghor meddyg, i efengylu y Sabboth hwnw; ac felly, wrth gwrs, fe gafodd ei esgusodi gan yr eglwys wân, a'u gweddi gydag ef yn moddion y Sabbath. Ond er eu syndod, daeth i glustiau y cyfeillion yn y lle hwnw fod y gwein-

idog yn pregethu yn ei afaeth mewn lle arall y Sul hwnw, ac nad oedd yr esgusawd ond lluchio llwch i lygaid yr eglwys wân! Wrth i rai o'r cyfeillion gwynaw wrth y Diacon am ymddygiad y torwr cyhoeddiad, dechreuodd hwnw ei amddiffyn trwy ddweyd "'Doedd o yn meddwl dim drwg—yr oen sydd yn nghymeriad Mr. —, ac nid y *sarph*;" ond atebai brawd arall, "Nage wir, yr oedd *dweyd celwydd* fel yna yn galw am gerydd cyhoeddus, ac yn nodweddu y *sarph* yn fwy na'r oen; a pheth arall,—y weithred gyntaf a wnaeth y *sarph* erioed oedd *twyllo*."—Cymered torwyr cyhoeddiadau ofal, y mae yr eglwysi yn gwylio eu symudiadau o gyfeiriad newydd.

ADNOD I BROFI.

Yr oedd yna hen fachgen yn Nantglyn dro yn ol na wnai o ddim yn y byd mawr heb fod ganddo adnod i brofi pobpeth; ac un diwrnod, pan oedd ei fam yn ceisio ganddo droi y ci allan, yn lle ei fod yn gorwedd ar ei ffordd tra yn hwylio brecwest y teulu, ar adeg cynhauaf, gofynodd Robin yn bwysig iawn, "Lle mae'ch adnod chwi, mam?" "Dyna hi," ebe'r hen wraig, "'Oddiallan mae'r cŵn,'" ac yn y funud dyna i'r hen gi hergwd â'r procer nad oedd o yn rybedio drwy'r drws i ganol y buarth!

TWM O'R NANT A'R TATWS.

Gofynodd rhyw ddyn rhywdro i'r hen fardd fraethbert o'r Nant, pan oedd yn croesi cae tatws ar ei ffordd i ffair Ddinbych, "Thomas Edwards, sut mae y tatws yn codi yn eich gwlad chwi acw?" "Yn llon'd eu crwyn," ebe Twm; ac yn mlaen âg ef, gan adael y codwr tatws i guoi ei gil ar yr asgwrn a gafodd. Ar yr un cae, pan oedd yr hen fardd yn dychwelyd o'r ffair, gofynodd dyn arall oedd yn codi tatws ar bwys y llwybr iddo, "Fuoeh chwi yn y ffair, Thomas Edwards?" "Do siwr," ebe yntau. "Wel ni ga i wybod genych chwi beth oedde nhw yn roi am y tatws heddyw, Thomas Edwards?" "Cewch siwr," ebe yntau,—"*sache*," ac ymlaen âg ef mor ddifrifol a phe buasai yn dweyd ei bader.

HUDOLIAETHAU'R FELIN.

Byddai L. Glyn Dyfi yn arfer dweyd hanes rhyw hen ŵr boneddig o fardd oedd yn byw mewn plasdŷ rhwng Machynlleth ag Aberystwyth o'r enw y Maerdŷ, i'r hwn yr ydoedd mab oedd yn ddiarebol am ei faintioli anferth. Allwn i feddwl wrth yr hanes fod y mebyn hwn yn dewach arall na'r enwog Roger Tichborne, ac yr oedd yn enwog trwy'r fro am ddau beth yn neillduol, hyny yw—peidio gweithio, a myn'd i'r felin gerllaw i chwedleua gyda rhyw felinydd ceg-agored oedd yno y pryd hyny a elwid “Yr hirflew.” Un boreu rhewllyd yn y gauaf, pan oedd yr eira yn gwasgodi y ddaear, daeth cymydog at y tŷ i ofyn am weled y mab, a phwy ddaeth at y drws ond ei dad, ac mewn atebiad i'r cwestiwn, “A ydyw y mab i mewn, Syr?” atebai yr hen fardd yn chwerthingar—

“I'r felin at yr Hirflew—yr aeth,
I rythu 'n y llwydrew;
Yr hen gath, mae fel pathew,
O'r Maerdy â—er mor dew!”

EISTEDDFOD YSGUBOR FLEWOG.

Un prydnewn hyfryd yn mis mai, tra yr oedd pedwar o feirdd Llanfyllin wedi myned yn ol eu harfer yn mis-oedd yr haf i ymbleseru hyd benau'r bryniau oddeutu, oddiar ba rai y mae amrywiaeth o'r golygfeydd mwyaf swynol i'w cael ag a geir yn unman yn y byd mawr. Wedi rhodiana cryn lawer, penderfynwyd eistedd i lawr ar dwmpath mwsoglyd ar ben bryn uchel, a elwid Bryn'r Ysgubor Flewog, yr hwn a saif yn ymerodrol uwchben y dyffryn bychan, ond anfeidrol brydfferth, a ffurfia enw yr anfarwol fardd GWALLTER MECHAIN. Wedi i'r frawdoliaeth ddiddanol eistedd i lawr, ac i bob un o honynt danio ei getyn, a dechreu addoli yr olygfa baradwysaidd ymledai ger eu bron, disgynodd y Gwew rhwng cangau pren onen yn eu hymyl, ac a ddechreuodd eu syfrdanu â'i meluslais gogleisiol. Wedi canu ei gwynt allan yn y fan hono,

cymerodd ei hadn eilwaith, ac a sefydlodd ar bren arall gerllaw, lle y ffrydlifai o'i mân anwyl y ffrwd mwyaf swynol o beroriaeth a lifodd i glust dyn erioed. Yn bur naturiol, enynodd yr awen yn mynwes pob un a eisteddai yn yr Eisteddfod ragluniaethol hon megis ar fryn Parnassus, a phenderfynwyd yn y fan i bob un gyfansoddi penill i'r Gôg cyn codi oddiar y ddaear, ar y mesur, "Braint, braint," &c. Yn gyntaf oll, ac yn hynod o fuan, cododd *Behemwth Myllin* ar ei draed ac a ddywedodd—

Wel, wel,
 Fe ddaeth y Gôg a'i hadlais ffel
 I loni'n bro, ymwelydd dèl—
 Mae 'i "chw-cw" fel rhyw felus gloch
 Yn dweyd o uchder nefoedd Duw
 Wrth bawb sy'n fyw —*yn ddedwydd b'och!*

Yn nesaf ato, ac yn ei gwt yn union, cododd y *Cofnodydd*, ac a gyflwynodd ger eu bron ei benill yntau :—

Iach, iach,
 Yw oslef fwyn y Gwew fach
 'Does dim sy'n dotio'r farddol âch,
 Nac yn anwylach mewn un oes—
 Mae'r Gwew fel angyles brâf,
 Fe gân mewn hâf ar hyd ei hoes!

A chyn i'r ail orphen ei benill, yr oedd Ab Llywarch yn barod, ac fel pe buasai bron ymholli o eisiau cael dweyd penill a fuasai yn rhoddi y cyfan yn y cysgod, nid yn unig yn yr eisteddfod hon, ond a gyfansoddwyd gan brif feirdd yr oesoedd o ddechreuad amser ar y testun hwn, a dyma fo :—

"Cw-Cw,"
 I'r adar mân mi gym'raf lw
 Fod swyn ei llais 'n eu dotio nhw,
 Ac mae'i "Chw-cw" 'n treiddio i'm bron,
 'Does neb o Gymru i'r wlad Hindoo
 A dd'wed "cw-cw" mor fwyn â hon!

“ Da iawn,” ebe pawb, ac wele *Ioan Rhosfawr* yntau yn dechreu cosi ei ben, yr hyn oedd yr arwydd arferol fod yr awyr yn clirio yn ngwlad ei feddwl, ac wedi gweled ei ffordd yn glir i ddiwedd ei benill, dyma fo allan:—

Swyn, swyn,
Hudolus gân y Gwew fwyn
A dreiddia i dewi gôr y llwyn,
Yr oedd yn dwyn fy mryd yn awr—
Y wlêdd ro'dd imi'n awr ar g'oedd
Oedd nefoedd fechan ar y llawr.

Ac wedi i'r beirdd longyfarch y naill a'r llall ar eu llwyddiant anrhaethol, yn eisteddfod yr Ysgubor Flewog, ymwasgarasant a mwg eu harogldarth i'w canlyn yn ysbryd y penill—

“ Cân di benill fwyn i'th nain
Fe gân dy nain i tithau.”

YN Y TREN.

Mae'n ddifyr iawn bod yn y trên
Ar ddiwrnod teg, a phawb yn glên,
O fel maent yn ymgomio!
Mae un a'i drwyn wrth drwyn y llall
Yn traethu am rhyw dda neu wall
Y gwyddant hwy am dano.

Tra yn eu hymyl mae rhyw lafn
A phwt o getyn yn ei safn
Yn mygu'n anghyffredin!
Ac wrth ei ochr ferch neu ddwy
Yn siarad cymaint os nad mwy
Na deunaw yn y dwsin!

Mae tri neu bedwar yn 'fan draw,
Ac un a photel yn ei law
Yn llawn o'r poethaf frandy—
Sisialant fel tylwythion tég,
A'r botel aiff o gég i gég
Hyd na bo defnyn ynddi!

Yn awr mae rhyw foneddwr mwyn
 A'i gadach gwŷn yn sychu 'i drwyn,
 Nes crynu 'r cerbyd dano!
 Tra 'r llall yn edrych ar ei *watch*,
 Rhydd arall yn ei hopran batch
 O rywbeth fel *tobacco*!

Mae un yn ddiwyd ddarllen "*trash*,"
 A'r llall yn chwareu â'i fwstas,
 Ac arall sydd yn cysgu;
 Ond ha! Beth ydyw 'r cyffro 'nawr,
 Yr orsaf yw—rhaid myn'd i lawr—
 Ac y mae pawb yn chwalu!!

DADL YR IAITH GYMRAEG A'I PHLANT.

Cyfarfyddodd yr Iaith Gymraeg a'i dau fab DE a GOGLEDD un diwrnod mewn ystafell eang, ac fe ddaliodd ar y cyfleusdra i ddweyd ychydig o'i meddwl wrthynt o barthed i'w hymddygiad tuag ati yn ei henaint, a rhedai yr ymddyddan rywbeth yn debyg i hyn:—

Yr Hen Iaith.—Fy anwyl ddau fab, y mae yn dda genyf gael y cyfleusdra hwn i arllwys ychydig o'm meddwl wrthyich. Bu'm yn hiraethu lawer gwaith am y fraint hon, ac yn awr, tra y mae yn rhagluniaethol iawn wedi disgyn i'm meddiant, mi fentraf ollwng fy mynwes wrthyich, gan obeithio y maddeuwch i mi, os gwelwch fy mod wedi y cwbl yn cyfeiliorni. Yr wyf wedi cael lle i ofni eich bod chwi, De a Gogledd, wrth fy ngweled wedi rhedeg dipyn yn hen mewn dyddiau, yn fy esgeuluso, ac yn euog o ymddwyn tuag-ataf dipyn yn ddiystyrlyd. Mae yn wir fod rhai o'm cyfneseifiaid yn eu penboethni, yn dweyd fy mod yn hen iawn—ac mai y Gymraeg a siaredid gan ein rhieni cyntaf yn Eden, ac mai Adda Jones oedd enw yr hen ŵr, ac felly yn y blaen; ond yr wyf fi am fod yn ddistaw ar y pen hwn, gan ewyllysio yn hytrach ddewis dull hen ferched ein gwlad, y rhai a wadant eu hoedran, am nad yw hyny o ddim pwys. Ond y mae genyf un gŵyn yn eich erbyn chwi eich dau, sef

esgeulusdra anfaddeuol o amddiffyn fy nghymeriad, a chadw fy ngwisgoedd yn lân a dilwgr yn y pwlpud, yn y ffair, ar yr esgynlawr, ac yn eich bywyd cyffredin.

Gogledd.—Yr ydwyf yn fy synu i, fy anwyl fam, ac y mae dy gwynion bron wedi cymeryd fy anadl! Wrth gymwyso dy eiriau at fy mynwes fy hun, nid ydwyf yn gallu gweled fod dim o'r cyhuddiadau yn gorwedd wrth fy nrws i, ac ar yr un pryd yr ydwyf braidd yn meddwl mai "dweyd wrth y post i'r parad glywed" yr ydwyf, o herwydd y mae fy mrawd De, 'rwyf yn gwybod, yn euog o lurgunio geiriau yn ofnadwy. Yr ydwyf wedi sylwi hynny laweroedd o weithiau, ac nid ydwyf yn ei gwel'd yn deg i ti fy nghyplysi i gydag ef o gwbl.

Yr Hen Iaith.—Aros, Gogledd, paid a rhuthro, 'rwy'n gweled y rhaid iti "fwrw y trawst o'th lygad" fel y gweli yn eglurach y brycheuyn yn llygad dy frawd. Y mae fy nghŵyn yn eich erbyn i'ch dau, ac ni chyrhaeddaf fy amcan oni lwyddaf i'ch cael i ddiwygio yn yr hyn yr ydych mor euog y naill a'r llall.

De.—Diolch i ti, mam, am gymeryd fy mhlaid: nid ydwyf fi yn gallu dirnad beth all Gogledd fod yn ei feddwl wrth luchio ei lysnafedd i fy ngwyneb.

Gogledd.—Dyma beth oeddwn i yn ei feddwl, De, ac os wyt ti yn ei alw yn lysnafedd y mae i ti gyflawn groesaw, ond dyna yw y ffaith—yr wyt ti â'th blant yn euog o lurgunio geiriau yn ddychrynlyd. Y mae clywed iaith gandryll ambell i Southyn yn codi gwrid yn fy wyneb i yn aml, gan fel y maent yn torfynyglu geiriau, yn swnio geiriau yn wallus, ac—

De.—"Tinddu ebe y cetal wrth y crochan."

Gogledd.—Gâd i hynny fod, ond mi brofaf i fy mhwno. Onid ydych chwi yn arfer rhoddi sŵn *i* i'r llythyren *y*, megys *didd* am dydd, *rhidd* am rhydd, &c.; ac i'r gwrthwyneb, yn rhoddi sŵn *u* i'r llythyren *i*, megys *mul* am mil, ond rhaid i mi roddi enghraifft, efallai, cyn y gallaf ddangos fy meddwl. Dywedodd un dysgawdwr am yr

eglwys fod y "fechan i fyned yn *fûl*," a bod Priod-fab merch Seion yn rhagori ar ddeng *mul*! Mae dyn prudd genych chwi, rywfodd, yn cael ei drawsffurfio yn *ddin pridd* yn y fan, a dydd Sul yn myn'd yn rhywbeth—yn rhywbeth gwacach nag eisin *Sil*!

De.—Dyro dy law i mi, Gogledd, ar y pen yna. Mae genych chwithau eich llygriad geiriau wrth y canoedd, a byddai rhedeg ar ol engrheiffiau yn waith diben-draw.

Gogledd.—Engrhaifft, os gweli di'n dda—nid haeriadau.

De.—Y mae digon wrth law, felly ni raid petruso. Pan fyddoch chwi yn y North yn darllen yr ydych yn syrthio i'r un camgymeriadau yn union; a phan fyddoch yn areithio y mae genych eich *cyfyl* yn lle yn agos, '*rwan* yn lle yn awr, *clos* yn lle yn ymyl, *catal* yn lle gwartheg, ac felly yn y blaen. Mae merch wedi myn'd yn *march* mewn llawer man, a hogen wedi myn'd yn *hogan*! Yr wyt yn byw mewn tŷ gwydr, Gogledd, am hyny cofia ei bod yn beryglus i ti luchio ceryg.

Yr Hen Iaith.—Yr wyf yn rhwym o gyfryngu rhyngoch, fy mhlant, o herwydd y gwir ydyw, y mae engrheiffiau yn aneirif o bob ochr. Yr ydych i'ch dau wedi *cadarnhau* fy nghŵyn yn eich erbyn, felly y mae y ddadl rhyngoch ar ben; a'r pwnc yn awr yw eich cael i ddiwygio, ac os goddefwch chwi gynghor y mae genyf wrth law.

De a Gogledd.—Gwnawn, ein hanwyl fam.

Yr Hen Iaith.—Un peth pur effeithiol fyddai i chwi beidio ieuo yn anghymarus gyda phlant Hengist, o herwydd yr wyf fi yn cael cam dybryd oddiar eu dwylaw hwy yn nghysgod fy mhlant fy hun. Mae rhai, weithiau, wedi ymwithio i'm pwlpuadau i er mwyn "yr elw," heb haner ddysgu parablu fy ngeiriau: ac un diwrnod clywais un o'r cyfryw elw-addolwyr yn gwneyd y geiriau ofnadwy "yr Hollalluog Dduw" yn *holtti lluen yn fyw* ger bron cynulleidfa foreu Sul, ac yr oedd hyny yn dy wlad di, Gogledd; ac yn ngwlad De, wedi hyny, clywais un arall yn dweyd plant *amdddefaid* a gwragedd *meddwon* am

“plant amddifaid a gwagedd gweddwon!” Ac un arall wrth geisio dweyd y geiriau, “Daear ac wybren hefyd,” yn dweyd yn hygryw, *dau îwy îâr ac îwy brân hefyd!*” Does gan yr un o honoch le i edliw y naill i'r llall; ond y mae genych i'ch dau le mawr i ddiwygio, a bod yn wyliadwrus i gadw gwisgoedd a chymeriad eich mam yn ddilwgr yn ei henaint.

De.—Mam anwyl, y mae dy eiriau yn myned at fy nghalon, ac yr wyf yn teimlo drosot i'r byw. Yn wir, yr ydwyf yn barod i golli y diferyn olaf o'm gwaed i ymladd dy frwydrau; ac y mae yn ddrwg iawn genyf i ti gael dy friwio o'm plegyd i—mi wnaf fy ngorau i ddiwygio, fel na byddo i mi, beth bynag, brysuro dy benwyni i'r bedd.

Gogledd.—Mi wnaf inau yr un modd, fy anwyl fam.

Yr Hen Iaith.—Da mhlant i. Gwnewch, ac fe fydd y gogoniant yn gymaint i chwi ac i minau. 'Does dim yn y byd mawr yn fwy atgas a gwrthun a *chymysgu* iaith—ac yn niweidio mwy ar yr iaith gymysgir: ac yn hyn yr ydwyf fi wedi dyoddef llawer er's chwarter canrif.

Gogledd.—Mi a ddymunwn i ti egluro dy hun ar y pen yna, mam.

Yr Hen Iaith — Gwnaf, fy machgen—dyna lafurwr tlawd, o Gymro uniaith, mewn pentref yn Maldwyn, yn priodi merch o Saesnes bur. Yr oedd eu clywed yn siarad â'u gilydd ar yr aelwyd yn codi cywilydd i fy wyneb i, ac yn merwino fy nglustiau bob amser. Yn mhen y blyn-yddau ar ol eu priodi, dygwyddodd gauaf caled i'w ryfeddu, fel nad allai y llafurwyr ddilyn eu goruchwylion, ac yn mhen rhai dyddiau aeth cwpwrdd y llafurwr hwnw yn wâg, a newyn a dremiai yn ei wyneb, ac yn angherdd ei galedi fe drodd y llafurwr at ei briod, ac a ddywedodd wrthi, “Its very garw—go to hel Beti,” a chan syndod mawr, atebai y wraig, “O for shame, Richard, what will I go there for?” Ond ychwanegai Richard, “Pw, pw, not to hell fire I mean, but to *hel bara chaws!*” Yr oedd yn wrthun, meddaf, uno y ddau yna yn nghyd,

o herwydd fod eu hanwybodaeth o iaith y naill y llall yn cymylu eu cysur yn eu bywyd, ac yn merwino clustiau eu mamiaith.

Gogledd.—Diolch i ti am yr eglurhad, mam, mi a wna fy ngorau i berswadio pawb o hyn allan i beidio ieuo yn anghydmarus.

De.—Gwnaf finau hefyd.

De a Gogledd (gyda'u gilydd).—Byw byth fyddo'r iaith Gymraeg.

DAFYDD OWAIN Y GOF.

UN diwrnod hyfryd yn Mai, 1875, aeth cwmni o fasnachwyr, ar wahoddiad y teulu haelfrydig, i Lwydiarth i saethu *rooks*. Wedi croesawu y dyn oddimewn, casglwyd y gynau, y pwdwr a'r *shots* yn nghyd, ag ymaith â hwynt tua'r Coedystrad, lle y crawciai rhai miloedd o frain am y tro diweddaf. Cwypai rhai o'r cwmni hwynt yn ddi-drugaredd, nes oeddynt yn gelaneddau hyd wyneb y ddaear, ac wedi blino yn lladd, fe berswadiodd un mwy direidus na'i gilydd o'r cwmni, un hollol anghynefin â goruchwyliaeth y saethu, i "drio'i law," a chan na oll-yngodd efe erioed ergyd o'r blaen, a bod ei gynghorwr dyfeisddrwg wedi *gorlwytho* y dryll, fe roddodd iddo y fath ysgytiad wrth ollwng yr ergyd allan nes oedd yn glwt marw ar wastad ei gefn yn y dyrysni, a'r *shots* yn rhidillio yn mynwes pren derw ar ei gyfer! Llanwyd y cwmni â braw aneule, a chyn aros i weled sut yr oedd pethau yn bod mewn gwirionedd, ac a ddeuai y clwyfedig ato ei hun a'i peidio, rhedodd rhyw hen gymeriad digrif-ddiniwed o'r enw Dafydd Owain y Gôf at y rhai na ddylasai i'w hysbysu o'i farwolaeth yn y dull rhyfedd a ganlyn:—

"Meistres anwyl,
Mae'r gŵr wedi marw,
Peth garw ydyw gŵn!"

Ond yn ffodus dadebrodd y saethwr afrosgo mewn pryd i ddilyn sodlau yr hen ôf, onidê fe fuasai y canlyniadau,

ond odid fawr, yn ddifrifol. Un od o ryfedd oedd Dafydd Owain,—pan yn dweyd ei bader byddai yn ei rigymu! Pan yn siarad, pan yn cysgu, byddai yr hen ôf yn rhigy-
ymu. Pan y ciciai anifail wrth ei bedoli, yn lle ei dyngu fel y gwna gofaint yn gyffredin, gwnei Dafydd Owen rigwm iddo! Ar wyneb pwy bynag y byddai gŵg byddai gwên ar wyneb Dafydd Owain—o galon pwy bynag y deuai cenfigen a malais, fe lifai hanfodion cysur cymdeithasol o galon diddichell Dafydd Owain y Gô', a gresyn garw na fyddai mil-fil o'i gyffelyb yn poblogi pob bro.

GOLCHI'R MOCHYN.

Yr oedd yna grwmffast o gigydd yn byw yn Llangollen dro yn ol, ac a fynai ei fod yn un o'r beirdd goreu yn ei amser ef. Yr oedd wedi cychwyn i'w daith un boreu i edrych am ddefaid hyd y wlad, ac yn ddisymwth iawn clywai rhyw oernadau mwyaf annaearol a glywodd erioed yn dyrchafu i fynu o'r cwm odditano; neidiodd i fynu i ben y clawdd i edrych beth oedd yno, ac er ei syndod gwelai forwynig ar fuarth tŷ-ffarm yn llusgo mochyn gerfydd ei glust i'r llyn i'w olchi, a chariai hen ysgub yn ei llaw arall (*gweled* yr hon mae'n debyg, a roddodd gymaint o ysbrydoliaeth yn nghŵyn y mochyn); wedi ei gael i'r dwfr, scrwbiodd yr eneth ei goreu nes oedd yn hollol wŷn cyn rhoddi y goreu iddo, ac wedi ei gael i lendid boddhaol gollyngodd ef yn rhydd, ac ymaith ag ef o'r llyn dan ysgrwtian, ymysgwyd, ac ymsychu oreu gallo, a gollwng ambell i *ochenaid* o waelod ei fòl, fel math o ddiolchgarwch am yr ollyngdod ryfedd a gafodd o winedd goruchwyliaeth arw y "dŵr a'r sebon," a'r ysgub! Wel, wrth gwrs, enynodd golygfa mor farddonol a hon-
yna awen yn y cigydd, nes y bwrlymodd y penill canlynol dros ei wefusau, mor anorchfygol a dwfr dros raiadr *wrth weled y mochyn yn myn'd ar ei union*, wedi sychu ei groen i *orweddian ar ben y domen*!—

“ Ni waeth heb olchi 'r mochyn
 Nes byddo 'i groen yn wŷn,
 I'r dôm yr â fo wed'yn
 Yn union wedi hyn!
 Ac ofer waith yw synu
 Am fod ei gôb mor lôm—
 Can's sochio 'i hun i gysgu
 Wna 'r mochyn ar y dôm!”

Hyn brofa y ddiareb sydd genym is y rhôd—
 “ Y cyw a fegir yn uffern, yn uffern mŷn o fod.”

PENOG COCH.

Yr oedd yna hen fardd o deiliwr yn byw mewn pentref yn Maldwyn, o'r enw Hugh Morris, a hen ŵr o grydd yn byw bron ar ei gyfer o'r enw Thomas Garn. Byddai y teiliwr yn arfer lladd mochyn bob blwyddyn, ac un boreu daeth y cigydd yno i ladd y mochyn mwyaf a fagodd ac a besgodd y teiliwr erioed, a than oruchwyliaeth y gyllell fe drôdd y mochyn allan i fod yn feistr arnynt oll! Yn ei ddychryn rhedodd y teiliwr i dŷ y crydd i 'mofyn ei gynorthwy, ond gan fod y brawd hwnw ar ganol ei frewest y pryd hyny, fe ddywedodd y deuai mewn munud, am i'r teiliwr aros dipyn bach—nes iddo orphen bwyta ei benog coch! Wedi aros moment neu ddwy, pallodd amynedd yr hen Hugh, ac fe anerchodd y crydd yn y modd a ganlyn:—

“ 'N lle bwyta, difa â dwyfoch—o lwyrfryd
 'N ol arfer daearfoch,
 'Rhen Garn beth sydd arnoch
 'N poeni cy'd efo penog coch!”

ac ymaith a'r crydd am ei fywyd, rhag cael dim ychwaneg o “ boethau ” yr hen deiliwr.

IFAN PUW, CAENEWYDD.

Yr oedd Ifan Puw, Caenewydd, yn un o'r rhai diocaf dan haul. Pe buasai yn byw o flaen Solomon, galledid

meddwl yn sicr mai ato ef y cyfeiriai pan yn rhoddi darluniad mor gywrain o'r diogyn yn y Chweched benod o'i Lyfr. "Ychydig hepian, ychydig blethu dwylaw" oedd hi ar Ifan bob dydd tra y byddai yr haul yn ei anterth: ac wed'yn byddai bron yn amser iddo hwylio i'w wely cyn y byddai wedi hollol ddeffro! Yr oedd wedi myned yn ddiareb drwy'r holl wlad, ac yn wawd i anifeiliaid y fro! Un diwrnod oddeutu 11 o'r gloch, cripiodd haner dwsin o ddefaid o'r mynydd y tu ol i'w gaban ar ben ei dô gwellt, ar yr hwn yr oedd twmpath neu ddau o laswellt wedi tyfu. Yr oedd mîn y tô yn gydwastad â'r mynydd o'r tu cefn i'w dŷ, fel nad oedd ddim yn beth dy-eithr iddynt groesi ei frig ar ol llysiau yn awr ac eilwaith, ond y tro hwn yr oedd un ddafad wedi crafu twll trwy y tô nes oedd y gwellt pydredig yn disgyn yn gawodydd i lygaid Ifan yn ei wely, ond yn lle cymeryd yr awgrym ac ymysgwyd o'i wâl, beth a wnaeth ef ond cymeryd arno waeddi ar ei gi, gan lefain "*Hwried, rhed iddyn' nhw, Driver,*" nerth asgwrn ei ben! ac yn eu dychryn wrth iddynt gychwyn, collodd un hen ddafad ei throed, a llithrodd dinben drosben drwy y tô ar ei gefn i'r gwely, er ei fawr alaeth ef, a'i dychryn ofnadwy hithau!

Dro arall, yr oedd Ifan yn adeg cynhauaf y gwenith wedi cymeryd gwaith mewn fferm cyfagos, a chan nad oedd yn gwneyd ei ymddangosiad yn y boreu, yn mhen dwy-awr wedi i'r gweithwyr eraill ddechreu ar eu gwaith, fe ddaliodd un o feibion y fferm geiliogwydd ar y buarth, ac a aeth ac a'i gollyngodd strim-stram-strellach i lawr ei simddai, a disgynodd yn drystfawr anghyffredin yn ymyl pen gwely Ifan yn y siamber! Deffrôdd mewn dychryn ofnadwy, gan feddwl, o ganol ei drwmgwsg, mai y *diafol* oedd ei ymwelydd du a dieithr, yr hwn a ysgrechiai oddeutu ei wely yn aruthr, ond gan dybied mai i nôl ei chwaer y daeth, fe anerchodd Ifan ef yn sydyn, "*Dydi Pegws ddim yn byw yma yrwan, Syr, mae hi'n Dairymaid yn 'r Hendre;*" ac wedi agor drws iddo fyn'd allan, aeth

y diogyn i'w wely yn ei ol i gysgu ei gyntun allan, heb feddwl dim am gynhauaf Coedtalog. Yn ngwyneb y drych hwn o drueni, bydded i bob diogyn yn y wlad weled darlun o hono ei hun, a'i ffeiddio.

AWENYDDION BRO LLANERFYL.

Yn yr oes ddiweddaf yr oedd bro Llanerfyl yn meddu ar nifer mawr o feirdd na wyddai y byd o'r tu allan i'r ardal ddim am danynt: ac yn eu plith rai a fuasai yn enwog pe buasai ganddynt fanteision llenyddol yr oes hon. Un waith yr oedd Dafydd Owen yn cael ei hudo gan brofedigaeth i dori un o'r Deg Gorchymyn, ac wedi magu digon o wroldeb i'w gwrthsefyll fe ddywedodd,—

“Dihawl yw'r diawl du—diffaith
Gnaf uffern boeth obru:
Cadnogaidd genaw 'r fagddu
Na 'rown le i'r un o'i lu.

Ei lu o'n deutu sy'n d'od—gan geisio
Hâd gasedd ollyngdod:
Gelyn in' a fyn e' fod—
Diafol aruthrol athrod!”

ac yn hynod o barod pan aeth yn sâl ar ol ysmocio un-waith, fe amlygodd ei brofiad yn y llinellau hyn,—

“Fy nghetyn fel hyn o hyd—sy'n dŷo
Mi adawa 'r peth enbyd:
Goreu i mi, os cara'i myd,
Yw dryllio ei ben drewllyd.”

gan ei daraw yn y llawr nes oedd yn gant a mil o ddarnau yn y fan! Yr oedd yn englynwr naturiol, a chyflym i'w ryfeddu, er nad oedd, efallai, wedi astudio y rheolau i'r graddau gofynol gan y cynghaneddwyr manwl.

Yr oedd cyfaill i Dafydd Owen hefyd, o'r enw Gwilym Erfyl, yn gallu cynghaneddu mor ddiraffferth ag yntau, mewn gwirionedd, yr oedd y ddau bob amser yn ymryson parodrwydd yn y grefft o englynu. Cyfarfyddodd y

ddau yn ddamweiniol un boreu, ac fe dorodd Dafydd Owen ar y distawrwydd trwy ddweyd “ Boreu da, Gwilym, sut yr wyt ti heddyw—ond paid ac ateb os na wnei di hyny ar gân,” ac atebodd yntau yn union,—

“ Codais a rhodiais yn rhwydd—trwy gariad
Trugaredd yr Arglwydd;
Yn ddisŵn âf at fy swydd
Odidawg, fel dyn dedwydd!”

ac ymaith ag ef at ei waith heb ddim ychwaneg o yscwrs, am ei fod gryn dipyn ar ol ei amser y boreu hwnw.

Aeth hen awenwr penigamp arall o'r ardal, o'r enw Ned Penffridd, un prydawn i'r Coedtalog—ffermdy a fagodd lu mawr o gedyrn y wlad yma—a beth a welai wrth y tân, ond y forwyn yn eistedd yn y gadair siglo a phlentyn ar ei glin yn cysgu brafia dim a welodd efe erioed, ac yn ei ddychryn fe waeddodd yr hen fardd dros y tŷ,—

“ Yr hen lwyth diffrwyth, deffro—dig'wilydd
A gwylia di gwympo:
Briwio Ellis druenus dro—
Ac yn diwedd ei andwyo!”

Yr oedd yr hen Ned yn trin mawn un diwrnod, ac yr oedd yn awyddus iawn i weled wyth o'r gloch yn dyfod; iddo gael noswyllo hirddydd haf; ac i'r funud pan ddaeth yr amser, fe darawodd ei raw yn y fawnog ac a ddywedodd wrth ei feistr, yr hwn oedd yn gweithio gydag ef ac yn gyru yn bur drwm ar ei wynt drwy y dydd,—

“ Yr huan gwych a huna'n goch—Meistr,
Mae'n ymestyn atoch—
Y mawn, gwnewch chwi fel mynoch,
Eithr y glir wyth o'r gloch!”

Ac ymaith ag ef at y tŷ i'w swper, gan obeithio ar hyd y ffordd y byddai ganddynt rywbeth amgen y noson hono na'r nosweithiau o'r blaen, am ei fod wedi syrffedu ar y ffa tragwyddol oedd i swper, ond er ei ofid, erbyn iddo

lusgo at y bwrdd, beth oedd yn mygu yn y crochan ond y ffa fyth a hefyd, ac ebe fe yn gwynfanus iawn—

“ Ffa heno—ffei o honyn’
Difater wyf am fwyta’r un.”

Aeth Mr. Jones, Coedtalog, i’r tŷ un diwrnod, a phwy welai yn eistedd wrth y tân ond rhyw hen fardd dall o’r enw Richard Jones, Bryncoch, yn pensynu, ac fel pe buasai mewn dwfn fyfyrdod, ar ei ddynesiad ato gofynodd Mr. Jones beth oedd ei fyfyrdod, ac atebodd yntau yn sydyn—

“ Rhyfeddu a synu er’s enyd—yr wyf,
A rhyfedd iawn hefyd!—
Fy meiau yn fy mywyd,
A Duw yn dal i’m cynal c’yd.”

CAM GWAG.

YR oedd Ifan Morris, hen gymeriad hynod a selog yn ei ymlyniad wrth Syr John Heidden, unwaith wedi llwytho yn bur drwm, a rhwng y gwesty a’i gartref rhedai Afon Banw, yr hon sydd yn afon lled fawr, ac a ddigwyddai fod y pryd yma yn llifo yn bur rymus. Yr oedd Ifan, modd bynag, wedi ei gadael yn lled hwyr cyn cychwyn adref; a’r lleuad yn loergan oleu, hebryngwyd ef hyd at y rhyd lle yr oedd yn croesi ar y sarn-geryg gan y gwestŷwr. Rhoddodd ei droed ar un, ac wedi hyny ar yr ail, a’r trydedd, ac ar y bedwaredd, ond pan oedd yn nghanol y dwfn, meddyliai weled careg wen, lydan, wastad, nad oedd ddim perygl ei misio, a thyna ei droed arni, ond beth ydoedd ond cysgod y lleuad yn y dwfr, ac wrth gwrs, suddodd Ifan i waelod yr afon, ac a lusgwyd i lawr gyda’r llif hyd nes y bachodd am ei fywyd mewn trosbren grogai dros yr afon ychydig islaw i’r gareg hudolus a’i temtiodd i wyro oddiar geryg y sarn! Wrth groesi y sarn, drachefn, pan ddynesodd Ifan at y gareg wen, fe ddywedodd yn sarug wrthi, “ffei honot ti, leuad, y ti roddodd i mi *gam gwâg*,” ac fe’i hosgôdd y tro hwnw, am fod y trochiad gafodd wedi sobri cryn lawer arno.

Dro arall yr oedd Ifan, ar ol ystorm a gorlifiad yr afon, wedi myned i hel y defaid o gae ag oedd wedi ei amgylchynu gan y llif, ond gan i'r llif fyned yn rhŷ gryf iddo gyrhaedd ei amcan o achub y defaid, ac iddo wrth geisio dianc o'r perygl ei hun golli ei draed, a myned yn ysglyfaeth i'r llif, tra y ceisiai gweithiwr arall estyn cymhorth iddo, fe waeddodd Ifan o ddanedd y perygl, "Paid a dyfod, Deio, — yr ydyw i yn myn'd," gan roddi yr enghraifft goreu, ar ddalenau hanesyddiaeth, o *ddyngarwch!* Er hyny, fe lwyddodd Ifan i achub ei hun trwy afael mewn ralsen oedd ar ei ffordd i ddinyst, ac wrth hono yr ymaflodd nes y llareiddiodd y rhyferthwy, ac y cyrhaeddodd yntau yn ddiogel i fwynhau bendithion Deio am ei ofal tadol am dano pan oedd y dyfrllyd fedd megys yn agor ei safn i'w lyncu.

SIMON JONES O'R BALA.

Am ei arabedd a'i farn dda,
Ei addysg, a'i gynghorion—
Fe dreiglir enw SIMON JONES
O oes i oes yn Meirion ;
Fe draetha plant yr oes sy'n awr
Wrth ddeiliaid yr oes nesa',
Ryw sylw pert, er addysg wnaed
Gan SIMON JONES o'r Bala.

'Roedd SIMON JONES, tra yn y byd,
Mewn dysg, a dawn, a medr,
Yn mhobpeth bron, yn hynod iawn,
'Run fath â Simon Pedr ;
Un byrbwyll, ffrwt, llafurus iawn
Oedd Simon Palestina,
Ac felly 'n wir, un *odd* o od
Oedd SIMON JONES o'r Bala.

'Roedd SIMON JONES yn mhobpeth da
Ar ben ei hun yn ddiau,
Nid oedd efe 'run fath a neb,
Na neb 'run fath ag yntau ;

Tra ffrydia dwfr yn Nhegid lyn,
 Fe ffrydia'r côf anwyla'
 Yn mhlith trigolion Meirion fâd
 Am SIMON JONES o'r Bala.

Yr INGRAMS.

Bu adeg ar Gymru pan oedd yn llawer haws i ddyn ddechreu ei fyd nac ydyw y dyddiau hyn—pan y gallai dyn newydd briodi godi preswylfod ar lechwedd mynydd, yn mron yr haul, mewn un noson ag a fyddai yn etifedd-iaeth iddo ar hyd ei oes, ac hwyrach i'w wŷrion ar ei ol. Dim ond iddo ymroi ati ryw noson wedi i'w gymydogion fyned i huno i godi tŷ-tywyrch, a'i ddiddosi, a gwneyd rhyw lun o simdde ar ei ben fel y gallai y mŵg weithio ei ffordd allan yn y boreu ar ganiad y ceiliog, a dyna fo yn arglwydd ar ei dŷ a'i dir ei hun, heb fod gan neb hawl i ddweyd gair wrtho? Wrth ystyried hyny, nid rhyfedd i Glanygors ganu mewn syndod—

“ O faint o gyfnewid yn awr sydd yn Nghymru
 Er yr amser gynt pan oedd Bess yn teyrnasu !”

Fel yna yn union y meddianodd teulu yr Ingrams ddarn helaeth o wlad yn Maldwyn rhyw bedwar ugain mlynedd yn ol. Cododd y tad ei “ gaban-unos ” yn nghyntaf, ac yn hwnw fe genhedlodd dylwyth afrifed, y rhai yn eu tro a ddaethant ac a wnaethant yr un modd, gan dryfritho y mynydd â chabanau-unos, fel y daeth mewn amser “ yr Ingrams ” yn *allu* yn y gymydogoeth, ac yn enw cyffredin ar gofrestr y plwyf.

Yr oedd hynodrwydd anghyffredin yn perthyn i'r hen Ingram, a chariai pob un o'i blant ryw debygolrwydd neillduol iddo mewn rhyw nodwedd neu gilydd. Yr oedd ganddo un bachgen ystyfnicach na'r lleill, ac nis gallai ei fam, yn ei byw, ei ddiddyfnu o'r *cast* o ddwyn y rhan fwyaf o bob peth fyddai ar y bwrdd bryd bwyd. Ac un diwrnod, pan oedd “ tymplins un-afal ” i ginio, daeth yr ystyfnig i mewn ac a ysglyfaethodd y dymplen fwyaf o'r

ddegyl, er creu cenfigen ac anfoddlonrwydd mawr yn mhlith y plant ag oeddynt yn hŷn nac ef; wedi cael ei gefn o'r tŷ, dywedai yr hen Ingram wrth y rhelyw o'i dylwyth, "gadewch iddo, mi ddysga i well peth iddo yforu." Yforu ddaeth, a chymerodd yr hen dad y bytaten fwyaf allai dd'od o hyd iddi, ac yr oedd ganddo datws o'r mynydd-dir oeddynt yn ddiarebol am eu maintioli, ac a wnaeth dymplen o honi, gan ei rhoddi yn nesgl y tymplins i ginio—daeth yr ystyfnig i mewn fel arfer, ac a feddianodd yr un fwyaf, ac a ddechreuodd ei daneddu yn ddi-drugaredd, ond Och! er ei syndod, a'i alar, beth oedd ond tymplen datws! O hyny allan boddlonodd yr ystyfnig ar y rhan a ddigwyddai o'r da yn ol ewyllys ei fam fel y plant eraill.

Priododd Nancy ei ferch pan yn ddeugain oed gyda rhyw greadur oedd braidd yn afluniaidd yr olwg, yr hyn a greulonodd ysbryd balch gŵr y Caban-unos cyntaf; a phan glywodd fe ddywedodd yn wawdus, "*Wel, bu Nancy ni yn pysgota am ddeugain mlynedd, ac ni ddaliodd hi ond gwrachen yn y diwedd;*" o herwydd yr oedd y gŵr ifanc wedi ei gynysgaethu â choesau ceimion yn taflu allan, y rhai alwai yr hen ŵr yn "fache crochan!" Ac mor lawn o ddynoliaeth a chydymdeimlad oedd yr hen dad, fel pan ddygwyddodd i dalp o graig ddisgyn ar gorff y mab-yn-nghyfraith yn union wedi ei briodas, ac i hyny gyrhaedd ei glustiau, y dywedodd yn chweringar, "Wel, mi dorodd un o'r bache crochan, do!" canys yr oedd un o'i goesau wedi ei chwilfriwio. Ni aethai i edrych am dano hyd y dydd hwn oni bai i'r hen Glosian Mawr (coffa da am dano) wastraffu peth wmbredd o'i ddawn berswadiol, dylanwad yr hwn ar y teulu oedd yn anorchfygol: "ie" a "nage" y ddau deulu yn nghyd oedd ddeddf orchfygol y Llanerfyliaid y pryd hwnw; ond hyny *fu* ac a ddarfu.

ARAETH BENHOIT.

Galwyd ar ŵr urddasol i anerch cynulleidfa yn ddiweddar yn hollol ddiarwybod iddo ei hun, a chan na

oddefai yr amgylchiad iddo beidio codi ar ei draed fe wnaeth gynyg, ac yn y cynyg hwnw fe gynysgaeddodd ei genedl â'r engraifft goreu o'r hyn a eilw y Saeson yn *stumporation* a fu erioed. "Anwyl gariadus frodyr (ebe fe) digwyddodd i mi fod mewn pentref gwledig yn Nghymru yn ddiweddar ar foreu Sul, ac fe'm tarawodd i yn anghyffredin o ryfedd gweled y trigolion yn cyrchu i'w gwahanol leoedd o addoliad! Wrth holi, deallais fod John Jones yn myned heibio i ddrws capel y Wesleyaid a'i feibl tan ei gesel i gapel y Methodistiaid ddwy filldir o ffordd, deirgwaith bob Sabboth—canys yno yn unig y gallasai John Jones gyfarfod a'i Dduw! Elai Evan Evans o ymyl gwâl Mynwent yr Eglwys i gapel y Wesleyaid yn y pen arall i'r cwm—canys yno yn unig y gallasai Evan Evans gyfarfod a'i Dduw! Trotiai William Williams oddiwrth gapel y Methodistiaid, tros y bryniau a thrwy siglenydd heibio drws yr Eglwys i gapel yr Annibynwyr—canys ni chredai William Williams fod ei Dduw ef i'w gael yn unman arall! Elai Thomas Thomas heibio i'r oll, dair milldir o gwmpas, i fynu'r gelltydd ac i lawr y rhiwiau, i gapel y Bedyddwyr—canys yno yn unig yr oedd ei Dduw ef yn cyfarfod ei bobl! Ac fel pe buasai Owen Owens yn credu eu bod oll yn cyfeiliorni, fe sugnai efe hyny o bleser a mwynhâd a allai o 'grefydd y pentan,' gan wireddu y ddiareb, 'Y nesaf i'r Eglwys, pellaf o baradwys:' tra y cyrchai Sqwiar Hughes a'i denantiaid i Eglwys y Plwyf! Yr oedd pawb ar drot y boreu Sabboth hwnw, o herwydd yr oedd yn foreu hynod o hyfryd. Ond, wrth holi, mi gefais mai yr achos fod William Williams yn myned yr holl ffordd o gapel y Methodistiaid oedd, ei fod wedi digio wrth y Blaenor am ryw drosedd bychan islaw sylw dyn call; ac mai yr achos fod John Jones yn myned oddiwrth gapel y Wesleyaid oedd, iddo ddigwydd llithro ei droed gyda'r ddiod feddwol, ac iddo osgoi cerydd trwy newid ei gynefin! Yr achos fod Thomas Thomas yn cerdded yr holl ffordd trwy

bob tywydd i gapel y Bedyddwyr oedd, iddo uno yn nireidi 'cythraul y canu' i godi cynen yn nghapel y Wesleyaid, ac mai yr achos fod Evan Evans wedi gadael yr Hen Deml oedd, i'r Person ostwng ei dâl am ganu yn yr Eglwys! Anwyl gariadus Frodyr—fy marn i yw, fod gan y Methodistiaid, y Wesley's, yr Annibynwyr, y Baptists, a'r 'Glwyswrs, eisio curo'u penau yn eu gilydd, am eu hymddygiad *anfrawdol* y naill tuag at y llall mewn gwlad grefyddol fel ag yw Cymru. Onid UN Duw sydd? Y mae aml-dduwiau y sectau yn ddigon a pheri i ddy-eithr-ddyn droi yn Stoic, a chredu nad oes un Duw yn bod, onide fe ddangosai ei *blant* fwy o gariad at eu gilydd." Onid oes yn yr "araeth" ar ol y cwbl, rywbeth y gallai pob enwad yn Nghymru ddysgu gwera oddiwrthi?

"AMEN."

Mae'n arferiad mewn rhai Eglwysi, ac yn wir mewn rhai Capeli hefyd, ganu "amen" ar ol pob emyn: ac un tro ddechreu y flwyddyn o'r blaen, yr oeddwn i yn digwydd bod mewn oedfa, a'r emyn roddwyd i ganu oedd hono yn diweddu gyda'r geiriau difrifol:—

"Ac fe all mai'r flwyddyn yma
Fydd i mi'r ddiweddaf oll:"

ac, yn wir, yr oedd yn bur chwith genyf glywed rhai yn y côr ag y gwyddom eu bod mor amharod â minau, yn torsythu i ganu ar ol y geiriau yna "Amen!" Beth pe buasai eu gweddi yn cael eu hateb? Bobl anwyl!

"SPIRITS."

Coffa da am dano, yr oedd "Richard y Masiwn"—hen Gymro o gyneddfau naturiol cryfach na'r cyffredin—yn myned trwy bentref Meifod rhyw dro, a'i gelfi gwaith ar ei gefn, rhwng saith ac wyth o'r gloch y nos yn y gauaf; ac ar gyfer Capel yr Annibynwyr, a gynelid y pryd hyny mewn llofft uwchben Shop Fferyllydd, cyfarfyddodd â

gŵr dyeithr o Sais, yr hwn a ofynodd iddo, “ *What is there here, my man, it appears to me to be a Chapel by the row of windows above, and the singing: but I am bothered when I look at the Druggist's Shop underneath?*” Yr oedd y gynull-eidfa yn canu yn y Gyfeillach gynelid ar y pryd yn y llofft, a disgleiriai y potelau amryliw odditanodd; a dyna oedd yn creu chwilfrydedd yn meddwl y Sais, ond ateb-odd yr hen Risiart ef yn yr iaith fain yn y dull ffraeth-berth ganlynol:—

“ There's Spirit above, there's spirits below,
There's Spirit of love, there's spirits of woe;
The Spirit above is the Spirit Divine—
The spirit below is the spirits of wine.”

ac aeth y Sais yn ei flaen gan ryfeddu fod cymaint o ath-rylith yn cael ei gario tan *jim crow* cludydd y fasedaid tools!

SIOMI MEWN GWRAIG.

Dyna siomedigaeth gafodd yr hen fardd hwnw, wedi priodi ei gariad-ferch o blith lluwaws oedd ganddo ar law, a ddarluniodd ei gyflwr torcalonus yn y geiriau canlynol:—

“ Mi eis i'r ardd i ddewis pwysi,
'Mysg y lafant chwêg a'r lili,
Ond yn lle tori'r rhosyns cochion
Torais bwnc o “ ddalan-poethion.”

Druan o hono,—fusasai yn well iddo, yn ol yr hen gyng-hor, sidro *ddwywaith* cyn priodi unwaith.

PRIODAS DAFYDD PIRS.

Tune — “ *Little Brown Jug.*”

'Roedd Dafydd Pirs yn ddeugain oed,
Cyn iddo freuddwydio am gael gwraig,
Ond trodd yn garwr poetha'r 'rioed
'N ol dod i gwmni Gwen, Tanygraig;

CHORUS.

Ha, ha, ha, ho, ho, ho,
'Roedd Gwen yn gyru Pirs o'i go,
Ha, ha, ha, ho, ho, ho,
'Roedd Gwen yn gyru Pirs o'i go.

Cyn 'chydig iawn fyn'd dros ei ben,
'Roedd Pirs "can wirioned â chut llo,"
Cynygiodd ei hunan yn ŵr i Gwen—
Er syndod mawr i bawb drwy'r fro.

Cyn priodi Pirs 'roedd Gwen yn serch,
Yn serch i gyd yn ddigon siwr—
Ond wedi priodi ni wnai'r hen ferch
Y gorchwyl lleiaf a geisiai'i gŵr :

Fe dd'wedai Pirs un boreu Sul,
"Cwyd Gwen i borthi'r moch, fy mŷn,"
Ond d'wedai Gwen—"Cwyd ti 'rhen ful,
A dyro fwyd i'r moch dy hun :"

Pirs ddwedai eilwaith cyn bo hir,
"Rhowch fwyd i'r cywion, er mwyn i,"
Ond dwedai Gwen—"Wel na'na wir—
Da' i ddim i borthi'th ddiogi di :"

'Roedd Gwen yn leicio'n arw iawn
Chwedleua o hyd o fan i fan,
A chael ei gwadd i dé prydawn—
A phorthi o hyd ar chwedlau'r Llan :

Holl Saesneg Gwen oedd "yes" a "no,"
A chlywai "come to tea" yn gyntaf un,
Fe wyddai am helynt pawb drwy'r fro,
A busnes pawb ond ei busnes ei hun :

Fe flinodd Pirs ar fyw fel hyn,
Ac aeth o'r wlad—er gwaethaf Gwen,
A thynwch chwithau, ferched syn,
Y wers yn awr—mae'm cân ar ben :

Ha, ha, ha, ho, ho, ho,
Na foed i wraig yru'i gŵr o'i go,
Ha, ha, ha, ho, ho, ho,
Rhag'i yru o'r wlad fel Pirs ar ffo.

FFASIWN NEWYDD.

Yr oedd John Jones unwaith yn rhedeg am y gornel yn Strut yr Eglwys, Llangollen, a *bandbox* tan ei gesel, ac wrth ei weled yn rhedeg felly, cododd cywreinrwydd

yn mhenglog rhywun oedd yn hŷf arno a safai gerllaw, ac fe waeddodd arno, "Be sy' genych chwi yn y *bandbox* John Jones?" "Bonet newydd i'r wraig acw," ebe ynte, a'i wynt yn ei ddwrn, heb droi ei ben i edrych pwy oedd yn siarad âg ef: ond ychwanegai ei gyfaill eilwaith, "Wel, neno dyn, i be' ydech chi'n rhedeg fel ene?" a'r ateb parod a gafodd, megys ar yr aden, "*Rhag i'r ffasiwn newid cyn i mi fyn'd i ben fy siwrne.*"

TEILIWR GONEST.

Yr oedd hen deiliwr dirheusddrwg yn byw o tan yr un tô a hen wraig pur dduwiol yn Efenechtyd er's talm, o'r enw Samuel Hughes. Yr oedd yr hen Samuel wedi bod yn ymroddi yn o ddygn i gadw i fynu wythnos yr Wylmabsant, gynelid y pryd hyny yn bur ddefosiynol gan breswylwyr y plwyf hwnw; ond dydd Sadwrn, daeth i gôf yr hen deiliwr ei fod wedi addaw yn *ddiffael* wneyd clôs newydd i w'r Plasynllan erbyn y Sul! Er ei bod y pryd hyny yn mhell yn y nos pan gofiodd am ei addewid, fe daflodd ei hunan ar y bwrdd ac a ddechreuodd wnaio arni nerth hyny o fraich ac ysgwydd sydd gan deiliwr er mwyn bod yn ddyn i'w air i'w fawrhydi o Blasynllan. Pwy ddaeth i dŷ y teiliwr boreu Sul i oleu ei chanwyll (yn ol arfer gwlad cyn geni y *Lucifer Matches*) ond yr hen Fethodist-wraig o'r tŷ nesaf, a chan ei dychryn weled ei chymydog yn "gweithio ar y Sul," wrth fyned allan, wedi sicrhau tân ar y ganwyll, hi ddywedodd wrtho yn chwerwder ei llais, "*Rhag cywilydd i chwi, Samuel Hughes, yn tori y Sabboth fel hyn, mi dalith yr Arglwydd i chwi am hyn eto.*" Ond atebai yr hen Samuel mor ffromedig â hithau, "Dos oddiyna, yr hen *witch*—does gan i ddim eisio iddo dalu i mi—*nid iddo fo ydw i yn gweithio.*"

CI YN YR EGLWYS.

Fe ddywedir fod ci rhyw ffarmwr, yn amser Jack Glanygors, wedi myned gydag ef i'r Eglwys, yn Cerygy-

druiddion, yr hwn oedd mewn gelyniaeth anghyffredin i'r Clochydd; a phob tro yr agorai y Clochydd ei enau yn y gwasanaeth, fe ysgyrnygai y ci arno, nes creu chwerthin yn y gynulleidfa. Yr oedd hyn yn myned at galon ei santeiddrwydd y Clochydd, ac awgrymodd i'r *Sexton* ddyfod i'w helpu i droi y ci allan, a phan oeddynt yn ei dywys i gyfeiriad y drws, un yn mhob clust iddo, pwy a'u cyfarchai â'r englyn canlynol, ond Glanygors:—

“Wron dewr ddaeth i wrando—yw'r ci bach—
Cebyst yw ei rwystro:
Y ddau frawd gadewch iddo
I gael rhaid ei enaid o.”

A thystiai yr hen amaethwr cyfrifol a englynodd iddynt, “fod y ci druan, yn dduwiolach o'r haner na'r un o'r ddau a'i cilgwthient o'r cysegr!”

TATWS LAETH.

Clywais amaethwr yn ddiweddar yn dweyd i galedi yr amseroedd ei orfodi i ostwng cyflog ei weithiwr o 16/- i 12/-, ac iddo, mewn ffordd ryfedd, gael allan mai yn erbyn ei hun yr oedd y gostyngiad yn effeithio. Aeth i'r cae lle yr oedd y gweithiwr yn llafurio un diwrnod, a sylwodd nad oedd haner y gwaith arferol wedi ei wneyd, a'i fod ynte yn chwys dyferu uwch ben hyny wnawd, ac wrth weled hyny, fe ofynodd y Meistr iddo beth oedd y mater, “Wel, Syr,” ebe fe, a'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, “pan oedd Margaret yn cael 16/- o gyflog, Syr, yr oedd yn gallu darbod dipyn o gŵg erbyn y Sul i mi, ac ambell i waith ar ddiwrnod arall, a phryd hyny yr oeddwn yn gallu tori trwy fy ngwaith fel na safai dim o'm blaen i, ond yn awr yr wyf yn gorfod ciniawa bob dydd ar *datws laeth*, ac y mae gwaith yn *feistr* arnaf.” Yn mhrofiad yr hen Fytheuad yn y chwedl, yr oedd y gweithiwr, druan, yn gorfod dywedyd nad pallu wnaeth ei *ewylllys*, ond pallu wnaeth ei *nerth*. Druan o hono, ac

nid rhyfedd y noson hono i mi freuddwydio y ganig ganlynol:—

Mesur—"Nelly Bly."

- 1 Flynyddau 'nol 'roedd pawb yn llon,
A'r byd yn myn'd yn iawn—
Y gweithiwr tlawd yn ysgafn fron,
A'i dŷ a'i bwrs yn llawn;
Ond erbyn heddyw—dyn a'i gŵyr,
Mae'i bobpeth yn ddirol—
Bu farw'r byd heb adael dim
Ond tlodi ar ei ol!

CHORUS:—Yn wirionedd ine bach,
Fu'r byd erioed ddim gwaeth,
'Dall undyn ddal i weithio'n hir
Wrth fwyta tatws laeth.

- 2 Dan gledi'r byd mae'r gweithiwr tlawd
A'i deulu bach yn gaeth,
Yn gorfod gwneyd ei ddiwrnod gwaith
Ar bwys rhyw datws laeth;
Ond cyn pen hir gwanychu mae
Dan effaith y "bwyd llwy,"
Ac yn ei wendid mawr rhyw ddydd
Fe'i tafwyd ar y Plwy!
- 3 Mae tatws laeth yn burion peth
I rywun ar y tro,
Ond nid oes ynddo nerth na maeth
I weithwyr dewr y fro;
Os y'ch am lafur didwyll, teg,
Wel treiwch hyn trwy fydd,
Rhowch bwys o *biff* wrth senau dyn
Sy'n gweithio fesul dydd.
- 4 Fe fuasai'n well o lawer iawn
Cael byw'n yr oes o'r blaen,
Na bod yn poeni'r dyddiau hyn
Yn nhlodi Cwm a Gwaen;
Mae'r ffermwr, druan, er ei aeth,
Yn teimlo'i ffordd yn gŵl—
Rhaid gwerthu'r fuwch am bris llo bach,
A'r ceffyl am bris mul!

5 Ni cheir mo'r digon am y da,
 Na phrisiau am yr yd,
 A dyna weddi pob dyn byw
O na ddo'i tro ar fyd!
 Os na ddaw tro ar fyd cyn hir
 Daw'r ffarmwr, er ei aeth,
 I wybod beth yw gorfod byw
 Ar ddim ond tatws laeth!

CHORUS:—Yn wirionedd ine bach,
 Fu'r byd erioed ddim gwaeth,
 'Dall andyn ddal i weithio 'n hir
 Wrth fwyta tatws laeth.

DYN "PARTICULAR."

FLYNYDDAU yn ol yr oedd yna hen ffermwr o'r enw Huw Huws, ag oedd mor *barticular*, ys dywed y bobl, yn byw yn Llanrhaiadr, fel pan fyddai ei wraig yn gwneyd cwpanaid o botes iddo fe fyddai yn rhaid iddo ef roddi yr halen ynddo—pan fuasai yn berwi wŷ iddo, buasai yn rhaid *iddo ef* wyllo y tri munud i fynu ar y cloc, onide ni thalai yr wŷ ddim byd! Byddai yn rhaid iddo ef fyned gyda hi i'r farchnad i werthu y cywion, yr ymenyn a'r wŷyau, er mwyn iddo *ef* gael derbyn yr arian, fel pe na buasai gan neb y synwyr i'w cadw na'u defnyddio ond efe! Yr oedd o yn *barticular* mewn gwirionedd. O'r diwedd daeth yr amser iddo dynu ei draed i'r gwely i farw, a chan lawer nid yr un mymryn yn rhy fuan; ac fel y fo ei hun yn union, y mae yn galw ei wraig ato pan yr argyhoeddwyd ef mai myned yr ydoedd, gan ddywedyd wrthi, "Marged, pan fydda i farw mae gan i eisio i chwi wneyd bwyd i'r cyfeillion ddaw i'm claddu fel ar fel—gofynwch i Mr. Jones, Tŷ ucha i dori y biff ar ben y bwrdd, ac i wŷr y Tŷ mawr, Commins, i dori yr ham a'r cywion—ond o ran hyny (ebai tan wylo yn hidl), *fydd yma ddim byd yn ei le os na fyddaf fi yma fy hun.*" Pwy fyth chwenychai wŷr mor *barticular* a Huw Huws?

Y GYFRAITH NI NEWIDIR.

MEWN eglwys wledig yn ddiweddar yr oedd ci rhyw bŵr ieuanc wedi dyfod gyda hwynt ar yr achlysur pwysig o fedyddio eu plentyn. Gorweddaï y ci wrth eu sodlau hyd nes y dechreusant *shufflo* gyda'r plentyn, pryd y cyfododd yn ddefosiynol iawn i lyfu llaw ei feistres, ac yn y fan hi a'i ceryddodd, gan ddywedyd, "down Pero," pan oedd y Person yn gofyn beth oedd yr enw i fod, a chan dybio mai enwi y plentyn yr oeddynt, fe'i bedyddiwyd yn enw y Drindod yn *Down Pero*—a Down Pero Jones y gelwir y mebyn o hyny allan! "Y gyfraith ni newidir," o ganlyniad, fe ddylid bod yn ofalus iawn hyd y nod wrth fedyddio plant.

"TALCEN SLIP."

O'R dydd y rhoddodd yr hynaws a'r anfarwol fardd Talhaiarn fodolaeth i'r *pumed-mesur-ar-hugain*, y mae cyflawnder o honynt ar hyd a lled y wlad. Hynod mor lluosog yw beirdd y *pumed-mesur-ar-hugain*! Y mae amryw o honynt i'w cael yn mhob ardal yn Nghymru, ond y mae *graddau* hefyd yn eu plith hwythau, ac y mae y dosbarth goreu o honynt yn fynych yn dangos cryn lawer o athrylith. Pwy yn y byd sydd gan ddim i'w ddweyd yn erbyn Hir-a-thoddaid y bardd ieuanc Siglenydd i'r *Ysgyfarnog*:—Yn wir y mae yn ddarluniad byw o honi, ac y mae yn athronyddu ei natur i'r manylrwydd eithaf. Edrychwch arni yn myned—

" Un hynod yw'r Ysgyfarnog, hi â fel y traen,
 Mae'i thraed ôl yn hirion i roi sponc yn ei blaen;
 Mae'i chynffon yn gwta, rhag i'r ci gael gafael ynnddi,
 A'i blew yn hir i'w chadw 'n gynnes mewn oerni;
 A'i thraed blaen yn fyrion, os ydych chwi 'n dallt,
 Iddi fyn'd fel y fellten i fynu 'r allt,—
 Pwy bynag a'i gwnaeth, mor wired a'm geni,
 Mi gwnaeth hi o bwrpas i guro'r un milgi,
 Waeth be' ddyda nhw
 Mi gymraf fy llŵ!"

Pan welodd gôf Pentrefelin ddyn yn myned ar gefn *bicycle* y tro cyntaf, fe feddyliodd yn ei galon mai yr "hen fachgen" oedd yn ysgubo rywun ar ei gynffon i ddystryw. Taflodd droed yr anifail oedd yn ei bedoli a rhedodd i'r ffordd i edrych ar ei ol, ond yr oedd wedi myned o'r golwg! Yr oedd ei synedigaeth yn aruthr, a phenderfynodd gyhoeddi Eisteddfod i'w chynnal dan Bendist yr Efail pan ddeallodd beth ydoedd, a chynygiodd wobr o gryman cau am yr englyn talcen slip goreu i'r *bicycle*. Yr Eisteddfod a ddaeth, a chyda hi beth wmredd o gyfansoddiadau fel arferol. Dacw yr hen ôf yn mountio yr eingion fawr ac yn darllen ei feirniadaeth, ac ar y diwedd yn dyfarnu y wobr i awdwr yr englyn canlynol:—

"I fynu'r rhiw nid yw'i yrfa—o un gwerth
I'r gŵr a'i meddiana:
Ond i lawr allt e lwyr wylltia,
Ac a â'n gyflymach na dim a welais i erioed
a'm llygaid er pan aned fy mhen i i'r byd."

Un da iawn oedd hwnacw eto, gynyrchodd Eisteddfod Llangynog er's talm i'r "chinon," a arferai y merched y pryd hyny ar eu corynau. Gyda llaw, rwy'n meddwl mai Pwyllgor yr Eisteddfod hono a roddodd yr ysbryd drwg hwnw i lawr, o herwydd rhoddwyd i fynu yr arferiad o'u gwisgo yn union wedi cynaliad yr Eisteddfod. Dyma fel y rhedai yr englyn buddugol:—

"Mae'n ddiwâd ar ben Cadws—rolyn o rawn
Ar lûn rholbren datws:
A chwynaw o'i mhewn mae chweinws
Eisio mwy o wynt."

Gymaint a hynyna ar englynion talcen slip, gydag awgrymu y byddai yn fuddiol, hwyrach, i'r Orsedd Eisteddfodol fabwysiadu y mesur, o barch i'w gychwynydd, pe byddai ddim ond hyny, a'i gyflwyno yn nghwt pedwar mesur ar hugain D. ap Edmwent.

 “TENDIWCH Y TYNEL.”

Ebai hen ŵr bur barchus wrth ferch ieuanc oedd yn ei hebrwng at y trêu yn station Llangollen. “Wel, pa’ m y tynel, *Uncle?*” ebe hithau yn bur bryderus, gan syll-dremu yn ei lygaid. “Wel, mi ddweda’ i chwi, Fanny,” ebe yntau, “yr oeddwn i yn dyfod o Gorwen unwaith, ac yr oedd gŵr ieuanc hoew yn eistedd yn yr un *carriage* â mi, a merch ieuanc brydweddol yn ei ochr. Yr oedd gan y gŵr ieuanc glwt bychan o *sticking plaster* ar ei fochgern pan yn cychwyn, ond i chwi, wedi i ni ddyfod allan o’r *tynel*, yr oedd y gŵr ieuanc wedi setio ei hunan mor ddi-niwed âg offeiriad Pabaidd yn ei le ar fy nghyfer, a’r *sticking plaster* yn batch ar foch y ferch ieuanc, yr hon a edrychai mor ddiniwed ag yntau, er difyrwch nid bychan i bawb oedd yn y *carriage!* Gofalwch chwithau fyned allan o’r tynel fel yr aethoch iddo, Fanny (ebe yr hen ŵr) rhag i neb gael y pleser o chwerthin am eich pen.”

“Y V FAWR.”

 Tôn—“*Simon the Cellarer.*”

Mae llawer hen deulu fel gwyddoch yn dda

Wedi darfod yn llwyr o’r byd,

Ond eto mae ambell hen deulu i’w cael

Sy’n byw ar y ddaear o hyd, &c.,

Ac un o’r rhai hyny yw teulu’r V fawr,

Y teulu pwysicaf drwy’r ddaear yn awr,

Pan fo’nt am wrhydri yn sôn wrthych chwi

Yn niwedd pob ’stori cewch glywed y V.

Y V, y V, pwy sydd fel y V,

Nis gallai y byd wneuthur dim hebof V.

Y “V” ebe’r hwsmon dan ysgwyd ei ben,

Yw’r goreu am droi yn y wlad,—

Mae pawb yn y fro yn rhoi’r goreu i mi,

A’r nesaf ataf V ydyw nhad, &c.,

Y “V” ebe’r teiliwr yw’r goreu am gôt

‘Does’ run teiliwr arall yn werth yr un rôl,

Am wneuthur esgidiau, ebe’r Crydd, da eu llun,

Ac i ffitio fel maneg, y V ydyw’r dyn,

Y V, y V, pwy sydd fel y V,

Nis gallai y byd wneuthur dim hebof V.

Mae ambell i lodes yn myned i'r ffair,
Yn nghanol ei rhwysg a'i bri,
I ddim ond i ddweyd'n ei hymddygiad wrth bawb
O bobl! a welwch chwi V! &c.,
Y V wnaeth y curls—V drodd y rhes wen
A V wnaeth y clap sydd ar goryn fy mhen,
Y V fu'n ymdrwsio am ddwy awr neu dair
Cyn cychwyn i ddangos fy hun yn y ffair;
Y V, y V, pwy sydd fel y V,
Ni fyddai y ffair ddim yn ffair hebof V.

Mi ddweda'i chwi beth, ac mi ddweda'i chwi'r gwir,
Y byd sydd o honi hi'n awr—
Y'marn pob dyn gonest, o bobpeth sy'n hyll
Y peth hylla'n y byd yw'r V fawr, &c.
Wrth droi ymlith dynion fe genfydd pob un
Mae'r salaf bob amser sy'n canmol ei hun;
P'le bynag y byddom—'n y farchnad neu'r ffair,
Mwya'u trwst llestri gweigion—ys d'wed yr hen air,
Y V, y V, ymhell y bo'r V—
Anurddo cymeriad pob un y mae'r V.

FFIT.

Yr oedd yn byw mewn pentref bychan yn Maldwyn unwaith, Ysgolfeistr a wnai ei hunan yn hynod o ddefnyddiol yn yr ardal. Heblaw y troai yn y sefyllfa bwysig o ysgolfeistr, efe hefyd oedd y clochydd. Yn ychwanegol at hyny, os byddai ar rywun eisiau ysgrifenu llythyr o bwys, ato ef yr elid bob amser i gael hyny o orchwyl wedi ei wneyd yn ei le. Efe fyddai yn gwneyd ewyllsiau, cytundebau, &c. Beth bynag am hyny, rhyw ddiwrnod, galwyd am dano i amaethdŷ i wneyd ewylls y gŵr oedd fel y tybid ar ei wely marw. Uwchben y weithred ddifrifol hono, rhoddwyd mwy o wirod i Mr. Evans nag oedd yn alluog i'w feistroli; ac ar ei ffordd adref, gan mor ddiymadferth yr oedd, syrthiodd i fôl y clawdd, ac yno y cysgai mor gysurus, debygid, a mochyn mewn mân-ûs! Pwy ddaeth heibio pan oedd yn y cyflwr yna ond gwraig yr Offeiriad, ac yn ei braw

dynesodd ato, gan ofyn yn dorcalonus, "Ai *ffit* gawsoch chwi, Mr. Evans bach?" Ac wedi ebychu rhyw ochenaidd neu ddwy go drymion, fe atebodd yntau, "Nage, Mam,—GORMOD ge's i—mae'n bleser i ddyn gael *ffit*, ond cael *gormod* sy'n gwneyd bwystfil o ddyn, ac hyd yn nod yn taflu'r clochydd i'r ffôs." Mor wir, onide?

DARLLEN DIFYFYR.

MEWN cyfarfod Llenyddol yn ddiweddar rhoddwyd y llinellau canlynol i gystadlu arnynt mewn darllen difyfyfyr, a mawr oedd y difyfwch a gafodd y gynulleidfa am ben ambell un o'r ymgeiswyr yn torfynyglu synwyr wrth geisio eu darllen:—

YR HYN A WELAIS.

Yn Rhosymedre gwelais ddyn a chyrniau
 Ar ei ben gwelais eidion yn ehedeg
 Gwelais Gyfflogyn wedi ei bedoli
 Yr oedd ceffyl gwedd yn darllen gwasanaeth
 Yn yr Eglwys offeiriad wedi meddwi
 Yr oedd y *Policeman* yn y ffurfafen
 Y codai yr Haul o gesail y mynydd
 Y rhedai y ffrydiau i ddiodi'r oll.

Y DDANODD.

DAETH hen fardd at dŷ gweinidog unwaith, ac wrth weled y wraig wedi lapio ei phen, ac yn tynu gwynebaw fel pe buasai yn barod i regu pawb o'i deutu, fe ofynodd yr hen fardd yn hynod o deimladwy, "Y ddanodd sydd arnoch, Mrs. Davies bach?" "Ië, Thomas Ellis," ebe hithau. "Wel wir, peth digon garw ydi'r ddanodd, Mrs. Davies (ebe'r hen fardd), ond y mae yn taro i'm meddwl i hen benill a ddysgodd fy Nain i mi pan yn blentyn, ac os na wnewch chwi ddim digio mi deuda i o i chwi." "Dowch a fo," ebe ei phriod (gan ddisgwyl fod ganddo rywbeth a leddfai boen y feistres); ac ar hyn dyma fo allan:—

“ Yn wir mae hyn yn hynod,
Fod *danedd* gwraig yn darfod—
Ond tra bo yn ei genau chwyth,
Ni dderfydd byth mo'i *thafod*.”

Ond nid cynt nag y gorphenodd nad oedd yn hen hwyr i Thomas Ellis, druan, ei hysgubo hi yn ei ol yn nghynt na chynted allai, gan fod ysbryd Mrs. Davies wedi cythruddo drwyddo, a'r ddanodd, fel y tybiai yr hen fardd, wedi syrthio o'i genau i ewynau y fraich dde! 'Dydyw ddim yn *fanteisiol* dweyd y gwir bob amser.

NID DIGON GWIRION I HYN Y ETO.

WRTH weled dyn pur olygus yn cael ei gymeryd mewn cerbyd drwy pentref Llanrhaidr i Wallgofdy Dinbych yn ddiweddar, yn llawn o gydymdeimlad, yn ol arfer natur y rhyw deg, fe ddywedai un wrth y llall mewn tŷn digon uchel i'r lloerig ei chlywed, “ Druan o hono—dyma un arall yn myn'd i'r 'Sylum ynte—tybed fod ganddo fo wraig a phlant, deudwch?” i'r hyn yr atebodd yntau dan wenu, “ Na, fum i ddim yn *ddigon gwirion* i hyn y eto.”

BETH GAIFF WILLIE FOD?

WYDDAI Mrs. Jenkins, Penisa'rcwm, ddim yn y byd ma'wr beth i roddi ei bachgen ieuenga' — weithiau'n meddwl ei roddi'n Berson, neu'n Bregethwr, am fod ganddo *dalcen* allasai wneyd un o'r ddau yn iawn. Weithiau'n meddwl ei roddi'n Dwrne,—fod hono'n alwedigaeth ddiguro i wneyd arian: dim ond ysgrifenu llythyr bychan, dyna iddo 6/8- am dano—am ysgrifenu *notice to quit*, 6/8-, ac os byddai iddo gael gwneyd gweithred priodas, neu ewyllys, cyfrifai ei enill wrth y punoedd. Dro arall yn meddwl ei roddi'n Ddoctor, ond yn ddisymwth rhoddodd yr *idea* hono i fynu am fod gŵr y Fron yn dweyd fod Shakespeare yn tystio “ na fyddai yno yr un Doctor na Thwrne yn y nefoedd ”—ac fel yna yr esgeulusodd Mrs.

Jenkins, druan, roddi y bachgen yn ddim nes oedd wedi myned yn rhy hen ! Dyna fel yr oedd Willie, tra y bu ei fam byw, fel rhyw oen llywaeth o'i deutu hi, er gofid calon iddi, ac wedi ei mharw, gorfodwyd ef i wynebu ar y byd yn engrhaifft byw o'r peth eilw'r Sais yn *spoilt child*. Fachgen—

Os ydwyd ti am fyn'd yn fawr,
 O dechreu'n awr rhag blaen,
 A chychwyn ddyn ar yrfa'r byd
 Gan roi dy droed goreu'n mlaen ;
 Ond iti wneyd hyn, fe ddichon do'i
 I lwyddiant mawr cyn hir,
 Am hyny rho'th fryd ar goncro'r byd
 Ar ogoneddus dir—
 Yn lle bod a'i fys yn mrwes un arall,
 Fe fyddai yn well i bob un,
 Fyned a dyfod, tra yma'n y byd,
 Dan feindio 'i fusness ei hun.

YN BYW.

FE ddywedir yn aml nad oes neb ddaw i fynu â'r *Gwyddel* am ei "*wits and humour*," ond dengys yr enghraifft ganlynol, beth bynag, fod *Gwyddeles* mor *witty* âg yntau. Galwodd gŵr o Sais wrth dŷ *Gwyddel* y dydd o'r blaen, a gofynodd i'r wraig pan ddaeth i'r drws, "Ai dyma lle y mae Mr. McQuire yn byw?" "Ië, Syr," ebe hithau, "yma mae o'n *byw*, ond y mae o wedi *marw*." "Wedi marw (ebe'r ymwelydd pryderus), er's pa bryd?" "Wel, Syr (ebe hithau yn wylofus), tase fo wedi byw *tan y foru* fe fuasai wedi *marw* er's tair wythnos."

LLO AUR.

YR oedd hen batriarch o bregethwr pur enwog yn hol y plant, yn y gyfeillach, un nos Sabbath flynyddau yn ol, pan yr oeddynt yn dweyd eu hadnodau. Digwyddodd un o honynt ddweyd adnod a gyfeiriai at y Llo aur; a

chymerodd yntau achlysur i dynu sylw y plant at yr hanes yn fwy manwl. “Yr ydych chi wedi clywed yr adnod ddywedodd Johnny, onid ydych ’mhlant i? Wel ’rwan, fedrwch chi ddweyd wrthyf fi *pam yr oedd plant Israel yn gwneyd llo aur?*” Edrychodd y plant ar eu gilydd mor wirioned a geifr ar daranau, ac nid oedd neb yn ateb gair. “Dowch, dowch (ebe’r hen batriarch), peidiwch a bod yn wylaidd—yr ydych chi yn arfer bod yn blant da iawn am ateb bob amser, ac yr ydw i’n gwylbod y gellwch chi ateb y cwestiwn yma pe b’ae chi’n trio. Pam yr oedd plant Israel yn gwneyd llo aur fy mhlant anwyl i?” Ac heb ychwaneg o ymgynghori â chig a gwaed, fe daflodd un bachgenyn ei law allan ac a ddywedodd, “Achos ’doedd gyno fo ddim digon o aur i wneyd *buwch*, Syr.”

Y DYDD YN TORI.

Os oes gan ddyn eisio profi blas cwsg, dringed i ben y Wyddfa: a phwy bynag sydd yn brofiadol o’r dasg, mi roddaf fy ngair ei fod yn ei hystyried yn un o orchestgampau ei oes. Yr oedd yr hen gyfaill, William Owen, wedi dringo i’w goryn unwaith, ac wedi edrych o’i ddeutu ei wala, a chael lluniaeth, aeth i un o’r cabanau yno i gysgu, gan ddweyd wrth y gwyliwr yno am ei ddeffro i weled yr haul yn codi boreu dranoeth. Wedi dweyd ei bader, aeth i’w wely, a dyna lle ’roedd yn cysgu, debyg gan i, na chysgodd yr un pathew na thwrch erioed ddim trymach. Cyn toriad y wawr, dyma ei *guide* yn curo wrth ddrws ei gaban, ac yn gwaeddi, “Mr. Owen, mae’r dydd yn tori.” Ond yn lle cyfodi yn ol ei addewid, y mae yn ymstwyrian yn mreichiau Morphus, ac yn dywedyd yn groch, “Pw, be waeth gan i, *tored* o, *’does arno fo ddim i mi!*” a chlôdd y duw cwsg ei siaced am dano wedi hyny am oriau meithion!

"CODI Y BYS BACH!"

Cyflwynedig i fyddin y Ruban Lds.

O BOB arferiad sy'n y byd
 Ag sy'n darostwng dyn,
 Mae rhoi'r uwchafiaeth i'r bys bach
 Yn siwr o fod yn un;
 Am hyny tra bo'm yn y byd—
 Tra byddom byw ac iach,
 Ein hymdrech fo o hyd o hyd
 I atal y bys bach.

'Nol bod yn gyson gyda blas
 Yn gweithio'n ddiwyd iawn,
 O chwech o'r gloch y boreu glas
 I chwech o'r gloch prydnhawn;
 Mae'n resyn gwel'd y gweithiwr tlawd
 'N teimlo'n ddigon iach
 I fyn'd i'r dafarn, er pob gwawd,
 I godi y bys bach!

Mae'n resyn meddwl ar fy ngair
 Fod merched Cymru iach,
 Tra yn y farchnad neu y flair
 Yn codi y bys bach!
 Tra'r gŵr a'i lasied cryf o *Rum*
 Mae'r wraig a'i *drop of Gin*,
 Yn yfed nes yn *tight fel drum*,
 Heb hidio yr un pin!

Tra byddai'n neiniau ysgeifn fron
 Yn yfed dim ond llaeth,
 Mae merched mwynion yr oes hon
 Yn llowcio rhywbeth gwaeth:
 Yn wir, ni ddylai undyn byw
 Tra byddont haner iach,
 Roi ffordd i ffasiwn waetha'i rhyw
 O godi y bys bach.

DYDD PRIODAS.

Un o'r pethau mwyaf annifyr y gall dyn feddwl am dano, yw sefyllfa gwraig a fu mor anffortunus a phriodi

dyn meddw. Wrth gwrs, y mae o yn treulio ei oriau hamddenol, a llawer o oriau gwerthfawr eraill o ran hyny, lle mae ei galon—yn nhŷ y gyfeddach : a'r wraig, druan, yn dyhoeni yn ei chartref tlawd ac anghenocid, a gofid yn graddol fwyta ei chalon ! Daeth un felly i'r tŷ y nos o'r blaen, a chan rŷo yn ei gorn wrth ddyfod i mewn, y mae yn dechreu myned i ben ei wraig, druan o honi, na fuasai ganddi well swper i groesawu ei arglwyddiaeth—
 “Melldith i'r dydd y darfu i ni briodi,” ebe fe, dan ysgyrnygu ei ddanedd arni, pan yr atebodd hithau trwy ei dagrau—“Na, paid *melldithio* hwnw John, druan, o herwydd *dyna'r unig ddiwrnod dedwydd a gawsom ni erioed.*” Pe buasai ffasiwn beth ag i'r braddug allu cywilyddio, fe fuasai y frawddeg yna yn sicr o'i wneyd felly—ond na choelia i fawr.

“CYMYSGU SAESNEG.”

MAE 'n debyg na fu erioed y fath gymysgu Saesneg ag oedd yn yr Eisteddfod gynaliwyd yn yr Yorkshire Hall, Gwrecsam, ddechreu mis Mai, 1859. Yr oedd yr areithiau bron yn gyfangwbl yn *Seisnig*, a lluaws mawr o'r beirniadaethau, fel nad oedd ymfflamychiadau y Beirdd ond megys ymweliad angylion,—“*few and far between!*” Yn mhob ystyr arall yr oedd yn Eisteddfod lwyddianus. Wedi myned allan o'r cyfarfod prydawnol, aeth bardd ieuanc addawol o Sir Fôn gyda chyfaill i gael cwpanaid o dê, a chyn cyfranogi o ffrwyth y ddeilen gariadus hono, eisteddodd i lawr i ysgrifenu llythyr at ei gariad-ferch yn Môn, ac yn hwnw ysgrifenodd, yn ei dyb ef, benill oedd yn nodweddiadol o'r Eisteddfod, a dyma fel y rhedai :—

“*My dear is a phob rhinweddau,
 She'll cut and saw pob math o bethau,
 And with her hands and bysedd gwynion
 She'll breathless spin llieiniau meinion ;
 She is the rose tunesa i'r galon—
 There is none like her yn mysg y Saeson ;
 And further more mi fentraf draethu,
 There is none like her yn mysg y Cymry.*”

HOBÍ NO. VI.

Yr oedd yn ddyn diddichell, cywir, gonest, a ffyddlon; ac un ag yr oedd pawb a'i hadwaenai yn hynod dda ganddynt am dano; a thra bo dwfr yn rhedeg dan Bont Huwcy'n, a thafodau yn ysgwyd yn mhenau pobl fyw, fe serchus ymddiddenir am *Hynodion Dick Nancy*.

EI FARWOLAETH.

Mae'n taraw yn rhyfedd ar glust y darllenydd, hwyrach, fod hen was mor ffyddlon ag y bu Dick i angau yn cael ei wysio ganddo ei hun i roi ei arfau i lawr! Ond dyna yw y ffaith—ehedodd yr hyn oedd anfarwol o hono at yr Hwn a'i rhoes, yn bur ddisymwth, nos Sabboth, Mawrth 19eg, 1876, yn 80 mlwydd oed namyn un. Yr oedd ei gydnabod bron wedi myned i gredu nad oedd a wnelai brenin y dychryniadau ddim â bywyd yr hen frawd—ei fod, yn rhinwedd ei swydd fel torwr beddau, mewn cyngrair ág angy, ac wedi insurio ei fywyd ei hun ar bwys ei ffyddlondeb i lywodraethwr teyrnas y tywyllwch eithaf. Ond ha! chwythodd yr awel ddeifiol drosto yntau yn nghyflawnder yr amser, ac mwyach nis ceir ef ond yn y bedd a dorodd iddo ei hun er's rhai degau o flynyddau bellach! Yr oedd wedi paratoi ei fedd ei hunan er's gryn ddeugain mlynedd yn ol, a phob amser y siaradai am dano yr oedd yn siarad am dano nid fel ei fedd ond fel ei *barlwr*! Yn wir yr oedd wedi ei wneyd yn ddestlus—gyda brics, ar lun arch, a'i wyngalchu yn ofalus; a mawr y byd oedd ganddo am dano: ond erbyn heddyw y mae wedi myned i'w breswyllo.

Yr oedd yn ei ddyddiau diweddaf yn teimlo fod ei ymddatodiad yn ymyl, a siaradai am farw, pan oedd marw yn tremio yn ei wyneb, fel pe na buasai ond y peth mwyaf dibwys yn y byd. Ac nid ydyw hynny ddim yn rhyfedd, pan ystyriom ei fod wedi byw gymaint yn awyrgylch y fynwent fel yr oedd yn ail natur ynddo i ymgartrefu ynddi. Pan nad oedd ganddo ddim arall i'w

wneyd, i'r fynwent yr elai Dick i dreulio ei oriau hamddenol ac i ymbleseru! Yr oedd fel y ddau rheiny yn ngwlad y Gadareniaid—yn mhlith y beddau yn feunyddiol. Ac mor fynwentaidd oedd ei syniadau hyd y diwedd, fel pan alwodd cyfaill i edrych am dano un o'r dyddiau diweddaf y bu byw, y dywedai wrtho ei brofiad gyda golwg ar ei ddiwedd—"Wel, Will bach, mae hi *just* ar ben gyda Dick; fydd yr 'Hen Dderyn' yn myned i'w barlwr yn fuan iawn; ac un peth sydd yn dda iawn—mae Ned 'y mrawd wedi prynu côt ucha' iawn i mi, ac mi fyddaf yn bur glyd yno." Y "gôt ucha'" y soniai am dani oedd coed arch a brynodd ei frawd iddo. A chyda llaw, gallwn grybwyll ffaith arall pur ryfedd gyda golwg ar ei frawd Edward. Yr oedd wedi ceisio ei arch ei hun yn barod er's rhai blynyddau, ac yr oedd ganddo yn ei dŷ yn gwneyd yn lle *bureau*! Yn ei arch y cadwai ei bethau gwerthfawr oll—yn fwyd ac eiddo. Agorai ei chauad bob dydd, ac offrymai lawer gweddi ddyfal uwch ei phen; ac os bu dyn erioed yn barod i'w arch o ran ei gyflwr fel deiliad byd arall, yr oedd Edward Jones felly. Ond erbyn hyn, y mae yntau hefyd wedi ei gladdu yn yr arch a wasanaethai fel ei gwpwrdd bwyd dros lawer o flynyddau.

Cafodd Dick Nancy gladdedigaeth tywysogaidd y dydd Iau canlynol i'w farwolaeth. Ymgasglodd holl fasnachwyr y dref i'w hebrwng i'w *model grave*, chwedl yntau, a chauwyd yr holl fasnachdai a thai anedd yr elai y cynhebrwng heibio iddynt o'r dref i Lanfwrog, fel arwydd olaf o barch i *poor Dick*. Y mae hynyna yn ddigon i brofi ar unwaith mai nid rhyw gymeriad is-raddol mewn cymdeithas ydoedd Dick Nancy; ond yn hytrach creadur hynaws, caredig, ac addfwyn—yn hawlio edmygedd pawb o'i ddeutu.

Yr oedd wedi rhoddi siars fwy nag unwaith i'w gyfaill Hughes i ofalu, pan y byddai efe farw, i gael rhoddi *peal* ar y clychau yn union ar ol ei briddo, cyn i'r cyfeillion

wasgaru oddiwrth ei fedd; ac yn unol â'i gais, felly y bu! Yr oedd y clychau yn dispedain yr holl wlad fel pe buasai yn wyl-mab-sant gwyllt! Dyna oedd yr *hen arferiad* (ebe Dick pan yn gofyn y gymwynas yna oddiar law ei gyfaill), ond yn sicr yr oedd yn swnio yn chwithig iawn y dyddiau hyn.

Gyda llaw, fe ddywedir i'r "Hen Dderyn" "roddi ei droed ynddi" pan yn rhoddi siars y *peal* ar y clychau i'w gyfaill Hughes.

"I beth," ebe ei gyfaill, "liciet ti glywed ffasiwn beth, Dick?"

"*Liciwn* yn fy nghalon, Bob bach," ebe yntau, gyda y difrifwch mwyaf, gan roddi ar ddeall i Hughes na fuasai neb yn eu *enjoyo* yn fwy nag efe o'i *barlwr*!

PWNOH O FLODAU O ERDDI'R BEIRDD AR FEDD DICK NANCY.

I.

Gwae! gwae! unig yw Gwynedd—"Rhen Dderyn"
Ddaiarwyd! mae'n rhyfedd!
Och! roi hybarch arabedd,
Talent y fonwent i fedd!

Mawr y gloes, er mai ar glun—yr angau
Tregodd ei anwylun;
Coeliaf, cadd Dick, ei eilun
Wely ynghôl angau ei hun!

Brynaman.

GWYDDERIG.

II.

Tregodd dewr *squitor* angau—i'w hinsawdd
Aeth Dick Nancy'n ddiau;
Mewn hedd mae yn mro 'r beddau—
Ei ardd deg werdd wedi'i gau!

J. R. E.

III.

Trwm hanesydd tra mae'n oesi—a dyn
Ffraeth oedd Dick Nancy;
Addef raid—enillodd fri—
Gomerydd digamwri.

Ni sangodd gwell gwas i angeu—y byd
Na Dick bach yn ddiau;
Yn ei rych hwn geir wedi'i gau—yn hen
Wr arab addien a thorwr beddau.

Llangefni.

IOAN.

IV.

Draw i'r bedd y torwr beddau—ddygydd
Drwy eiddigedd angau:
'Rhen Dderyn i'r glyn yn glau
Fwriwyd hyd ryfedd foreu.

Caernarfon.

J. P.

V.

Dewr ringyll ar dir angau—ar ei swydd
Bu'n rhoi serch blynyddau:
Boddus oedd Dick yn mysg beddau—
Gweinidog hoff o'u gwneyd a'u cau.

DEWI GLAN DULAS.

VI.

Cu iawn ydoedd Dick a'i hynodion,
Mewn mynwentydd bu yn was ffyddlon,
Isel a gonest, un selog, union,
Cywir hefyd—synwyrâu cryfion;
Felly torodd y cyfaill tirion
Yn llafurus dyllau i feirwon—
Yntau o'i holl helyntion—aeth o'r byd,
Do, i'r gweryd—greadur gwirion.

JOSEPH O GOLWYN.

VII.

DICK NANCY ryfedd—y torwr beddau—
 Yma ei gystal ni fu am gastiau ;
 Un bach heinif, digrif, ni cha'dd dagrau
 Achos, ond unwaith, i rodio'i fochau ;
 Ei wâr baradwys ar segur brydiau
 Oedd y fynwent, neu rhyw hen guddfanau ;
 Yn ddilesg yno gwnai' chwim feddyliau
 Olrhain heb ochain i'r marwol âchau ;
 A dyn gonest iawn, ugeiniau—o'i fodd
 Hebryngodd i'r bedd drwy raib yr angau !

Ond dan dywarchen, a'i enau—yn fûd
 Hyd y farn mae yntau !
 Gwel'd y bedd wedi gau—ar Dick siriol,
 Ow ! dro ingol ! fe wrida angau !!

R. MON WILLIAMS.

VIII.

Rhyfedd ! rhoi awdwr beddau—yn y glyn !
 Dick dan glo'r priddellau !
 Rhoi'i hen was pur i'w nos bau
 Wnaeth ddangos *eitha* angau.

Llangefni.

MORWYLLT.

